Rhif 27 | Hydref 2018 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

Cyhoeddwyd gyda chymorth: Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Rhif 27 | Hydref 2018 | ISSN 1741-4261

# Gwerddon

Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg

Golygydd: Dr Anwen Jones

# Bwrdd Golygyddol

| | |
|---|---|
| Golygydd: | Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Mari Fflur a Dr Angharad Watkins |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru |
| | Yr Athro David Evans, Prifysgol Caerdydd |
| | Dr Noel A. Davies |
| | Dr Rhian Hodges, Prifysgol Bangor |
| | Yr Athro Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Carwyn Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| | Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd |
| | Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| | Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe |
| | Gwerfyl Roberts, Prifysgol Bangor |
| | Wyn Thomas, Prifysgol Bangor |
| | Yr Athro Daniel Williams, Prifysgol Abertawe |
| | Yr Athro Ioan M. Williams |
| | Dr Eryn White, Prifysgol Aberystwyth |

E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.
ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.cymru

# Cynnwys


Golygyddol 5

Dafydd Sills-Jones ac Anne Marie Carty,
'*Y Gors*: archwilio'r ffin rhwng awduraeth a chyfranogiad yn y ffilm ddogfen' 6

Gruffydd Jones, John Scullion, Ana Winters, Rhys Owen, John Ratcliffe, Doug Oliver, a Dylan Gwynn-Jones, '*Rhododendron ponticum*: Hanes ei gyflwyno a'i ymlediad yng Nghymru, y bygythiad i fioamrywiaeth a'r dyfodol' 20

Iwan Wyn Rees a Jonathan Morris, 'Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid *Cymraeg i Oedolion* o anawsterau ynganu ymhlith dysgwyr yr iaith' 39

Meilyr Powel, '"Beth os mai hon yw Armagedon?":
Crefydd a'r Wasg Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf' 67

Cyfranwyr 95

# Golygyddol

Dr Anwen Jones

A ninnau ar gychwyn blwyddyn academaidd newydd, mae'n bleser cyflwyno rhifyn arall o *Gwerddon*. Ceir arlwy amrywiol ac ysbrydoledig ar gyfer darllenwyr *Gwerddon* yn y rhifyn hwn, gyda chyfraniadau o feysydd Hanes, y Biowyddorau, Y Gymraeg a'r Diwydiannau Creadigol. Mae'r erthygl agoriadol gan Dafydd Sills-Jones yn torri tir newydd, arloesol, yn y Gymraeg wrth i'r awdur gyflwyno ac archwilio cyfres o gwestiynau ymchwil drwy gyfrwng prosiect ymchwil, ymarferol, ar ffurf ymarfer fel ymchwil. Mae Sills-Jones yn dilyn fformat a sefydlwyd gan gyfnodolion cyfrwng Saesneg megis *Screenworks* wrth gyflwyno ffrwyth prosiect ffilm o fewn cyd-destun a dull dadansoddol ac ysgolheigaidd. Gobeithio'n wir y daw rhagor o gyfraniadau o'r math hwn gerbron darllenwyr *Gwerddon* yn y dyfodol er mwyn i ni aros ar flaen y gad, ac er mwyn i'r cyfnodolyn gynnig a meithrin yr un cyfoeth ac ystod o fodelau a methodolegau ysgolheigaidd ag a wna o bynciau a meysydd trafodaeth. Mae'r ail erthygl, sef astudiaeth Jones, Cullion, Winters, Owen, Ratcliffe, Oliver a Gwynn-Jones o ymlediad *Rhododendron ponticum* yng Nghymru yn gafael yn nychymyg bob un ohonom sydd wedi crwydro erwau Cymru a sylwi ar harddwch a gwydnwch y planhigyn rhodresgar hwn. Erthygl wyddonol yw hon, wrth gwrs, ac ynddi cyflwynir data a dadansoddiad manwl o hanes, ymlediad ac ymddygiad y planhigyn hwn ac oblygiadau ei lwyddiant digamsyniol yng nghyd-destun ecoleg ehangach Cymru. Ceir cyfraniad amserol iawn mewn maes go wahanol gan Iwan Rees a Jonathan Morris, sy'n mynd i'r afael ag ambell un o'r heriau i oedolion sy'n mynd ati i ddysgu'r iaith Gymraeg. Ceir trafodaeth ddiddorol ynghylch anawsterau ynganu'r Gymraeg o safbwynt addysgwyr a dysgwyr sy'n oedolion, ac mae'n bur amlwg y bydd ymchwil yn y maes hwn yn datblygu'n sylweddol yn y blynyddoedd i ddod wrth i Gymru ymdrechu i gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. I gloi'r rhifyn, ceir ymdriniaeth Meilyr Powel ag ymateb ymfflamychol o ddiddorol y wasg Gymreig i'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae ymroddiad yr awdur i astudiaeth fanwl, swmpus, sy'n cloriannu a chrynhoi data archifol ac arwyddocaol yn dadlennu'r un fethodoleg athronyddol ac ysgolheigaidd ddisglair ag a gawn yn achos yr erthyglau eraill. Braf gweld arlwy mor amrywiol, oll wedi eu cyflwyno yn yr un dull ysgolheigaidd ac arobryn. Mwynhewch y darllen!

# *Y Gors*: archwilio'r ffin rhwng awduraeth a chyfranogiad yn y ffilm ddogfen

Dafydd Sills-Jones[1] ac Anne Marie Carty[2]

[1]*Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Prifysgol Aberystwyth**
[2]*CREAM, Prifysgol Westminster*

Cyflwynwyd: 6 Chwefror 2017; Derbyniwyd: 6 Chwefror 2018

**Crynodeb:** Mewn ateb i alwad gan yr Arts and Humanities Research Council, a chyda chymorth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gwnaethpwyd ffilm ddogfen farddonol/arbrofol fer yn 2016 gan Anne Marie Carty, Nick Jones a Dafydd Sills-Jones ar destun Cors Fochno, ger Y Borth. Mae Cors Fochno yn un o brif gorsydd mawn gorllewin Ewrop, ac yn gartref pwysig i fyd natur unigryw, ynghyd ag i astudiaethau gwyddonol pwysig, gan gynnwys astudiaethau hinsawdd. Mae'r gors felly'n drosiad ffilmig defnyddiol er mwyn trafod man cyfarfod nifer o bynciau a phersbectifau, gan gynnwys teimladau'r gymuned leol tuag at wylltir, cynaliadwraeth ffermio lleol, ac yn fwy eang hanes a dyfodol y berthynas rhwng dyn a'i amgylchedd. Mae'r erthygl hon yn olrhain y dynesiadau a'r cysyniadau y tu ôl i'r ffilm, gan roi'r ffilm yn nhraddodiad ymchwil-fel-ymarfer.

**Allweddeiriau:** dogfen, cerddoriaeth, hunaniaeth, tirwedd, ymarfer-fel-ymchwil.

## *Y Gors [The Bog]*: examining the boundary between authorship and contribution in documentary film

**Abstract**: In answer to a call by the Arts and Humanities Research Council, and with the support of the Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Anne Marie Carty, Nick Jones and Dafydd Sills-Jones made a poetic/experimental documentary film in 2016, on the subject of Cors Fochno, near Borth. Cors Fochno is one of Western Europe's major peat bogs, is home to a unique ecology, and also home to important scientific study, not least into climate change. The bog was therefore a useful filmic metaphor for a number of issues and perspectives, including the feelings of the local community towards wilderness, the sustainability of local farming, and more broadly the history and future of human relationship with the environment. The article traces the approaches and concepts behind the film, and by doing so places it in the tradition of 'practice-as-research'.

**Key words:** documentary, music, identity, landscape, practice-as-research.

* dafydd.sills-jones@aut.ac.nz

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

Mae'r traethawd hwn yn cyflwyno ffilm *Y Gors* (2016) fel darn o ymchwil fel ymarfer, yn ôl y diffiniadau a ddatblygwyd trwy raglen PARIP (2001–05), a thrwy waith Robin Nelson (2006). Mae'n addasu ffurf gyflwyniadol JMP Screenworks (<www.screenworks.org.uk>) o ran ffurf y traethawd, sydd i fod i gyflwyno cefndir, cwestiynau ymchwil, methodolegau a chanlyniadau'r gwaith heb darfu ar y gwaith ei hun fel brif swmp yr ymchwil. Mae enghraifft dda o'r math hwn o gyflwyniad i'w gweld yma:

<http://screenworks.org.uk/archive/volume-5/underground>

Y gobaith yw y bydd mabwysiadu arddull gyflwyniadol ar *Gwerddon* yn ysgogi mwy o waith o'r fath yn y Gymraeg.

Er bod Screenworks yn pennu uchafswm o 2000 o eiriau i fynd gyda'r gwaith, mae'r darn hwn yn gyfanswm o bron 5000 o eiriau er mwyn rhoi'r gofod angenrheidiol i esbonio cyd-destun a method mewn maes arloesol yn y Gymraeg.

Mae'r gwaith yn tarddu o grŵp ymchwil newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth – Ymarfer Sgrin Aber – sy'n gweithredu ac yn hyrwyddo'r modd hwn o ymchwil ymarferol cyfryngol.

---

## *Y Gors*




Awdur(on): Dafydd Sills-Jones, Anne Marie Carty, Nick Jones

Fformat: Dogfen Farddonol

Hyd: 17' 45"

Linc: <https://vimeo.com/195591970>

Cyfrinair: mawn

# Gosodiad Ymchwil

## Cwestiynau Ymchwil

Crëwyd *Y Gors* gan Anne Marie Carty, Nick Jones a Dafydd Sills-Jones rhwng 2015 ac 2016, ac fe'i hariannwyd gan brosiect 'Hydrocitizens' yr AHRC, a chan gronfa strategol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'n portreadu perthynas un o brif gorsydd mawn Prydain – Cors Fochno – â'r cymunedau sy'n byw ar ei chyrion. Mae'r ffilm yn gwneud hyn wrth weithio gyda chôr lleol sy'n cymryd enw'r gors, sef Côr y Gors, sy'n hanu o bentref Y Borth. Un o wneuthurwyr y ffilm, Nick Jones, yw arweinydd y côr, a dim ond miwsig Nick sy'n gael ei berfformio gan y côr. Mae Nick yn ysgrifennu miwsig sy'n tarddu o'r profiad lleol, ac wedi'i ysgrifennu ar gyfer lleisiau arbennig trigolion cyrion Cors Fochno.

Mae cwestiynau ymchwil y ffilm yn tarddu o drafodaethau ynglŷn â sut i ymdrin â deuoliaeth ffilm ddogfen – ei gallu i 'hawlio'r real' (Winston 1995) a'i natur strwythuredig – mewn cyd-destun prosiect penodol. Craidd y drafodaeth yw'r tensiwn rhwng, ar yr un llaw, yr agwedd mai cynhyrchiad diwylliannol yw ffilm ac nid ffenestr ar y byd, ac ar y llaw arall, y duedd gref i'r codau gweledol ac ideolegol sydd yn amgylchynu ffilmiau dogfen fynnu bod cysylltiad indecsaidd rhwng yr hyn sydd yn y ffrâm, a'r hyn a ddigwyddodd yn y byd hanesyddol. Yn ddau begwn i'r drafodaeth, mae gallu awdur ffilm ddogfen i ddangos y gwir ar y sgrin un ai'n fater eithaf uniongyrchol (e.e. mewn disgwrs gwneuthurwyr ffilm megis Alex Gibney), neu'n fater o amhosibilrwydd (megis yng ngwaith beirniadol a ffilmaidd Minh-ha). Mae lleisiau yng nghanol y sbectrwm, megis Bruzzi (2006) a Winston (2008) yn mynnu bod natur ddeialogaidd (*dialogical*) rhwng y byd hanesyddol a'r byd ar-sgrin, a bod angen i'r gwneuthurwr ddefnyddio'r pellter hwn yn greadigol, ac i'r gwyliwr ddarllen yn ofalus, er mwyn i ffilm ddogfen adlewyrchu cymhlethdod realiti ar sgrin.

Yn yr achos hwn, mae'r ddeuoliaeth hon yn rhannu i ddau brif gwestiwn:

1. **Sut medrid cymodi llais yr awdur a llais y cyfrannwr mewn ffilm ddogfen?**
   Yn gyntaf, mae'r prosiect hwn yn archwilio deinameg y berthynas rhwng llais yr awdur a llais y cyfrannwr. Wrth wneud hyn, mae'n archwilio sut mae ffilm yn siarad â chymuned arbennig, leol, o wylwyr, ac yn ail, sut mae ffilm yn defnyddio cyfraniadau fel symbolau wrth iddi gael ei gwylio – a'i dehongli – gan gynulleidfa ehangach. Wrth wneud ffilm ffeithiol ar gyfer cymuned, ac wrth i'r awdur ddisgwyl i'r ffilm gael bywyd ehangach y tu allan i'r gymuned, sut mae modd cymodi'r lleisiau hyn?
2. **Sut medrid defnyddio iaith an-realaidd dogfennol heb ddieithrio un ai a) y gymuned yn y ffilm, b) y gynulleidfa ehangach ar gyfer y ffilm?**
   Yn ail, mae'r prosiect hwn yn ceisio archwilio'r tensiwn rhwng moddau realaidd a thoredig o gyflwyno'r 'real', a'u gramadegau sinematig

> gwahanol. Mae gan y ddogfen realaidd ei phroblemau dirfawr (gweler beirniadaeth Winston, Bruzzi, Minh-ha, etc). Yn y ddogfen greadigol, mae modd osgoi rhai o'r problemau hyn drwy ddefnyddio technegau clywedol o bob math er mwyn creu naws drosiadol ac anghyfarwydd (yn ôl *Ostranenie* Shlovsky, neu *Lehrstück* Brecht). Ond mae hyn yn medru peri problem i gynulleidfa ddibrofiad, anarbenigol. Gall y technegau hyn arwain at ddieithrwch o fath gwahanol; un sy'n defnyddio cyfranwyr lleol ar gyfer neges a chynulleidfa fwy eang, ac wrth wneud hynny, peidio â bod yn driw i wirionedd y sefyllfa wreiddiol.

Mae'r cysylltiad rhwng y ddau gwestiwn yn bwysig, ac yn adlewyrchu'r ddwy 'foment' ethegol sy'n bodoli mewn cynhyrchu dogfen; a) ymwneud â'r byd wrth gasglu'r deunydd crai, b) ymwneud â'r byd wrth ddangos y ffilm (ac ynghlwm wrth hyn, y broses olygu sy'n sefyll rhwng y ddwy). Yn gyntaf, mae cwestiwn 1 yn cymryd bod problem pan fo'r deunydd yn cael ei gasglu. Pa fath o agwedd sydd gan yr awdur? Pa fath o drawsenwi sy'n bodoli wrth gywasgu amlochredd realiti i mewn i ffurf sinematig? Sut mae'r penderfyniadau hyn yn ystumio (neu'n cam-ystumio) goddrychedd y cyfranwyr? I ba raddau y mae modd osgoi hyn, ac i ba raddau mae hynny'n foesol angenrheidiol?

Mae'r ail gwestiwn yn troi at yr ail foment foesegol; sef bywyd y ffilm yn y byd sydd ohoni. Dyma pryd y gallwn weld effaith y broses o wneud y ffilm ar y gynulleidfa. Gall hyn fod yn ffurf rôl y ffilm mewn trafodaethau gwleidyddol a pholisi, ac yn ychwanegol at hynny, yn y ffordd y mae'r ffilm yn adweithio i gynrychiolaethau cynharach ac yn fframio cynrychiolaethau i ddod. Goblygiad yr ail gwestiwn yw bod angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r iaith ffilm gywir i'w defnyddio, er mwyn medru pwyso a mesur y berthynas rhwng yr awdur a'r cyfrannwr mewn unrhyw sefyllfa arbennig. Heb wneud hynny, byddai risg i'r ffilm fabwysiadu persbectif estron, un a oedd yn troi'r broses o ddehongli realiti yn un o echdynnu gwerth adloniannol ffug o'r sefyllfa. Yn y prosiect hwn, roedd nifer o ffactorau yn golygu bod angen gwylio'r ddwy elfen hon yn agos iawn. Yn eu mysg yr oedd natur yr ariannu, natur y gymuned, a gwedd wleidyddol ddiamheuol Cors Fochno ar nifer o lefelau.

Un hypothesis sylfaenol wrth wneud y ffilm oedd y byddai strwythurau cerddorol, ynghyd â'r ymarfer o leoli cyfansoddi cerddoriaeth yng nghraidd y broses ffilmio, golygu a dangos, yn medru ymateb i'r ofnau sy'n codi o'r ddau gwestiwn ymchwil:

1. Bod fframio'r ffilm drwy'r côr, a thrwy fiwsig y côr, yn medru mynegi rhyng-oddrychedd grŵp o gyfranwyr ac awduron, a'u perthynas â'r byd meta-ddynol (h.y. y gors ei hun). Bod hyn yn bwysig o fewn cyd-destun ariannu'r prosiect hwn.
2. Bod defnyddio technegau cyfansoddol wrth olygu'r ffilm yn medru galluogi'r gwneuthurwyr i 'ohiriannu' (i fenthyg y term cerddorol *suspension*) nifer o bersbectifau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, heb orfod symud tuag at foddau realaidd dogfennol, a'r syniad o 'falans'. Gall hyn olygu bod darlleniadau 'lleol' ac 'eang' ar gael drwy'r un ffilm.

## Cyd-destun

Cafwyd llwyddiant cymharol gan Anne Marie Carty a Dafydd Sills-Jones wrth geisio mynd i'r afael â'r cwestiynau hyn mewn darnau o waith cynharach.

Cynhyrchodd Anne Marie Carty gyfres o ddogfennau arsylwol yn nyffryn Dyfi o'r enw *Tir Cyffredin – Shared Land* (2011). Wrth i Anne Marie Carty greu ffilmiau yn ei chymuned, roedd y ffilmiau hynny'n archwilio tensiynau rhwng ymarferion arsylwol a chydweithiol dogfennol. Yn y sefyllfa honno, roedd tensiynau canolog dogfen – triniaeth greadigol *actuality* realiti (yn ôl Grierson 1934) – yn cymryd ffurf arbennig, wrth i benderfyniadau awdurol effeithio ar bŵer cyfranwyr dros eu cynrychioliad.

Adwaith Carty oedd defnyddio ymarferiadau atblygol mewn system o ymgynghori, negodi a chydweithio er mwyn rhoi cyfle i gyfranwyr hawlio pŵer dros y broses gynhyrchu. Er hynny, cafwyd effaith negyddol ar strwythur naratif ac iaith esthetaidd y ffilm drwy'r negodi a chydweithio. Roedd Carty yn nodi bod iaith y ffilm yn gwanhau, a chyda hynny, bod posibiliadau mynegiannol y ffilmiau yn lleihau oherwydd y broses foesegol.

Er enghraifft, pan oedd golygfeydd a ddangosodd ddigwyddiadau 'mewnol' (o fewn y gymuned) yn gwneud synnwyr ac yn ymddangos yn gywir i'r gynulleidfa leol, roedd yr un golygfeydd yn anodd i'r gynulleidfa 'allanol' oherwydd diffyg dealltwriaeth o osodiad daearyddol a chymdeithasol y ffilmiau. Roedd cyfranwyr yn teimlo bod naratif cronolegol caeth yn rhan bwysig o gynrychioli 'realiti', ac yn gynrychioliad teg. Roedd y gwrthwyneb yn wir i'r gynulleidfa 'allanol'; roedd modd cronolegol yn gweithio yn erbyn patrymau naratif arferol, ac yn methu â chyfleu datblygiadau dramatig a oedd yn ddisgwyliedig o ddogfen arferol. Yn lle hynny, crëwyd cryn dipyn o ddryswch wrth bwysleisio golygfeydd a oedd yn bwysig i'r cyfranwyr, ond yr oedd angen mwy o 'siapio' naratif arnynt ar gyfer y gynulleidfa allanol, ac wrth fethu â phwysleisio golygfeydd o bwysigrwydd dramatig i'r gynulleidfa allanol (Carty 2010: 112).[1]

Roedd ymgais flaenorol Sills-Jones – y ffilm *17* – yn portreadu'r metaffisegol a'r meta-ieithyddol mewn ffordd hunangofiannol. Datblygwyd y ffilm bennod wrth bennod, a thrwy ddefnyddio modd Flaneur-aidd. Wrth symud i ffwrdd o ddefnydd y modd flâneur-aidd gan eraill megis Kotting (*Gallivant* 1996), Kossof (*Trilogy* 2009–2011), neu Gee (*Patience – After Seebald* 2012), roedd Sills-Jones yn defnyddio cerdded fel arf ymchwil, wrth iddo adfyfyrio dros ffynonellau llenyddol, beirniadol a cherddorol mewn ymgais i ganfod estheteg a fyddai'n mynegi'r profiad hiraethus/cartrefol o fyw mewn maestref yn Helsinki.

Wedi hyn, dewiswyd nifer bychan o ffynonellau a oedd yn addas ar gyfer y teimlad, yr affaith (*affect*) o fod yn y sefyllfa honno, a ddefnyddiwyd i greu cyfres o benodau sinematig. Cyfunwyd y ffynonellau cerddorol (Shostakovich), beirniadol (Bakhtin, yn Bruns 2008) a chyfryngol-lenyddol (Bernstein 1973) o amgylch y defnydd o 24 Rhagarweiniad a Ffiwg, Op. 87, fel ffordd o gysylltu penodau anghydweddol a ffilmiwyd ac a olygwyd mewn nifer o is-

---

[1] Carty, A. M., 'Tir Cyffredin – Shared Land: The creation of identity, cultural tradition and community in the Dyfi Valley, Mid Wales', traethawd MPhil, Prifysgol Manceinion, Manceinion, 2011 <https://www.escholar.manchester.ac.uk/item/?pid=uk-ac-man-scw:105380> [Cyrchwyd: 10 Rhagfyr 2016].

genrau ffeithiol (ffilm gartref, agitprop, kino-eye, arsylwol, barddonol). Yn ogystal, daeth y rhif 17 yn thema ddamweiniol mewn nifer o'r penodau, sy'n atgyfnerthu'r honiad mai 17 yw'r rhif a ddewisir fwyaf ar hap.[2] Er enghraifft, gweler yma un o'r penodau sy'n asio ei bersbectif unigol, tirlun Helsinki, a cherddi ei dad (R. Gerallt Jones) o'r gorffennol:

<https://vimeo.com/129917737>

Roedd yr ymgais yn llwyddiant, wrth iddi ddangos sut y gall strwythur cerddorol gysylltu darnau anghydweddol heb orfod defnyddio strwythur a iaith ffilm realaidd or-dynn, gan golli felly lefel bwysig o fynegiant amlweddol, neu i fenthyg term Bakhtin, 'poliffonig'. Y broblem gyda'r ffilm oedd bod yr hunanfywgraffiadol mor gryf oddi mewn iddi, ei bod yn ailadrodd rhai o'r problemau a welwyd yng ngwaith Carty, sef y tensiwn rhwng awduraeth a gwrthrychedd. Er enghraifft, roedd cynulleidfaoedd yn adweithio'n bositif i delynegiaeth y ffilm, ond roeddent yn teimlo ei bod yn fwy o bortread o'r awdur nag o'r faestref. Mae'r awdur yn teimlo bod y ffilm wedi gweithio mewn rhai mannau, ond nad yw natur 'benodaidd' y strwythur – er ei fod yn gwarantu ac yn cysylltu persbectifau niferus – yn ateb y cwestiwn yn ddigon llawn ynglŷn â'r tensiwn rhwng naratif a chyflwyno realiti. Beth oedd ei angen yn y prosiect nesaf oedd i'r miwsig ddyfod o'r realiti, ac o realiti cyfranwyr eraill, yn hytrach na bod dylanwad/safbwynt yr awdur cyn gryfed.

## Goblygiadau Ariannu

Ariannwyd y ffilm drwy ddwy ffynhonnell, a wnaeth siapio'r ffilm i ryw raddau. Yn gyntaf, ariannwyd y ffilm drwy brosiect Hydrocitizens yr AHRC, a oedd yn bwriadu cyflawni'r canlynol:

> The project is about looking at how individuals and communities relate to water and the issues associated with it; how these were dealt with in the past; current environmental concerns and conflicts and future resilience in the face of change. Relationships within communities and between communities can be developed through exploring the stories of past and current relationships between people and water. (Hydrocitizens 2015)

Roedd yr alwad yn cyd-fynd â phrosiectau arfaethedig ar y cyd rhwng Anne Marie, Nick Jones a Dafydd Sills-Jones, ac roedd hwn yn gyfle euraidd i geisio ateb y cwestiynau uchod. Roedd dwy elfen yn arbennig yn y dyfyniad uchod a oedd yn ddefnyddiol fel cyfyngiad creadigol: y diffiniad o'r gymuned, a'r nod o ddatblygu ymwybyddiaeth y gymuned o faterion i'w gwneud â dŵr. Roedd y ddwy elfen hon yn codi cwestiynau dyrys ynglŷn ag awduraeth, gwybodaeth, a chymuned. Yn gyntaf, pwy oedd y gymuned, a sut oedd modd ei diffinio? A oedd risg y byddai diffiniad o'r fath yn gosod perspectif awdurol trwm, a allai greu darlun

[2] Mae'n lled adnabyddedig ymysg mathemategwyr mai 17 yw'r rhif a ddewisir fwyaf ar hap rhwng 1–20 gan fod dynol. Er enghraifft, gweler blog Dave Munger: <http://scienceblogs.com/cognitivedaily/2007/02/05/is-17-the-most-random-number/> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2016].

ffug, camarweiniol, difrodus o'r pentref? Yn ail, roedd risg y byddai'r prosiect yn gwrthod mathau o wybodaeth a oedd eisoes yn rhan o'r cymunedau, ac yn hytrach na gwrando a cheisio gweithio gyda'r ffurfiau hyn, byddai'r ffilm yn gor-bwysleisio gwybodaeth swyddogol, fiwrocrataidd, gan ddileu rhan bwysig o swyddogaeth y gymuned leol.

Cododd trydedd elfen wrth ariannu'r prosiect hwn, sef yr adnoddau oedd ar gael. Rhoddwyd tua £4,000 i'r tîm cynhyrchu, gyda £2,500 arall yn dod o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC). Roedd y swm hwn yn un isel iawn o ran cyllid cynhyrchu proffesiynol, ac felly roedd yn rhaid wynebu terfynau ymarferol cyllid o'r fath, er enghraifft dyddiau saethu a golygu. Yn olaf roedd arian y CCC yn annog y cynhyrchiad i adfyfyrio ar y Gymraeg, ynghyd â'i swyddogaeth ym materion Cors Fochno a'i chyrion.

## Methodoleg

Er mwyn ateb y cwestiynau o fewn y cyd-destun hwn, daeth Anne Marie Carty, Dafydd Sills-Jones a'r cyfansoddwr Nick Jones at ei gilydd i weithio ar ffilm ynglŷn â Chors Fochno, un o brif systemau dŵr yr ardal.

Dewiswyd Cors Fochno oherwydd ei pherthynas â system ddŵr y dyffryn, yn dilyn gofynion yr ariannu. Yn ogystal, mae lle'r gors o fewn bywyd y dyffryn yn amwys. Nid yw'n bwydo, nac yn cael ei bwydo, gan system ddŵr cyffredinol y dyffryn. Mae'r gors felly'n drosiad cyfleus am y teimlad o ddatgysylltiad sydd i'w weld ar nifer o lefelau dros ei pharth. Er enghraifft, mae'r datgysylltiad rhwng cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith, rhwng ffermwyr ac amgylcheddwyr, rhwng pobl ddŵad a thrigolion brodorol, i'w weld yn hanes a lleoliad y gors.

Yn ogystal, mae'r gors yn gweithio fel goddrych ar lefel meta-ddynol, trosiadol. Mae natur ohiriannol y bywyd organig sydd ynddi – heb fod yn hollol fyw, ond heb bydru chwaith – yn codi'r syniad barddonol o ryw fath o gof organig hynafol gyda chwmpas llawer hwy na'r cof dynol, hyd yn oed yn hwy na hanes dynol. Roedd y gors felly'n dyst i holl hanes datblygiad technolegol dyn, a fyddai'n parhau i fod yn dyst nes i brif ganlyniad catastroffig ein hymyrraeth â'r hinsawdd, sef codiad sylweddol yn lefel y môr, arwain at farwolaeth y gors.

Fel tîm cynhyrchu, roeddem yn ymwybodol bod themâu o'r fath a oedd â chysylltiad â newid hinsawdd i'w gweld ym mhob man yn y cyfryngau, ac eto'n ymddangos yn aneffeithiol o ran newid credoau a phatrymau byw'r mwyafrif o bobl. Roedd tebygrwydd rhwng y ffordd yr oedd testunau cyfryngol yn delio â newid hinsawdd a'n cwestiynau canolog ymchwil ynglŷn â ffilm ddogfen. Hynny yw, bod awduraeth trwm, dadlau polemic gwleidyddol a nawddogrwydd dosbarth dominyddol o arbenigwyr yn medru diffodd y cysylltiad pwysig ac effeithiol rhwng realiti sefyllfa benodol a'i chynrychioliad ar y sgrin. Sut, yn fyr, y gellir cynrychioli'r darlun mawr drwy'r darlun lleol heb fradychu'r un o'r ddau? Dyna oedd y cwestiwn a unodd ein synfyfyriadau ynglŷn â ffilm ddogfen a'r thema o newid hinsawdd.


Er mwyn darganfod llwybr drwy'r problemau hyn, gweithiodd y tri awdur gyda Chôr y Gors. Mae aelodau'r côr i gyd yn byw ar gyrion y gors, ac mae'r côr yn canu dim ond miwsig

a gyfansoddwyd gan Nick, gyda Nick yn ysgrifennu ynglŷn â'r profiad lleol ac ar gyfer (a thrwy) lleisiau unigolion arbennig o fewn y côr a'r gymuned. Yn ychwanegol, mae enw'r côr yn dangos agosatrwydd ysbrydol yr aelodau tuag at y gors, ac felly'r syniad barddonol canolog i ddatblygiad y ffilm oedd bod y côr yn medru 'lleisio' cors, o leiaf y gors fel y mae'n ymddangos yn isymwybod torfol y côr.

Un cwestiwn pwysig oedd y math o iaith glywedol a fyddai'n medru cyflawni rhai o'r nodau i'r ffilm. Roedd nifer o enghreifftiau yn goleuo llwybr, fel ffilm Perez, *Suite Habana* (2003), sy'n portreadu Havana yn y 'cyfnod trosiannol' ar ôl cwymp y CCCP a chyn polisïau newydd Raul Castro. Roedd arsylwad cydweithredol y ffilm, a'r ffaith nad ynganwyd yr un gair, yn help i wasgaru'r swyddogaeth awdurol ar draws y ffilm, ac yn gwrthod dehongliad parod, cul. Roedd ffilm amgylcheddol Madsen, *Into Eternity: a Film For the Future* (2010), yn cymysgu moddau realaidd dogfennol, megis cyfweliadau ac arsylwadau, gyda chysyniadau barddonol, dieithriol, wrth i swyddogion fynd i'r afael â dyfnderau athronyddol a dirfodol dyfodol pell y ddynoliaeth. Yn ogystal, roedd telynegiaeth ysgafn Luostarinen yn ei ffilm *Kotona Kylässä [Yn Gartrefol Mewn Pentref]* (2012) yn dangos bod modd bod yn driw i fanylion penodol bywyd heb golli cysylltiad â chynulleidfa ehangach. Yn bwysig, roedd y tair ffilm yn dangos bod modd mabwysiadu iaith ffilm ddogfen gymharol arferol a phrif ffrwd heb fradychu un ai'r lleol na'r cyffredinol.

## Defnyddio cyfansoddi fel modd golygu radical

Gweithiodd Anne Marie Carty a Dafydd Sills-Jones yn agos iawn gyda'r cyfansoddwr, Nick Jones, o ddechrau'r cynhyrchiad. Gwnaethpwyd penderfyniad cadarn i beidio ag ymdrin â'r prosiect fel trac sain, nac i greu darn o fiwsig a thorri lluniau iddo yn y stafell olygu. Treuliodd Nick Jones lawer o amser yng Nghors Fochno yn recordio synau, yn ychwanegol i'r amser a dreuliwyd gan Anne Marie Carty a Dafydd Sills-Jones wrth gasglu deunydd clywedol. Dyma fraslun o'r broses:



Fel y gwelir o'r braslun uchod, roedd deinameg 'yn ôl ac ymlaen' yn perthyn i'r gweithlif cynhyrchu, wrth i'r cyfansoddwr a'r gwneuthurwyr ffilm adweithio i waith ei gilydd. Canlyniad y ddeinameg hon oedd creu rhyw fath o 'ohiriant' semiotig, lle'r oedd y gerddoriaeth yn gwrthod gadael i unrhyw lais penodol ddominyddu'r ffilm gyfan. Er gwaethaf gobeithion telynegol yr awduron ar ddechrau'r prosiect, roedd natur wleidyddol Cors Fochno yn amhosibl i'w anwybyddu ac yn wir roedd yn rhan bwysig o wead ysbrydol y tirlun. Felly roedd y broses hon yn galluogi'r awduron i gynnwys deunydd polemig heb i'r ffilm golli ei gallu i siarad y tu hwnt i'r ddisgwrs ffeithiol-wyddonol. Yn gryno, gweler isod rai o'r 'gohiriannau' allweddol a grëwyd, ac esboniad cyflym am sut mae'r rhain yn berthnasol i'r cwestiynau ymchwil.

## Canlyniadau

Wrth ateb y cwestiwn ymchwil ynglŷn â'r berthynas rhwng yr awdur a'r cyfrannwr, prif her y prosiect fel iddo ddatblygu oedd sut oedd delio â'r cwestiwn o wleidyddiaeth. Roedd polareiddiad clir ymysg trigolion cyrion y gors ar nifer o gwestiynau, a buasai anwybyddu hynny er mwyn creu naws delynegol yn ymyrraeth ormodol ar ran yr awdur. Ond ar y llaw arall, byddai creu ffilm a oedd yn gaeth i ddisgwrs o'r fath – h.y. 'balans' newyddiadurol – wedi methu ag adlewyrchu cymhlethdod y sefyllfa, ac i ryw raddau wedi dyrchafu'r trafodaethau geiriol uwchben nifer o haenau dirfodol eraill, e.e. ymwead a pherthynas dyn â natur o fewn y dyffryn.

Roedd dau faes yn arbennig lle yr oedd angen bod yn wyliadwrus, a lle y gwnaeth y 'gohiriant' cyfansoddol wrth wraidd y ffilm weithredu mewn modd cadarnhaol, sef y gwleidyddol a'r ieithyddol. Yn gyntaf, roedd y cwestiwn ynghylch y frwydr wleidyddol-ddiwylliannol rhwng y gymuned amaethyddol a'r pwerau cadwraeth amgylcheddol. Roedd statws y gors i'r ddwy ochr yn codi cwestiynau o ryddid masnachol a strategaeth amgylcheddol. Gan bwy oedd yr hawl i weithredu ar y tir? Pwy oedd yn gwybod orau sut i drin y tir er budd natur? Beth oedd goblygiadau lleol cadwraeth cors o'r fath ar gyfer gwyddonwyr rhyngwladol? Roedd rhaid canfod rhyw fath o gydbwysedd wrth gyflwyno'r safiadau hyn, ond heb fod yn rhy gaeth iddynt.

Un enghraifft o sut mae'r miwsig yn gymorth yw rhwng 00:11:00 a 00:12:00, lle y mae'r ffilm yn cynnwys deunydd cyfweliad â dau ffarmwr lleol, sy'n dilyn darn o gyfweliad gan reolwr y warchodfa. Mae'r ddau ffarmwr yn drwgdybio polisi'r asiantaethau cadwraeth, sy'n arwain at y frawddeg 'yn ôl fy marn i mae'n wastraff arian llwyr' (00:11:45–00:11:49). I gyd-fynd â'r geiriau hyn, mae'r gerddoriaeth yn dal cord ag iddo grescendo, sy'n amwys. Ar un llaw, gellid dehongli'r cord fel beirniadaeth o'r geiriau; eu bod nhw'n lleisio barn sydd i'r gwrthwyneb i farn yr awduron. Ond ar y llaw arall, gellid dehongli'r cord yn ogystal fel 'drwgdybiaeth' mwy eang; bod yr ebychiad geiriol yn fwy na barn unigol, ond yn sefyll dros safiad gwareiddiad gorllewinol, technegol.



(00:11:45 – "yn ôl fy marn i mae'n wastraff arian llwyr")

Mae'r ffilm wedyn yn troi at fwy o luniau o'r gwellt ar y gors cyn troi yn ôl at dechneg a ddefnyddiwyd yn gynharach, sef enwi adar a blodau lleol yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy leisiau dyn a'i ferch. Wrth wneud hyn, mae'r ffilm yn cysylltu'r frwydr amgylcheddol â chyferbyniad arall sydd i'w weld yn y dyffryn, ac yn y ffilm, sef y berthynas rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r modd yr enwir adar a phlanhigion yn y ddwy iaith yn cyfeirio at Seisnigrwydd mwyafrifol pentref Y Borth o ran iaith yr oedolion, tra bod plant y pentref yn mynychu ysgol cyfrwng Cymraeg. Mae'r darn hwn hefyd yn cyfeirio at natur ieithyddol y frwydr rhwng y ffermwyr a'r cadwraethwyr; mai Cymraeg yn bennaf yw iaith y ffermwyr, a Saesneg yn bennaf yw iaith y cadwraethwyr.



(00:11:58 – Enwi adar a blodau lleol yn y Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng lleisiau dyn a'i ferch)

Roedd y ffaith bod mwyafrif llethol Côr y Gors wedi ymfudo i'r ardal ac yn ddi-Gymraeg – er bod mwyafrif y côr wedi dysgu rhyw lefel o Gymraeg – yn peri problem arall i'r ffilm. Sut oedd modd osgoi esgor ar naratifau o drefedigaethu, a fyddai'n gor-symleiddio'r sefyllfa ddiwylliannol-genedlaethol yn Y Borth a'r cyffiniau? I'r pwrpas hwn, defnyddiwyd dyfais awdurol trwm, sef lleisio'r gors drwy droslais benywaidd gan un o aelodau prin y côr a oedd yn siarad Cymraeg fel mamiaith ac wedi'i magu yng Nghymru. Y risg o wneud hynny fyddai gosod y Gymraeg fel hanfodaeth, ac wrth wneud, newid gogwydd y ffilm unwaith eto tuag at y gwleidyddol. Ond, o fewn cyd-destun y darn a grybwyllwyd yn gynharach, roedd y troslais hwn yn gweithio mewn modd polyffonig; yn Gymraeg, ond yn llais yn erbyn y ffermwyr; o blaid y gors, ond nid yn drefedigaethol Seisnig.



(00:16:43 – Llais y gors: "dwi ddim wedi bod fel hyn erioed, a wnâi ddim aros fel hyn, ond fel hyn rydw i am y tro")

Felly drwy ddefnyddio codau cerddorol yn y modd hwn, mae modd adlewyrchu natur gymysg, gymhleth, ymblethiadau thematig a fyddai'n ymddangos yn rhy syml mewn triniaeth arferol, newyddiadurol. I raddau helaeth felly, mae'r syniad o ddefnyddio modd cyfansoddol yn y sefyllfa hon yn un y gellir ei gyfiawnhau.

Ond beth am yr ail gwestiwn, ynglŷn â defnyddio iaith ffilm a fyddai'n gweddu i gyfathrebiad â'r gymuned leol nad yw'n nawddoglyd, ac yn gweddu i gyfathrebiad dealladwy a mynegiannol â chynulleidfa ehangach, fwy arbenigol? I ryw raddau mae hyn yn ymblethedig yn yr ateb cyntaf. Roedd y ffaith bod Côr y Gors yn barod yn bodoli fel grŵp – a chanddynt eu hisymwybod creadigol torfol eu hunain – yn ddefnyddiol tu hwnt wrth fedru cynnal lefel soffistigedig a throsiadol yn iaith y ffilm heb ddieithrio'r cyfranwyr lleol. Yn fyr, oherwydd natur delynegol, gerddorol a haniaethol gweithgaredd y côr, roedd yr aelodau'n hapus â lefel uchel o haniaethu yn y ffilm. Roedd aelodau craidd y gymuned a oedd yn adnabod y côr,

ond nad oeddent yn aelodau, yn medru dal gafael ar y gerddoriaeth fel cerddoriaeth, a'u hadnabyddiaeth o rai o gyfranwyr y ffilm. Roedd aelodau'r gymuned ffermio yn adnabod lleisiau'r ffermwyr er nad oedd eu henwau'n ymddangos yn y ffilm, ond oherwydd natur agored naratif y ffilm nid oedd teimlad bod y cyfranwyr hynny wedi cael cam. Roedd aelodau'r gymuned gadwriaethol yn falch o gael ffilm nad oedd yn trin ffeithiau yn unig, a bod presenoldeb ein ffilm wedi ysgogi trafodaethau gwahanol i'r arfer oherwydd ei estheteg.

O ran y gynulleidfa ehangach, mae patrwm diddorol ond aneglur wedi codi o sut mae'r ffilm yn gweithio mewn gwahanol ofodau diwylliannol. Anfonwyd y ffilm i nifer o wyliau cenedlaethol a rhyngwladol, ond dwy ŵyl yn unig a ddewisodd ddangos y ffilm, sef Gŵyl Tampere (2017) a Gŵyl Ryngwladol Dogfen Cymru (2017). Mae arwyddocâd y gwahaniaeth rhwng y derbyniad cynnes a chalonogol a gafodd y ffilm yn lleol, a'r diffyg diddordeb o du'r gwyliau ffilm yn anodd ei ddirnad yn union. Efallai bod gwerthoedd cynhyrchu ac iaith anghyfarwydd yn elfennau pwysig. Mae diffyg adborth o'r gwyliau yn ei gwneud hi'n anodd canfod ateb, er i Ben Thompson, rhaglennydd ffilmiau byrion gŵyl ffilm Tribeca (Efrog Newydd), ddweud bod y ffilm ar y rhestr fer wrth gefn, ac mai hyd anarferol y ffilm oedd y broblem fwyaf yn hytrach na iaith a gwerthoedd cynhyrchu. Ar y llaw arall, efallai bod natur arbennig y cysylltiad rhwng cymuned a lleoliad wedi cyfyngu ar allu'r ffilm i deithio ymhellach.

O ran cynulleidfa academaidd, mae'r ddeinameg yn wahanol. Dangoswyd y ffilm i nifer o arbenigwyr yn y maes dogfen (e.e. Yoram ten Brink, Jouko Aaltonen) ac fe'i cyflwynwyd eisoes mewn nifer o ddigwyddiadau academaidd, sef cynhadledd AHRC 'Being Human' yn Aberystwyth, cynhadledd Mecssa ym Mhrifysgol Leeds (2017), seminar ymchwil ym Mhrifysgol Helsinki (2017), seminar ymchwil ym Mhrifysgol Warwick (2017), a chynhadledd adrannol ym Mhrifysgol Aberystwyth (2017).

Mae'r beirniadaethau cynnar hyn wedi dangos dau beth yn bennaf. Yn gyntaf, nad yw defnyddio cerddoriaeth yn y modd a wnaethpwyd yma wedi lleihau gallu'r ffilm i drafod pynciau, a bod y ffilm wedi creu affaith cryf yn y gynulleidfa, hyd yn oed un arbenigol, profiadol. Yn ail, bod anghytundeb rhwng beirniaid ynglŷn â pha mor ddeniadol yw ffilm mor amwys; bod gormod o bersbectifau a bod y ffilm yn rhy doredig. Mae'n arwyddocaol bod lleisiau beirniadol academaidd Prydeinig wedi teimlo hyn llawer yn gryfach na lleisiau academaidd o gyfandir Ewrop. Nid yw hyn mor annisgwyl ag y mae'n ymddangos ar yr arwyneb. Mae'r modd yr ystyrir y ffilm yn taflu goleuni ar rwyg rhwng traddodiadau ffurfiol ffilm ddogfen y byd eingl-sacsonaidd gorllewinol, a'r byd Ewropeaidd-ddwyreiniol. Cloriennir y safbwyntiau gwahanol yn nadleuon y 1960au ynglŷn â'r gwahaniaethau rhwng ymgais Sinema Uniongyrchol yr UDA i fod yn wrthrychol, mewn cymhariaeth â thraddodiad Cinema Vérité cyfandir Ewrop a oedd yn gwerthfawrogi goddrychedd y ffurf llawer mwy (gweler Winston 2008). Efallai bod derbyniad positif y ffilm yn Y Ffindir yn arwydd mwy cyfoes o'r un rhwyg, bod y ffilm yn ffitio yn haws i'r hyn y mae Helke yn ei alw'n 'Vérité Barddonol' (*Poetic Vérité*), na'r ystrydeb gwrthrychol gorllewinol-swyddogol (Helke 2013).

Er bod hynny'n destun trafodaeth helaethach, mae'n dangos bod y ffilm yn herio'r ddisgwrs clywedol ffeithiol dominyddol sydd ohoni yn llwyddiannus, mewn ryw ffordd.

## Effaith (*Impact*)

[Dangosiadau, cyflwyniadau a.y.y.b.]

Cyflwynwyd y ffilm gyda phapur academaidd fel a ganlyn:
Prifysgol Aberystwyth (Gŵyl AHRC Being Human, 25 Tachwedd 2016).
Prifysgol Leeds (Cynhadledd Meccsa 2017, 12–13 Ionawr 2017).
Prifysgol Helsinki (Seminar Ymchwil, 26 Ionawr 2017).
Prifysgol Warwick (Seminar Ymchwil, 4 Mawrth 2017).

Dangoswyd y ffilm yn gyhoeddus yn:
Neuadd Pentref Talybont, Gorffennaf 2016.
Canolfan Clettwr, Tre Taliesyn, Medi 2016.
Cynulliad Cyffredinol Blynyddol, Biosffêr Dyfi, Y Plas, Machynlleth, Hydref 2016.
MOMA Machynlleth, Y Tabernacl, Machynlleth, Rhagfyr 2016.
Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth, Tachwedd 2016.
The Friendship, Borth, Tachwedd 2016.
Canolfan Technoleg Amgen, Ceinws, Chwefror 2017.
Canolfan Pontio, Bangor, 17 Mawrth 2017.

## Llyfryddiaeth

Allegue, L., et al. (2009), *Practice-as-Research in performance and screen* (Basingstoke).

Bernstein, L. (1976), *The unanswered question: Six talks at Harvard* (Harvard University Press).

Bloom P. J. (2010), 'Unraveling the ethnographic encounter: Institutionalization and scientific tourism in the œuvre of Jean Rouch in French', *Forum*, 35, 2–3.

Bruns, J. (2008), 'The polyphonic film', *New Review of Film and Television Studies*, 6 (2), 189–212.

Carty, A. M., 'Tir Cyffredin – Shared Land: The creation of identity, cultural tradition and community in the Dyfi Valley, Mid Wales', traethawd MPhil, Prifysgol Manceinion, Manceinion, 2011, <https:// www.escholar.manchester.ac.uk/item/?pid=uk-ac-man-scw:105380> [Cyrchwyd: 10 Rhagfyr 2016].

Grierson, J. (1934), 'Introduction to a new art', *Sight and Sound*, 3 (10), 101–4.

Helke, S. (2013), 'Sacred, Mundane and Absurd Revelations of the Everyday–Poetic Vérité in the Eastern European Tradition', yn Winston, B. (gol.), *The Documentary Film Book* (London: British Film Institute), tt. 247–54.

Minh-Ha, T. T. (1993), 'The totalizing quest of meaning', yn Renov, M. (gol.), *Theorizing Documentary*, tt. 90–107 (London, Routledge).

Nelson, R. (2006), 'Practice-as-research and the problem of knowledge', *Performance Research*, 11 (4), 105–16.

Nelson, R. (2013), *Practice as research in the arts: Principles, protocols, pedagogies, resistances* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).

Piault, M. H. (1997), 'Preface. Regards croisés, regards partéges', yn Rouch, J., *Les Hommes et les dieux du fleuve: Essai ethnographique sur les populations songhay du moyen Niger, 1941–1983*, tt. 7–20 (Paris: Artcom).

Piccini, A. (2003), 'An historiographic perspective on practice as research', *Studies in Theatre and Performance*, 23 (3), 191–207.

Renold, E., et al. (2008), '"Becoming Participant": Problematizing "Informed Consent" in Participatory Research with Young People in Care', *Qualitative Social Work*, 7 (4), 427–47.

Winston, B. (gol.) (2013), *The Documentary Film Book* (London: British Film Institute).

## Ffilmyddiaeth

Carty, Anne Marie (2011), *Tir Cyffredin – Shared Land* (Granada Centre for Visual Anthropology, University of Manchester).

Gee, Grant (2012), *Patience – After Seebald* (Artevents).

Kossoff, Adam (2009), *Nor Our Darkness* (LUX).

Kossoff, Adam (2010), *Moscow Diary* (LUX).

Kossoff, Adam (2011), *Made in Wolverhampton* (LUX).

Kotting, Andrew (1996), *Gallivant* (LUX).

Luostarinen, Kiti (2013), *Kotona Kylässä /At Home in a Village* (Kiti Luostarinen Production Ky).

Madsen, Michael (2010), *Into Eternity: a Film for the Future* (Magic Hour Films).

Perez, Fernando (2003), *Suite Havana* (Trigon Film).

Sills-Jones, Dafydd (2014), *17* (Prifysgol Aberystwyth).

# *Rhododendron ponticum*: Hanes ei gyflwyno a'i ymlediad yng Nghymru, y bygythiad i fioamrywiaeth a'r dyfodol

Gruffydd Jones,[1] John Scullion,[1] Ana Winters,[1] Rhys Owen,[2] John Ratcliffe,[3] Doug Oliver[3] a Dylan Gwynn-Jones

[1]*IBERS, Prifysgol Aberystwyth* [2]*Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri*
[3]*Cyfoeth Naturiol Cymru*

Cyflwynwyd: 24 Ebrill 2017; Derbyniwyd: 3 Tachwedd 2017

**Crynodeb:** Llwyn bytholwyrdd coediog yw *Rhododendron ponticum* L., sy'n aelod o deulu'r Ericaceae. Daw yn wreiddiol o Sbaen, Mynyddoedd y Cawcasws ac arfordir y Môr Du. Cafodd ei gyflwyno i Brydain yn y ddeunawfed ganrif. Ers hynny, fodd bynnag, mae wedi datblygu i fod yn un o rywogaethau ymledol mwyaf niweidiol Prydain, gan achosi difrod ecolegol ac economaidd sylweddol. Bydd yr erthygl hon yn trafod hanes *R. ponticum* yng Nghymru, gan ystyried y ffactorau amgylcheddol a chymdeithasol sydd wedi cyfrannu at ei lwyddiant yma. Disgrifir y sefyllfa bresennol yng Nghymru, gan gynnwys y mathau o niwed y mae'n eu hachosi, yn ogystal â'r ymdrechion i reoli ei ymlediad. I gloi, bydd yr erthygl yn edrych ar rai o heriau amgylcheddol y dyfodol, a sut y gall y rhain ddylanwadu ar ymlediad *R. ponticum*.

**Allweddeiriau**: Rhododendron, amgylchedd, ymledol, ecoleg, cadwraeth, Eryri, pridd, metabolion, alelopathi.

## The invasive plant *Rhododendron ponticum* L.: Its introduction and establishment in Wales, the threat to biodiversity and the future

**Abstract**: *Rhododendron ponticum* L. is an evergreen, woody shrub, belonging to the Ericaceae family. Native to parts of Spain, the Caucasus Mountains and the Black Sea Coast, it was introduced to Britain in the eighteenth century. It has since developed into one of Britain's most problematic invasive species, causing ecological and economic damage. This article discusses the history of *R. ponticum* in Wales, considering the environmental and social factors which have contributed towards its success here. The current situation in Wales is explained, including the damage it causes and the efforts undertaken to manage its

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

spread. To conclude, the paper will evaluate how future environmental challenges will affect *R. ponticum*'s spread in Wales.

**Key words:** Rhododendron, environment, invasive, ecology, conservation, Snowdonia, soil, metabolites, allelopathy.

## 1.0 Hanes *Rhododendron ponticum* yng Nghymru

Mae'r genws *Rhododendron* yn cynnwys dros 850 rhywogaeth, ac mae'n perthyn i'r teulu Ericaceae (Cross 1975, Qiang et al. 2011). Gwelir y rhan fwyaf o'r rhywogaethau hyn yn Asia, gyda rhai hefyd i'w gweld yn Ewrop ac America (Cross 1975, Qiang et al. 2011). Un o'r rhywogaethau Ewropeaidd yw *Rhododendron ponticum* L. (Cross 1981, Mejías et al. 2002). Llwyn bytholwyrdd, coediog yw *R. ponticum*, sy'n amrywio o ran taldra o 2 m mewn ardaloedd agored hyd at 8 m islaw canopi coedwigoedd (Cross 1975).

Credir bod *R. ponticum* yn bresennol ym Mhrydain yn ystod y cyfnod Tertaidd, gyda'i ddosraniad bryd hynny yn cynnwys y rhan fwyaf o Ewrop (Chamberlain 1982). Wrth i'r hinsawdd newid tua 3.2 miliwn o flynyddoedd yn ôl, fodd bynnag, cyfyngwyd ei ddosbarthiad i boblogaethau ynysig yn ardal y Cawcasws, arfordir y Môr Du a'r Penrhyn Iberaidd (Cross 1975, Suc 1984, Mejías et al. 2002, Stout et al. 2006). Poblogaethau creiriol o'r dosbarthiad ehangach yn ystod y cyfnod Tertaidd yw'r rhain (Mejías et al. 2002).

Nid oes sicrwydd o ran pryd y cyflwynwyd *R. ponticum* i Gymru, ond credir iddo gyrraedd gerddi Kew, Lloegr, yn 1763 (Gritten 1995, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Yn ôl astudiaethau DNA, mae'n debyg mai o Sbaen y daeth y planhigion cyntaf hyn (Milne ac Abbott 2000, Erfmeier a Bruelheide 2004). Yn fuan wedi iddo gael ei gyflwyno i Kew, daeth yn blanhigyn poblogaidd ar ystadau tirfeddianwyr cefnog ar hyd a lled Prydain ac Iwerddon. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn ffasiynol ac yn arwydd o statws i blannu rhywogaethau lliwgar, egsotig (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Cyflwynwyd llawer o'r rhywogaethau ymledol sy'n broblemus yng Nghymru heddiw yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnwys *Fallopia japonica* (Houtt.), Ronse Decr. (clymog Japan), *Heracleum mantegazzianum* Sommier a Levier (efwr enfawr) ac *Impatiens glandulifera* Royle (jac y neidiwr) (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Yn gyffredinol, gellir diffinio rhywogaeth ymledol fel un sydd wedi'i symud o'i chynefin naturiol i gynefin newydd, un ai'n fwriadol neu'n anfwriadol, lle y mae'n achosi difrod ecolegol, difrod economaidd neu niwed i iechyd dynol (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2013). Roedd *R. ponticum* hefyd yn rhoi cysgod i ffesantod ar ystadau hela wrth i hela ddod yn fwyfwy poblogaidd yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Yr oedd y ciperiaid a oedd yn gyfrifol am reoli'r tir yn ei ystyried yn ddelfrydol, gan ei fod yn tyfu mewn amrediad o briddoedd ac yn gallu goroesi lle'r oedd arddwysedd golau yn isel (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006).

Enghraifft o ystâd yng Nghymru lle y cafodd ei blannu yw Plas Tan y Bwlch ger Maentwrog (Gritten 1995). Daeth Plas Tan y Bwlch yn eiddo i deulu'r Oakeley trwy briodas yn 1789. Gwnaeth y teulu ei ffortiwn wedi datblygiad Chwarel yr Oakeley ar eu tir ger

Blaenau Ffestiniog (Ermischer 2004, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2016). Arweiniodd eu cyfoeth at gyfnod o newid mawr yn nhirwedd yr ardal leol, er enghraifft newid cwrs yr afon Dwyryd a phlannu nifer o goed (Gritten 1995, Ermischer 2004, Stephenson et al. 2006, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2016). Mae'n debyg felly mai yn ystod y cyfnod hwn y cyflwynwyd y planhigyn i Eryri.

Roedd *R. ponticum* yn gyffredin iawn mewn meithrinfeydd mor gynnar â 1783 (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). I ddechrau, roedd yn blanhigyn prin a drud. Yn ôl Dehnen-Schmutz a Williamson (2006), roedd pob planhigyn yn costio 7 swllt a 6 cheiniog mewn catalogau meithrinfeydd yn 1793, a oedd yn cyfateb i £25.20 yn 2002. Gydag amser, daeth yn fwy fforddiadwy gan fod pob llwyn yn cynhyrchu cynifer o hadau. Yn ogystal â thrwy feithrinfeydd, cawsai *R. ponticum* ei fasnachu rhwng ystadau hefyd (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Caniataodd hyn i bris *R. ponticum* ostwng ymhellach; ceir cofnod o werthu 1000 planhigyn am 20 swllt rhwng ystadau yn 1886, a oedd yn cyfateb i £0.07 y planhigyn yn 2002 (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Daeth y cyfnod hwn o boblogrwydd *R. ponticum* i ben, fodd bynnag, erbyn canol yr ugeinfed ganrif, gyda gostyngiad sylweddol yn y galw amdano (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Nid oes sicrwydd beth a achosodd y gostyngiad hwn, ond mae'n bosibl fod dirywiad nifer o erddi ystadau wedi'r rhyfeloedd byd wedi cyfrannu at hynny (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006).


Pan oedd poblogrwydd *R. ponticum* ar ei anterth, ni ragwelwyd y byddai mor llwyddiannus yng Nghymru, ac y byddai'n ymledu i dyfu'n wyllt (Gritten 1995). Yn anffodus, ni chasglwyd unrhyw ddata ar ymlediad *R. ponticum* y tu allan i erddi yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Mae'n debyg bod hyn yn rhannol oherwydd diffyg dealltwriaeth o allu rhai rhywogaethau egsotig i ymsefydlu mewn cynefinoedd newydd (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Fodd bynnag, ymddengys fel bod *R. ponticum* wedi cynefino (*naturalize*) yng Nghymru erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Ysgrifennodd y botanegydd ac arloeswr mewn ffotograffiaeth, John Dillwyn Llewelyn, mewn llythyr at Joseph Hooker yn 1849 fod eginblanhigion *R. ponticum* 'i'w gweld yn eu miloedd' yng nghoedwigoedd ei ystâd ym Mhenllergaer, ger Abertawe (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006).

Hyd at ganol yr ugeinfed ganrif, roedd canfyddiad botanegwyr, garddwyr a'r cyhoedd o *R. ponticum* yn gadarnhaol (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). O ganlyniad, nid oedd ymchwil yn cael ei chynnal ar yr effeithiau a gawsai ar lystyfiant brodorol Cymru. Daeth un o'r unig adroddiadau beirniadol o'i blannu gan Salmoniceps (1872 yn: Dehnen-Schmutz a Williamson 2006), a ddywedodd fod perygl o niweidio cynefinoedd brodorol trwy blannu *R. ponticum* yn ddiofal.

Erbyn ail ran yr ugeinfed ganrif, fodd bynnag, daeth gwyddonwyr yn fwy ymwybodol o effeithiau negyddol *R. ponticum*. Gall hyn fod o ganlyniad i gynnydd yn y modd yr ymledodd i dyfu'n wyllt wrth i erddi ystadau gael eu hesgeuluso yn ystod y rhyfeloedd byd (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Yr astudiaeth gyntaf i amlygu'r broblem o ymlediad *R. ponticum* ym Mhrydain ac Iwerddon oedd Cross (1975), ac ni welwyd astudiaeth ar atebion i'r broblem nes 1985 (Ffigwr 1). Er yr oedi cyn cynnal astudiaethau gwyddonol,

gwelwyd un o'r achosion cyntaf o glirio *R. ponticum* mewn coedwig yn Swydd Lincoln yn 1935, ac erbyn 1949 roedd y Comisiwn Coedwigaeth yn dechrau cymryd camau i'w reoli (Holmes 1957, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Wrth i ddealltwriaeth o'i effeithiau negyddol gynyddu, bu cynnydd sylweddol yn y nifer o astudiaethau arno, yn enwedig yn ystod yr 1990au (Ffigwr 1).

O ganlyniad i'r cynnydd mewn gwaith ymchwil, cynyddodd ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broblem, ac erbyn hyn ystyrir *R. ponticum* fel un o rywogaethau ymledol mwyaf amhoblogaidd Prydain (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Er hyn, ceir achosion lle y mae'r cyhoedd yn gwrthwynebu prosiectau rheoli *R. ponticum* lleol gan fod rhai'n hoff o'i flodau lliwgar sy'n ymddangos o gwmpas dechrau Mehefin (Rotherham 2001). Disgrifia Dehnen-Schmutz a Williamson (2006) sefyllfa yn Swydd Efrog lle y bu gwrthdaro rhwng aelodau o'r cyhoedd a'r contractwyr a oedd yn gyfrifol am y gwaith clirio. Gellir dadlau felly y gall rheoli *R. ponticum* fod yn ddrwg i dwristiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd poblogaidd fel Beddgelert, gan y byddai'n gadael pridd noeth. Er hyn, mae'r mwyafrif llethol o ecolegwyr a chadwraethwyr yn ymrwymedig i reoli *R. ponticum*, gyda'r mwyafrif o'r cyhoedd hefyd yn cytuno.




**Ffigwr 1**: Nifer yr erthyglau gwyddonol yn ymdrin ag ymlediad *R. ponticum* ym Mhrydain ac Iwerddon a gyhoeddwyd rhwng 1975 a Mai 2018. Defnyddiwyd y termau chwilio '*Rhododendron*' a '*ponticum*' ar y wefan *Web of Science*, a dim ond erthyglau'n trafod *R. ponticum* o fewn y DU neu Iwerddon a gyfrwyd. Mae'r bariau tywyll yn dynodi erthyglau sy'n trafod effeithiau ymlediad *R. ponticum*, tra bod y bariau golau'n dynodi erthyglau sy'n ymchwilio i atebion i'r broblem.

Erbyn diwedd yr ugeinfed ganrif, roedd y planhigyn wedi ymledu ledled y Deyrnas Unedig (DU) ac Iwerddon, gyda'i dwf mwyaf egnïol i'w weld mewn ardaloedd gorllewinol ac ucheldirol (Cross 1975, Thomson et al. 1993). Golyga hyn ei fod yn broblem fawr yng Nghymru, yn enwedig Eryri, lle y credir ei fod wedi sefydlu dros tua 2000 ha o'r Parc Cenedlaethol erbyn 2008 (Jackson 2008). Hyd yn oed ddegawdau wedi cyflwyno *R. ponticum* i Eryri, gwelir bod yr ardaloedd lle y mae'r dwysedd uchaf o *R. ponticum* i'w weld yn amgylchynu'r hen ystadau lle y'i cyflwynwyd yn wreiddiol (Gritten 1995).

## 2.0 Pam fod *R. ponticum* mor ymledol yng Nghymru?

### *2.1 Ffactorau ffisegol*

Mae nifer o wahanol ffactorau ffisegol yn cyfrannu at ffyniant *R. ponticum* yng Nghymru (Ffigwr 3). Gall ddygymod ag ystod eang o amodau amgylcheddol, gan ffynnu yn yr hinsawdd laith, dymherus (Cross 1975, Cross 1981, Gritten 1995, Peterken 2001). Credir bod hinsawdd laith Cymru yn creu mwy o ardaloedd addas i eginiad ei hadau o gymharu â'i hinsawdd frodorol, sy'n esbonio pam fod goroesedd eginblanhigion *R. ponticum* yn uwch yng Nghymru nag yn eu cynefin naturiol (Erfmeier a Bruelheide 2004). Yn sgil hyn, mae gorchudd cymharol uchel bryoffytau fel mwsoglau yng nghynefinoedd brodorol Cymru hefyd yn cyfrannu at gyfradd eginiad uwch *R. ponticum* yma, gan fod yr arwynebau llaith y mae'r bryoffytau hyn yn eu darparu yn ddelfrydol ar gyfer eginiad hadau *R. ponticum* (Cross 1975).

Yn ogystal, mae *R. ponticum* yn ffynnu mewn priddoedd asidig, anffrwythlon, gan olygu bod ucheldir Cymru yn addas ar ei gyfer (Cross 1975, Gritten 1995). Yn rhannol gyfrifol am lwyddiant rhywogaethau *Rhododendron* mewn amodau anffrwythlon y mae eu cydberthynas symbiotig â ffyngau mycorhisol ericoid (Dehnen-Schmutz a Williamson 2006, Lin et al. 2011). Ffyngau yw'r rhain sy'n ffurfio perthynas â gwreiddiau rhywogaethau penodol. Rhyddheir ensymau hydrolytig gan y ffyngau hyn, sy'n dadelfennu mater organig fel gweddillion planhigol yn y pridd (Lin et al. 2011). Caiff y maetholion a ryddheir drwy ddadelfennu mater organig eu trosglwyddo gan y ffwng i wreiddiau'r planhigyn, a chaiff y ffwng siwgrau oddi wrth y planhigion mewn cyfnewid (Lin et al. 2011). Mae perthnasau symbiotig fel y rhain â ffyngau yn hollbwysig i blanhigion a all oroesi mewn amgylcheddau anffrwythlon (Lin et al. 2011).

Gall *R. ponticum* hefyd ddygymod â thanbeidrwydd golau isel (Cross 1981, Higgins a Richardson 1996, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Mae hyn oherwydd y gallu sydd ganddo i gynyddu maint arwynebedd dail, lleihau trwch dail, lleihau'r cyfanswm o ddail ar bob cangen a chynyddu oes dail (Esen et al. 2006). Galluoga hyn i *R. ponticum* oroesi a threchu isdyfiant coedwigoedd llydanddail, lle mai dim ond tua 10–15% o olau'r haul sy'n treiddio drwy'r canopi (Cross 1981, Clinton a Vose 1996, Esen et al. 2006).

Ffactor arall sy'n cyfrannu at ffyniant *R. ponticum* yng Nghymru yw'r ffordd y mae'n dylanwadu ar y pridd islaw, gan ei wneud yn anaddas i rywogaethau eraill a chan leddfu effeithiau cystadleuaeth rhwng un rhywogaeth a'r llall. Mae'n hysbys fod *R. ponticum* yn gostwng pH pridd, gan wneud amodau'n anos i rywogaethau eraill dyfu (Rotherham 1983,

Nilsen et al. 1999). Fel arfer, mae pH pridd lle y tyfir *R. ponticum* 0.3 i 0.4 uned yn is o'i gymharu â pH cyfartalog yr ardal o'i amgylch, lle nad oes *R. ponticum* yn bresennol (Rotherham 1983). Ceir hefyd haen drwchus o hen ddail ar arwyneb y ddaear, sydd fel arfer o gwmpas 10 cm o drwch (Plocher a Carvell 1987). Gall hyn atal rhai hadau brodorol rhag egino gan fod yr haen hon yn rhwystro eu gwreiddiau rhag cyrraedd y pridd (Plocher a Carvell 1987). Mae'r haen hon hefyd yn sychu'n gyflym, gan olygu bod unrhyw blanhigion sy'n tyfu ynddo'n gallu wynebu cyfnodau sydyn o sychder (Plocher a Carvell 1987).

## *2.2 Ffactorau biolegol*

Yn ogystal â'r ffactorau ffisegol uchod, mae ffactorau biolegol hefyd yn cyfrannu at ffyniant *R. ponticum* yng Nghymru (Ffigwr 3). Un o'r rhain yw'r mewnbwn genynnol y mae wedi'i dderbyn gan rywogaethau *Rhododendron* eraill, er enghraifft *R. catawbiense* a *R. maximum*, sy'n frodorol ym Mynyddoedd Appalachian, Gogledd America (Milne ac Abbott 2000, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006, Esen et al. 2006). O ganlyniad, mae poblogaeth *R. ponticum* y DU yn ennynol wahanol i boblogaethau'r Cawcasws ac Iberia (Milne ac Abbott 2000, Erfmeier a Bruelheide 2004, Erfmeier a Bruelheide 2005).

Credir bod y mewnbwn genynnol hwn wedi cynyddu gallu poblogaeth *R. ponticum* Prydain i ddygymod ag oerfel, ac arwain at egino a chyfraddau twf cyflymach (Erfmeier a Bruelheide 2005). Mae'n debyg fod hyn wedi digwydd yn naturiol trwy ddethol naturiol a chroesrywedd, sy'n gyffredin rhwng rhywogaethau'r genws hwn, yn ogystal ag yn artiffisial, trwy fridio detholus mewn meithrinfeydd (Shaw 1984, Milne ac Abbott 2000, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Bu cryn ymdrech i fridio amrywiaethau mwy gwydn a goddefgar o rew yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg (Shaw 1984).

Ffactor arall y tu ôl i'w lwyddiant yw'r metabolynnau eilaidd y mae'n eu syntheseiddio (Rotherham a Read 1988, Pichersky a Gang 2000, González-Pérez et al. 2011). Cyfansoddion nad ydynt yn rhan o brif lwybrau metabolaidd planhigion yw metabolynnau eilaidd, gyda gwahanol grwpiau o blanhigion yn cynhyrchu set unigryw o gemegion (Pichersky a Gang 2000, Akula a Ravishankar 2011). Y gred oedd mai cynhyrchion gwastraff oedd y rhain, ond yn ddiweddar mae astudiaethau wedi darganfod bod ganddynt nifer o swyddogaethau cymhleth (Li et al. 2010).

Mae metabolynnau eilaidd yn hollbwysig i ryngweithiad planhigion gyda'u hamgylchedd, gan eu galluogi i addasu i amgylcheddau newydd ac ymateb i straen allanol (Akula a Ravishankar 2011). Credir, er enghraifft, fod nifer o fetabolion eilaidd wedi esblygu er mwyn amddiffyn *R. ponticum* rhag llysysyddion (Rotherham a Read 1988, Pichersky a Gang 2000, González-Pérez et al. 2011). Gwelir crynodiadau uchel o gyfansoddion ffenolig yn nail ifanc, blagur a blodau'r llwyni (Rotherham 1983, Rotherham a Read 1988). Grŵp o gemegau sydd â grŵp hydrocsyl wedi'i fondio i gylch hydrocarbon yw cyfansoddion ffenolig. Mae ganddynt briodweddau amrywiol, yn amrywio o fod yn wrthficrobaidd, i fod yn wrthocsidydd ac yn wrthlidiol (Li et al. 2010, Jaiswal et al. 2012). Hefyd, ceir grayanotocsinau ym meinweoedd *R. ponticum*, grŵp o gemegau sy'n wenwynig i anifeiliaid, gan eu bod yn ymyrryd â'r system

nerfol trwy flocio sianeli ïonau sodiwm (Stout et al. 2006, Hough et al. 2010, Qiang et al. 2011, Jaiswal et al. 2012, Popescu a Kopp 2013). Mae crynodiadau'r cyfansoddion hyn ar eu huchaf mewn dail ifanc, sy'n llai gwydn, ac felly'n fwy agored i niwed gan lysysyddion (Rotherham 2001). Wrth i'r dail ddatblygu i fod yn fwy gwydn gydag amser, gostyngir eu crynodiadau (Rotherham 2001). Awgryma hyn fod ganddynt rôl i'w chwarae mewn gwrthyrru llysysyddion, gan fod amddiffyn y meinweoedd ifanc gwerthfawr hyn yn hollbwysig i lwyni *R. ponticum* (Rotherham 1983, Rotherham a Read 1988, Wong et al. 2002).

Er bod y cyfansoddion hyn yn rhwystro llysysyddion rhag pori ar ddail y planhigion, darganfu astudiaeth Thomson et al. (1993) nad yw *R. ponticum* yn tyfu'n dda ar dir amaethyddol o gymharu â rhostiroedd neu goedwigoedd. Awgryma hyn y gall defaid bori ar eginblanhigion *R. ponticum* sydd newydd egino, neu eu bod yn eu niweidio drwy sathru arnynt cyn iddynt ddatblygu'n fwy coediog wrth aeddfedu (Thomson et al. 1993). Yn ategol, gall yr amodau a achosir gan amaethyddiaeth hefyd fod yn anaddas i *R. ponticum*; fel rheol mae pridd tir amaethyddol yn llai asidig ac yn fwy ffrwythlon, a gall yr haen ddwys o laswellt a achosir gan bori fod yn anaddas i eginiad hadau *R. ponticum*, sy'n ffafrio amgylcheddau llaith fel arwyneb bryoffytau (Cross 1975, Thomson et al. 1993). Er hyn, wedi i *R. ponticum* ymsefydlu, prin iawn yw'r fertebratau sy'n pori arno (Gritten 1995).

Prin iawn yw'r infertebratau sy'n pori ar *R. ponticum* yng Nghymru hefyd (Cross 1981, Judd a Rotherham 1992, Gritten 1995). Mae hyn yn cefnogi'r 'rhagdybiaeth dianc rhag gelynion' (*enemy release hypothesis*), sy'n datgan bod rhywogaethau anfrodorol yn ffynnu mewn cynefin newydd gan nad oes rhywogaethau eraill yno sy'n rheoli ei dwf (Maron a Vila 2001, Keane a Crawley 2002). Yn ôl Judd a Rotherham (1992), mae 31 pryfyn yn gysylltiedig â *R. ponticum* ym Mhrydain, ond dim ond dau sy'n niferus ac i'w gweld yn aml ar *R. ponticum* (Judd a Rotherham 1992). Mae'r pryfyn *Graphocephala fennahi*, sy'n rhywogaeth anfrodorol ei hun, yn un o'r ychydig infertebratau sy'n bwydo ar sudd *R. ponticum* ac yn gadael wyau yn ei flagur (Mifsud et al. 2010). Nid yw'r afiechyd yn achosi llawer o ddifrod i boblogaeth *R. ponticum* Cymru nac Iwerddon, fodd bynnag, gan fod dosbarthiad *G. fennahi* yn bennaf wedi ei gyfyngu i dde Prydain (Cross 1975, The Wildlife Trust, dim dyddiad). Mae'r diffyg gelynion naturiol hyn felly'n ffactor arall sy'n galluogi *R. ponticum* i ffynnu yng Nghymru (Yela a Lawton 1997).


Yn bwysig, fodd bynnag, nid yw'r metabolion eilaidd i'w gweld yn cael effaith ar beillwyr. Ni welodd Stout et al. (2006) wahaniaeth arwyddocaol rhwng cyfradd ymweld peillwyr yng nghynefinoedd cynhenid *R. ponticum* yn Sbaen a'r cynefinoedd lle y mae'n tyfu yn y DU. Mae hyn yn ffactor pwysig arall o ran ei lwyddiant yng Nghymru, gan fod presenoldeb peillwyr yn un o'r amodau pwysicaf sydd gan rywogaethau ymledol wrth gytrefu cynefinoedd newydd (Stout et al. 2006).

Tra bo rhai o fetabolion eilaidd *R. ponticum* yn amddiffyn planhigion rhag gelynion naturiol, credir bod eraill yn docsinau i blanhigion (ffytotocsinau) (Rotherham a Read 1988, Nilsen et al. 1999, Pichersky a Gang 2000, Esen et al. 2006). Disgrifiwyd y math hwn o ataliad cemegol yn gyntaf gan Molisch (1937 yn: Rice, 1979), ac addaswyd ei ddiffiniad gan Rice (1984) i gynnwys 'unrhyw effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol, buddiol neu

niweidiol a achosir gan un planhigyn (neu ficro-organeb) ar blanhigyn arall trwy gyflwyno cyfansoddion i'r amgylchedd'. Er y gall hyn gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol, yr effeithiau negyddol sydd wedi eu hymchwilio fwyaf. Mae'r cyfansoddion ffytotocsig hyn yn gweithredu fel chwynladdwyr naturiol, ac o ganlyniad bu diddordeb mawr yn y maes wrth i agronomegwyr edrych am blaleiddiaid llai niweidiol i'r amgylchedd.

Awgryma nifer o astudiaethau ar rywogaethau'r genws *Rhododendron* eu bod yn cynhyrchu cyfansoddion sy'n amharu ar dwf planhigion cyfagos (Rotherham a Read 1988, Nilsen et al. 1999, Walker et al. 1999, Lei et al. 2002, Clinton a Vose 1996, Chou et al. 2010, Wang et al. 2013). Gwelodd Rotherham a Read (1988), er enghraifft, fod twf eginblanhigion *Festuca ovina* L. (peiswellt y defaid) yn cael ei atal wrth dyfu mewn pridd lle yr oedd *R. ponticum* yn tyfu, neu a oedd yn arfer cynnwys *R. ponticum*. Yn y ddwy driniaeth hyn, roedd twf gwreiddiau *F. ovina* bron â'i atal yn gyfan gwbl (Rotherham a Read 1988). Ni wnaeth ychwanegu gwrtaith wahaniaeth i dwf y planhigion *F. ovina*, gan brofi bod yr effaith hon yn annibynnol wrth ddiffyg maeth (Rotherham a Read 1988). Credir felly fod yr effaith hon wedi ei achosi gan gemegau ffytotocsig a gyflwynwyd i'r pridd o wreiddiau *R. ponticum* (Rotherham a Read 1988)


Credir bod dadelfeniad hen ddail a gwreiddiau yn y pridd, ynghyd â glaw sy'n diferu oddi ar ddail *R. ponticum* hefyd yn cyflwyno cyfansoddion ffytotocsig i'r pridd (Ffigwr 2) (Clinton a Vose 1996; Nilsen et al. 1999).




**Ffigwr 2**: Diagram o'r ffyrdd y cyflwyna planhigyn gyfansoddion ffytotocsig i'r pridd o blanhigyn; (a) mewn diferion glaw sy'n llifo oddi ar ddail a blagur; (b) rhyddhau cyfansoddion o ddail marw wrth iddynt ddadelfennu; (c) rhyddhau cyfansoddion i'r pridd o wreiddiau.

Mae ataliad cemegol planhigion yn bwnc dadleuol, fodd bynnag, yn bennaf oherwydd bod dylunio arbrawf i'w brofi yn anodd (Nolan et al. 2014). Dangosa rhai astudiaethau nad yw'r ffytotocsinau yn crynhoi mewn crynodiadau digon uchel yn y pridd i gael effaith (Blair et al. 2006, Perry et al. 2007). Gall microbau'r pridd gyfrannu at hyn hefyd, wrth iddynt drawsnewid cyfansoddion i rai eraill mwy tocsig (Wang et al. 2013).

Caiff cyfansoddion ffenolig hefyd ddylanwad ar gylchu maetholion. Ceir crynodiadau uchel o gyfansoddion ffenolig yn hen ddail *R. ponticum*, ac mae gan nifer o'r rhain briodweddau gwrthficrobaidd. O ganlyniad, mae'n debyg bod hyn yn arafu eu cyfradd dadelfennu gan fod gan ficrobau rôl bwysig mewn dadelfennu mater organig. Mae hyn yn nodwedd mewn llawer o rywogaethau o deulu'r Ericaceae, gan arwain at bridd sydd â llai o nitrogen anorganig (nitrad ac amoniwm) (Aerts 1999). Nid yw hyn yn effeithio ar deulu'r Ericaceae, fodd bynnag, gan fod eu ffyngau mycorhisol ericoid yn eu galluogi i wneud defnydd o nitrogen sydd mewn mater organig yn ogystal (Aerts 1999).




**Ffigwr 3**: Crynodeb o'r ffactorau a all gyfrannu at yr effaith ataliol a gaiff *R. ponticum* ar rywogaethau eraill.

## 3.0 Sefyllfa bresennol *R. ponticum* yng Nghymru

Mae'r ffactorau a drafodwyd yn flaenorol yn golygu bod *R. ponticum* yn arbennig o ymledol yng Nghymru. Er y gellir dadlau bod y planhigyn yn hardd wedi iddo flodeuo, caiff lawer o effeithiau negyddol ar wasanaethau ecosystemau Cymru, sef y buddion y mae pobl yn eu derbyn gan yr amgylchedd (Snowdonia Rhododendron Partnership 2015). Gall y buddion hyn fod yn adnoddau fel coed neu fwyd, y mwynhad a geir o fyd natur a gweithgareddau hamdden awyr-agored, neu yn wasanaethau ecosystemaidd angenrheidiol fel rheoleiddio'r hinsawdd a darparu dŵr. Gwelir felly y gall effeithiau negyddol *R. ponticum* gynnwys niwed ecolegol yn ogystal ag economaidd.

### *3.1 Niwed ecolegol*

Y brif broblem ecolegol yw'r ffordd y mae'n ymledu i gynefinoedd brodorol fel coedwigoedd llydanddail, rhostiroedd a glaswelltir yr ucheldir, gan arwain at golled mewn bioamrywiaeth (Rotherham a Read 1988, Gritten 1995, Dehnen-Schmutz et al. 2004). Mae ei ganopi trwchus yn rhyng-gipio'r mwyafrif o olau haul, gyda dim ond 2% o olau haul yn gallu treiddio drwy'r haen hon (Cross 1975, Dehnen-Schmutz a Williamson 2006). Ychydig iawn o rywogaethau a all oroesi yn y cysgod dwys islaw llwyni *R. ponticum*, er enghraifft *Hedera helix* (eiddew) ac *Ilex aquifolium* (celynnen) (Esen et al. 2006). Golyga'r diffyg golau, ynghyd â ffactorau eraill fel pH isel y pridd a chyfansoddion ffytotocsig, mai prin iawn yw'r planhigion o dan y llwyni.

Mae'r effaith hon yn arbennig o niweidiol mewn coedwigoedd, gan ei bod yn atal twf eginblanhigion coed brodorol (Peterken 2001, Stephenson et al. 2006, Stout et al. 2006). Gwelir cydberthyniad negyddol rhwng dwysedd y llwyni a'r nifer o eginblanhigion brodorol (Phillips a Murdy 1985). Arweinia hyn at lai o goed newydd yn mewndyfu i ganopi'r goedwig frodorol, gan amharu ar aildyfiant naturiol coedwigoedd gan nad oes coed ifanc i gymryd lle y rhai hŷn pan maent yn marw (Cross 1981, Phillips a Murdy 1985, Peterken 2001, Esen a Zedaker 2004, Stephenson et al. 2006).

Canlyniad arall i ymlediad *R. ponticum* i goedwigoedd yw colled yn amrywiaeth epiffytau, sef y planhigion a welir yn tyfu ar blanhigion eraill (Cross 1982). Golyga canopi dwys *R. ponticum* fod bonion isaf coed wedi eu cysgodi, felly ni all mwsoglau a chennau dyfu arnynt (Cross 1982). Nid oes epiffytau yn gallu tyfu ar *R. ponticum* ei hun chwaith, o ganlyniad i'r cysgod dwys â'r ffaith ei fod yn bwrw ei risgl yn rheolaidd (Cross 1982).

Drwy amharu ar lystyfiant, mae *R. ponticum* hefyd yn effeithio'r anifeiliaid sy'n ddibynnol ar y cynefin (Cross 1982). Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, ychydig iawn o anifeiliaid sy'n pori ar *R. ponticum* gan ei fod yn cynnwys cyfansoddion tocsig (Cross 1982, Wong et al. 2002). Gwelir llai o rywogaethau adar hefyd mewn coedwigoedd llydanddail lle y mae *R. ponticum* yn bresennol, o gymharu â choedwigoedd llydanddail lle nad oes *R. ponticum* (Jones 1972, Batten 1976, Rotherham 2001).

Er hyn, credir bod *R. ponticum* yn darparu lloches ar gyfer rhai anifeiliaid. Gall ddarparu lle i deloriaid fel *Phylloscopus collybita* (siff-siaff), *Sylvia atricapilla* (telor penddu), *Fringillidae* spp. (pincod), ynghyd â *Turdidae* spp. (brychion) nythu (Rotherham 2001). Mae rhai adroddiadau fod adar prin fel *Luscina megarhynchos* (eos) hefyd i'w gweld mewn llwyni *R. ponticum* yn Ardal y Peak, Lloegr (Colak et al. 1998). Fodd bynnag, mae'n debyg fod hyn ond yn wir am ymylon ardaloedd o *R. ponticum* lle y mae planhigion eraill yn tyfu a lle y mae ffynonellau bwyd ar gael i adar (Cross 1982). Bydd amrywiaeth anifeiliaid yng nghanol y darnau hyn yn llawer is oherwydd diffyg bwyd (Cross 1982). Y mwyaf yw'r darn, y mwyaf yw'r ardal o fioamrywiaeth isel yn y canol.

Nid lleihau bioamrywiaeth yw'r unig bryder ynglŷn â *R. ponticum*, gan y gall fod yn fector i *Phytophthora ramorum* (Chadfield a Pautasso 2012). Mae'r pathogen hwn yn heintio *R. ponticum*, gan achosi malltod ar ddail a brigau *R. ponticum*, yn ogystal â niweidio coesynnau (Brasier et al. 2004, Chadfield a Pautasso 2012). Er bod hyn yn achosi i lwyni *R. ponticum* wywo, nid yw'n eu lladd (Brasier et al. 2004). Achosa *P. ramorum* hefyd glefyd angeuol ar goed sy'n frodorol i Gymru, yn enwedig rhywogaethau *Larix* (llarwydden) sydd â phwysigrwydd economaidd (Chadfield a Pautasso 2012). Cyfeirir at *R. ponticum* fel cludwr i'r pathogen, gan y gall symud i goed cyfagos gan achosi cancrau angeuol ar eu bonion (Higgins 2008), a gwelir yn aml fod planhigfeydd sydd wedi eu heintio hefyd yn cynnwys *R. ponticum* (Brasier et al. 2004, T. A. R. Jenkins (Pennaeth Ymchwil Coedwigaeth yng Nghymru: cyfathrebiad personol)). Y pryder felly yw y gall ymlediad *R. ponticum* yng Nghymru gynorthwyo ymlediad *P. ramorum*, gan ddarparu rheswm arall dros glirio *R. ponticum* (Brasier et al. 2004, Chadfield a Pautasso 2012).

### *3.2 Niwed economaidd*

Mewn cyfanswm, mae rhywogaethau ymledol yn costio oddeutu £7 biliwn i economi Cymru y flwyddyn (Williams et al. 2010), ac mae *R. ponticum* yn cyfrannu'n sylweddol at hyn (Rotherham 1986, Stephenson et al. 2007). Ystyrir *R. ponticum* fel chwynnyn problemus mewn coedwigaeth, gan ei fod mor gyffredin mewn planhigfeydd (Colak et al. 1998, Rotherham 2001). Mae'n arbennig o ymledol mewn rhai planhigfeydd conwydd yn Eryri, oherwydd lleithder uchel a pH isel y pridd (Gritten 1995). Yn ogystal, mae *R. ponticum* yn un o'r ychydig blanhigion a all ddygymod â'r arddwysedd golau isel islaw canopi coedwigoedd conwydd masnachol (Gritten 1995).

Hefyd, mae'n debyg fod dulliau coedwigaeth yn ychwanegu at y broblem. Yn draddodiadol, roedd darnau mawr o goedwigoedd yn cael eu torri ar unwaith, dull a elwir yn 'llwyrgwympo' (*clearfelling*) (Cyfoeth Naturiol Cymru 2017). Gadawai hyn ardaloedd mawr o bridd wedi eu haflonyddu, a oedd yn addas ar gyfer ymsefydliad *R. ponticum* (Rotherham a Read 1988, Colak et al. 1998). Yn ddiweddar, bu Cyfoeth Naturiol Cymru a Llywodraeth Cymru yn annog coedwigaeth gorchudd di-dor (*continuous cover*), lle y caiff coed unigol eu torri, yn hytrach nag ardaloedd mawr ar unwaith (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009, Cyfoeth Naturiol Cymru 2017). Ystyrir y dull hwn yn fwy cynaliadwy na

llwyrgwympo, gan ei fod yn cael llai o effaith ecolegol ac yn annog coedwigoedd iachach (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009, Cyfoeth Naturiol Cymru 2017). Canlyniad hyn yw cynnal canopi'r goedwig, gyda mwy nag un haen oherwydd oedrannau gwahanol y coed (Cyfoeth Naturiol Cymru 2017). Er bod coedwigaeth gorchudd di-dor yn ddull mwy cynaliadwy o goedwigaeth, gall annog ymlediad *R. ponticum*, gan ei fod yn caniatáu mwy o olau i gyrraedd yr isdyfiant na welir mewn coedwig wedi'i llwyrgwympo (Jackson 2008).

O ganlyniad i'r ffactorau uchod, gall *R. ponticum* ffurfio haen drwchus ymysg isdyfiant rhai coedwigoedd, yn ogystal ag ar hyd draciau'r peiriannau. Achosa hyn broblemau yn ymwneud â mynediad at rai rhannau o'r blanhigfa, symud coed o'r safle ac ailblannu coed ar y safle wedi datgoedwigo (Colak et al. 1998). Mae hefyd yn fygythiad i iechyd planhigfeydd trwy ledaenu *P. ramorum* fel y trafodwyd yn barod. Golyga'r ffactorau hyn ei fod yn broblem i'r diwydiant coedwigaeth, yn ogystal â chadwraeth. Lle y mae angen cynaeafu coed o safle sydd wedi'i gytrefu gan blanhigyn ymledol fel *R. ponticum*, awgryma Cyfoeth Naturiol Cymru (2017) y dylid llwyrgwympo'r goedwig, er mwyn gallu gwaredu'r planhigion ymledol o'r safle cyn ailblannu'r coed.

### *3.3 Ymdrechion i reoli ei ymlediad*

O ganlyniad i'r difrod a achosir gan *R. ponticum*, mae awdurdodau megis Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystyried clirio *R. ponticum* fel un o'u prif flaenoriaethau (Wong et al. 2002). Mae hyn, fodd bynnag, yn waith anodd a chostus (Wong et al. 2002). Gall y gost o'i reoli amrywio o £1000 yr ha i £5000 yr ha, gan ddibynnu ar ddwysedd y llwyni, y dirwedd a'r dull a ddefnyddir (Jackson 2008). Yng Nghymru, torrir y planhigion gyda llif gadwyn yn bennaf, cyn eu llosgi ar y safle, oherwydd y dirwedd serth ac anghysbell lle y mae'n tyfu (Wong et al. 2002). Gellir defnyddio chwynladdwr hefyd, a'i chwistrellu ar ddail neu i mewn i'r coesyn (Cross 1975, Esen a Zedaker 2004).

Mae prosiectau llwyddiannus i'w gweld yn defnyddio cyfuniad o dorri a llosgi'r *R. ponticum* ar y safle. Yna, mae'n rhaid archwilio'r safle yn rheolaidd gan chwistrellu chwynladdwr ar unrhyw aildyfiant gan fod y safleoedd yn agored i ailgytrefiad gan *R. ponticum* (Cross 1981, Gritten 1995). Mae hyn oherwydd y gadewir tir wedi'i aflonyddu, a gall y broses o adfer gorchudd llystyfiant naturiol fod yn araf (Cross 1981, Gritten 1995, Wong et al. 2002). Mae *R. ponticum* yn tyfu'n dda ar safleoedd sydd wedi eu clirio, gan mai bryoffytau yw'r rhywogaethau cyntaf i dyfu yma yn aml, ac mae hyn yn annog eginiad hadau *R. ponticum* fel a drafodwyd yn flaenorol (Cross 1975). Mae ailymsefydliad *R. ponticum* yn parhau i fod yn broblem hyd yn oed ar ôl ailsefydlu cynefinoedd brodorol fel coedwigoedd llydanddail neu rostir ar ôl clirio *R. ponticum*, gan fod bryoffytau yn rhan bwysig o lystyfiant y cynefinoedd hyn. Golyga hyn felly bod angen monitro safleoedd a thrin aildyfiant am gyfnod hir ar ôl clirio, gan fod y risg o *R. ponticum* yn ymsefydlu drachefn yn parhau.

## 4.0 Y Dyfodol

Nid oes sicrwydd o ran beth fydd sefyllfa *R. ponticum* yng Nghymru yn y dyfodol, gan fod cynifer o ffactorau'n debygol o ddylanwadu ar ei ymlediad. Gallai'r ffactorau hyn gyfrannu at ehangu neu gyfyngu dosbarthiad *R. ponticum*.

Un o'r rhain yw newid hinsawdd. Yn ôl y rhagamcaniadau diweddaraf, y 2009 UK Climate Change Projections (UKCP09), erbyn y 2050au bydd hinsawdd Cymru wedi cynhesu, gyda'r hafau'n sychach a'r gaeafau'n wlypach (Murphy et al. 2010). Gall *R. ponticum* ddygymod ag amrediad eang o amodau amgylcheddol, ond nid yw'n dygymod cystal ag amodau effeithiol, a fyddai'n digwydd yn amlach yn ôl y rhagamcaniadau uchod (Cross 1975, Thomson et al. 1993). Mae ymlediad *R. ponticum* yn ddibynnol ar lwyddiant eginblanhigion. Byddai llai o eginblanhigion yn goroesi hafau sychach, tra byddai gwanwynau gwlypach yn eu helpu i oroesi'n well (Jackson 2008). Gallai hinsawdd gynhesach hefyd arwain at fod rhai o elynion naturiol *R. ponticum* yn mudo i'r gogledd, fel y pryfyn *G. fennahi* a'r ffwng pathogenaidd *Pycnostysanus azalea*, gan reoli'r boblogaeth yng Nghymru mewn ffordd naturiol. Mae'n anodd iawn rhagweld os gwnaiff newid hinsawdd gynyddu neu leihau ymlediad *R. ponticum* yng Nghymru. O ystyried ei oddefedd i amrediad mor eang o wahanol amodau, fodd bynnag, mae'n annhebygol iawn y gwnaiff y broblem leihau yn y dyfodol (Jackson 2008).

Ffactor arall a allai ddylanwadu ar ddosraniad *R. ponticum* yng Nghymru fyddai newidiadau mewn defnydd tir. Mae ansicrwydd o ran effaith pori ar *R. ponticum*, a hynny gan fod ei ddail yn cynnwys crynodiadau uchel o gyfansoddion ffenolig a grayanotocsinau gwenwynig, mae'n debyg fel strategaeth i wrthyrru llysysyddion (Gonzalez-Perez et al. 2011). O ganlyniad, dylai fod gan *R. ponticum* fantais gystadleuol dros rywogaethau eraill, gan nad yw pori'n effeithio arno i'r un graddau. Fel y trafodwyd ynghynt, fodd bynnag, nid yw *R. ponticum* yn llwyddiannus ar dir amaethyddol (Thomson et al. 1993). Gall pori felly fod yn ffactor pwysig wrth atal ymlediad (Jackson 2008).

Dros yr ugain mlynedd ddiwethaf, mae cyfraddau stocio ucheldiroedd Cymru wedi gostwng o ganlyniad i gynlluniau amaeth-amgylchedd, ac mae'r duedd hon yn debygol o barhau i'r dyfodol (Jackson 2008). Golyga'r heriau y mae ffermydd mynydd Cymru'n eu hwynebu, e.e. effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar ddyfodol cymorthdaliadau a thollau allforio, y gall cyfraddau stocio'r dyfodol ostwng ymhellach. Byddai cyfraddau stocio is yn arwain at gynnydd mewn tir ymylol, a fyddai'n debygol o ffafrio ymlediad *R. ponticum* (Jackson 2008).

Byddai ymdrechion i ailwylltio (*rewild*) ucheldir Cymru hefyd yn cael effaith debyg ar gyfraddau pori. Mae ailwylltio'n ddull amgen o gadwraeth, gyda'r bwriad o amddiffyn ecosystemau cyfan yn hytrach nag un rhywogaeth benodol (Navarro a Pereira 2012). Rhoddir llawer o sylw i ostwng cyfraddau pori ar dir mynydd, a gadael i brosesau olyniaeth naturiol ddigwydd, gan drawsnewid y tir yn ôl i gymuned o lwyni a choed (Milligan et al. 2016). Gellir cael rhai buddion cadwraethol drwy atal pori, er enghraifft cynyddu amrywiaeth y llystyfiant a lleihau trechedd glaswellt fel *Molinia caerulea*, ynghyd â chynyddu atafaeliad

carbon (*sequestration*) (Milligan et al. 2016). Canlyniad negyddol posibl o hyn, fodd bynnag, fyddai cynnydd yn ymlediad *R. ponticum*, wedi i'r pori a oedd yn ei gyfyngu gael ei atal.

Yn yr un modd, bwriad cynllun 'Coetiroedd i Gymru' Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r ganran o goetir yng Nghymru, gyda mwy o bwyslais yn cael ei roi ar blannu rhywogaethau llydanddail brodorol yn ddiweddar (Jackson 2008, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2009). Er y byddai hyn yn arwain at wella bioamrywiaeth, gallai hefyd o bosibl arwain at gynnydd yn ymlediad *R. ponticum* oherwydd ei lwyddiant o fewn coedwigoedd llydanddail.

Gwelir uchod fod newidiadau mewn defnydd tir yn ddibynnol ar ffactorau gwleidyddol ac economaidd a fyddai'n dylanwadu ar gyfraddau stocio. Byddai ffactorau gwleidyddol hefyd yn dylanwadu ar y gyfradd o glirio *R. ponticum*. Yn y gorffennol, daeth cryn dipyn o'r cyllid i brosiectau rheoli *R. ponticum* o grantiau Ewropeaidd (Jackson 2008). Yn Eryri ar hyn o bryd, mae'n debyg fod y gyfradd o glirio *R. ponticum* fwy neu lai'n cydbwyso â'i ymlediad naturiol, gan olygu bod yr ardal y mae'n ei gorchuddio'n aros yn sefydlog (Jackson 2008). Tanlinella hyn felly'r perygl o gynnydd yn ymlediad *R. ponticum*, os na chaiff yr arian hwn ei ddarparu gan Lywodraeth y DU wedi iddynt adael yr Undeb Ewropeaidd.

## 5.0 Casgliadau

I grynhoi, ers cyflwyno *R. ponticum* i Gymru dros 200 mlynedd yn ôl, mae wedi datblygu'n broblem fawr, gan fygwth cynefinoedd naturiol ac achosi costau economaidd sylweddol. Hyd yma, gwnaed y mwyafrif o ymchwil ar effeithiau negyddol *R. ponticum*, gyda dim ond 27% o'r erthyglau a welwyd yn Ffigwr 1 yn edrych ar atebion i'r broblem. Dylai astudiaethau'r dyfodol felly ymchwilio i reoli *R. ponticum*, yn enwedig sut i atal *R. ponticum* rhag ailsefydlu wedi iddo gael ei glirio. Er y gellir monitro safleoedd sydd wedi eu clirio ynghyd ag ail-drin planhigion unigol yn ôl yr angen, mae hyn yn waith llafurus a chostus. Er mwyn atal ailymsefydliad *R. ponticum*, byddai'n rhaid gwaredu'r ffynhonnell o hadau trwy glirio darnau enfawr o dir mewn cyfnod byr, sy'n waith costus dros ben. Trwy fodelu gwasgariad hadau, fodd bynnag, gellir rhagfynegi ymlediad *R. ponticum*, a blaenoriaethu ardaloedd sy'n fwy agored i niwed. Mae gwelliannau technolegol wedi troad y ganrif wedi galluogi cynnydd mewn modelu (Stephenson et al. 2006, Harris et al. 2009), a gall datblygu'r modelau hyn a'u hymgorffori i ymdrechion rheoli *R. ponticum* fod yn faes ymchwil pwysig yn y dyfodol.

Pwnc llosg arall yw'r pryder cynyddol am gyfraniad *R. ponticum* at ymlediad *P. ramorum*. Erbyn hyn, mae cysylltiad cryf wedi'i ganfod rhwng *R. ponticum* a phlanhigfeydd *Larix* spp. sydd wedi eu heintio. O ganlyniad, mae cynnal ymchwil bellach ar rôl *R. ponticum* yn ymlediad yr afiechyd, yn ogystal â modelu ymlediad y pathogen, yn angenrheidiol er mwyn amddiffyn planhigfeydd a chynefinoedd naturiol. Tanlinella'r heriau uchod bwysigrwydd sicrhau cyllid i brosiectau rheoli *R. ponticum* y dyfodol. Dengys hyn hefyd bwysigrwydd cynnal ymchwil yn y maes er mwyn gwella dealltwriaeth o'r broblem a datblygu dulliau mwy effeithlon o'i gwaredu.

## Llyfryddiaeth


Aerts, R. (1999), 'Interspecific competition in natural plant communities: mechanisms, trade-offs and plant-soil feedbacks', *Journal of Experimental Botany*, 50 (330), 29–37.

Akula, R., a Ravishankar, G. A. (2011), 'Influence of abiotic stress signals on secondary metabolites in plants', *Plant Signaling & Behavior*, 6 (11), 1720–31.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (2016), *Hanes Plas Tan y Bwlch*, <http://www.eryri-npa.gov.uk/cym/study-centre/history?name=> [Cyrchwyd: 13 Rhagfyr 2016].

Batten, L. A. (1976), 'Bird communities of some Killarney woodlands', *Proceedings of the Royal Irish Academy. Section B: Biological, Geological, and Chemical Science*, 76, 285–313.

Blair, A. C. et al. (2006), 'A lack of evidence for an ecological role of the putative allelochemical (±)-catechin in spotted knapweed invasion success', *Journal of Chemical Ecology*, 32 (10), 2327–31.

Brasier, C. M. et al. (2004), 'Sudden oak death (*Phytophthora ramorum*) discovered on trees in Europe', *Mycological Research*, 108, 1107–08.

Chadfield, V., a Pautasso, M. (2012), '*Phytophthora ramorum* in England and Wales: which environmental variables predict county disease incidence?', *Forest Pathology*, 42, 150–59.

Chamberlain, D. F. (1982), 'A revision of *Rhododendron* II. Sub-genus *Hymenanthes*', *Notes from the Royal Botanic Gardens Edinburgh*, 39, 209–486.

Chou, S. C. et al. (2010), 'Allelopathic potential of *Rhododendron formosanum* Hemsl in Taiwan', *Allelopathy Journal*, 25 (1), 73–91.

Clinton, B. D., a Vose, J. M. (1996), 'Effects of *Rhododendron maximum* L. on *Acer rubrum* L. seedling establishment', *Castanea*, 61 (1), 38–45.

Colak, A. H. et al. (1998), '*Rhododendron ponticum* in native and exotic environments, with particular reference to Turkey and the British Isles', *Journal of Practical Ecology and Conservation*, 2, 34–40.

Cross, J. R. (1975), '*Rhododendron Ponticum* L.', *The Journal of Ecology*, 63 (1), 345–64.

Cross, J. R. (1981), 'The establishment of *Rhododendron ponticum* in the Killarney Oakwoods, S. W. Ireland', *Journal of Ecology*, 69 (3), 808–24.

Cross, J. R. (1982), 'The invasion and impact of *Rhododendron ponticum* in native Irish vegetation', *Journal of Life Sciences Royal Dublin Society*, 3 (1), 209–20.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2017), *Good Practice Guide: Forest Resilience Guide 1 – Improving the structural diversity of Welsh woodlands*, <https://naturalresources.wales/media/681029/gpg6__forest-resilience-1__structural-diversity.pdf> [Cyrchwyd: 10 Ebrill 2017].

Dehnen-Schmutz et al. (2004), 'Controlling *Rhododendron ponticum* in British Isles: An economic analysis', *Journal of Environmental Management*, 70 (4), 323–32.

Dehnen-Schmutz, K., a Williamson, M. (2006), '*Rhododendron ponticum* in Britain and Ireland: Social, economic and ecological factors in its successful invasion', *Environment and History*, 12 (3), 325–50.

Erfmeier, A., a Bruelheide, H. (2004), 'Comparison of native and invasive *Rhododendron ponticum* populations: Growth, reproduction and morphology under field conditions', *Flora – Morphology, Distribution, Functional Ecology of Plants*, 199, 120–33.

Erfmeier, A., a Bruelheide, H. (2005), 'Invasive and native *Rhododendron ponticum* populations: Is there evidence for genotypic differences in germination and growth?', *Ecography*, 28 (4), 417–28.

Ermischer, G. (2004), 'Mental landscape: landscape as idea and concept', *Landscape Research*, 29 (4), 371–83.

Esen, D. et al. (2006), 'Ecology, competitive advantges, and integrated control of *Rhododendron*: an old ornamental yet emerging invasive weed around the globe', *Floriculture, Ornamental and Plant Biotechnology*, 3, 408–21.

Esen, D., a Zedaker, S. M. (2004), 'Control of *Rhododendron* (*Rhododendron ponticum* and *R. flavum*) in the eastern beech (*Fagus orientalis*) forests of Turkey', *New Forests*, 27 (1), 69–79.

Gonzalez-Perez, J. A. et al. (2011), 'Geochemical and ecological significance of soil lipids under *Rhododendron ponticum* stands', *Environmental Chemistry Letters*, 9 (4), 453–64.

Gritten, R. H. (1995), '*Rhododendron ponticum* and some other invasive plants in the Snowdonia National Park', yn Pysek, P. et al., *Invasions: General Aspects and Special Problems*, Amsterdam, SBP Academic Publishing.

Harris, C. M. et al. (2009), 'Invasive species control: Incorporating demographic data and seed dispersal into a management model for *Rhododendron ponticum*', *Ecological Informatics*, 33, 1456–66.

Higgins, G. T. (2008), '*Rhododendron ponticum*: A guide to management on nature conservation sites', *Irish Wildlife Manuals, No. 33*, Dublin, National Parks and Wildlife Service, Department of the Environment, Heritage and Local Government, Dublin, Ireland.

Higgins, S. I., a Richardson, D. M. (1996), 'A review of models of alien plant spread', *Ecological modelling*, 87, 249–65.

Holmes, G. D. (1957), 'Experiments on the chemical control of *Rhododendron ponticum*', *Forestry Commission: Forest Record*, 34, 1–7.

Hough, R. L. et al. (2010), 'Degradation of yew, ragwort and rhododendron toxins during composting', *Science of the Total Environment*, 408 (19), 4128–37.

Jackson, P. (2008), 'Rhododendron in Snowdonia and a strategy for its control', <http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0020/68600/Rhododendron-Strategy-Final.pdf> [Cyrchwyd: 13 Rhagfyr 2017].

Jaiswal, R. et al. (2012), 'Identification and characterization of proanthocyanidins of 16 members of the *Rhododendron* genus (Ericaceae) by tandem LC-MS', *Journal of Mass Spectrometry*, 47 (4), 502–15.

Jones, P. H. (1972), 'Succession in breeding bird populations of sample Welsh oakwoods', *British Birds*, 65, 291–9.

Judd, S., a Rotherham, I. D. (1992), 'The phytophagous insect fauna of *Rhododendron ponticum*', *Entomologist*, 111 (3), 134–50.

Keane, R. M., a Crawley, M. J. (2002), 'Exotic plant invasions and the enemy release hypothesis', *Trends in Ecology and Evolution*, 17 (4), 164–70.

Lei, T. T. et al. (2002), 'Effects of *Rhododendron maximum* thickets on tree seed dispersal, seedling morphology, and survivorship', *International Journal of Plant Sciences*, 163 (6), 991–1000.

Li, Z. H. et al. (2010), 'Phenolics and plant allelopathy', *Molecules*, 15 (12), 8933–52.

Lin, L. C. et al. (2011), 'Decomposition of organic matter by the ericoid mycorrhizal endophytes of Formosan rhododendron (*Rhododendron formosanum* Hemsl.)', *Mycorrhiza*, 21 (5), 331–9.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009), *Coetiroedd i Gymru*, <http://gov.wales/docs/drah/publications/090324-woodlands-for-wales-strategy-cy.pdf> [Cyrchwyd: 7 Mawrth 2017).

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2013), *Invasive Alien Species - Research Note*, <http://www.assembly.wales/research%20documents/invasive%20alien%20species%20-%20research%20note-08042013-245303/rn13-006-english.pdf> [Cyrchwyd: 5 Hydref 2017].

Maron, J. L., a Vila, M. (2001), 'When do herbivores affect plant invasion? Evidence for the natural enemies and biotic resistance hypotheses', *Oikos*, 95, 361–73.

Mejías, J. A. et al. (2002), 'Reproductive ecology of *Rhododendron ponticum* (Ericaceae) in relict Mediterranean populations', *Botanical Journal of the Linnean Society*, 140 (3), 297–311.

Mifsud, D. et al. (2010), 'Other Hemiptera Sternorrhyncha (Aleyrodidae, Phylloxeroidea, and Psylloidea) and Hemiptera Auchenorrhyncha. Chapter 9.4', *BioRisk*, 4, 511–52.

Milligan, G. et al. (2016), 'Winners and losers in a long-term study of vegetation change at Moor House NNR: Effects of sheep-grazing and its removal on British upland vegetation', *Ecological Indicators*, 68, 89–101.

Milne, R. I., ac Abbott, R. J. (2000), 'Origin and evolution of invasive naturalized material of *Rhododendron ponticum* L. in the British Isles', *Molecular Ecology*, 9 (5), 541–56.

Murphy, J. et al. (2010), *Climate change projections*, *Climate Change and Agriculture*, <http://ukclimateprojections.defra.gov.uk> [Cyrchwyd: 11 Ionawr 2017).

Navarro, L. M., a Pereira, H. M. (2012), 'Rewilding abandoned landscapes in Europe', *Ecosystems*, 15, 900–12.

Nilsen, E. T. et al. (1999), 'Inhibition of seedling survival under *Rhododendron maximum* (Ericaceae): could allelopathy be a cause?', *American Journal of Botany*, 86 (11), 1597–1605.

Nolan, N. E. et al. (2014), 'Activated carbon decreases invasive plant growth by mediating plant-microbe interactions', *AoB PLANTS*, 7, 1–12.

Perry, L. G. et al. (2007), 'Concentrations of the allelochemical (±)-catechin in *Centaurea maculosa* soils', *Journal of Chemical Ecology*, 33 (12), 2337–44.

Peterken, G. F. (2001), 'Ecological effects of introduced tree species in Britain', *Forest Ecology and Management*, 141, 31–42.

Pichersky, E., a Gang, D. R. (2000), 'Genetics and biochemistry of secondary metabolites in plants: An evolutionary perspective', *Trends in Plant Science*, 5 (10), 439–45.

Plocher, A. E., a Carvell, K. L. (1987), 'Population dynamics of rosebay rhododendron thickets in the southern Appalachians', *Bulletin of the Torrey Botanical Club*, 114 (1142), 121–6.

Popescu, R., a Kopp, B. (2013), 'The genus *Rhododendron*: An ethnopharmacological and toxicological review', *Journal of Ethnopharmacology*, vol. 147 (1), 42–62.

Qiang, Y. et al. (2011), 'Chemical constituents of plants from the genus *Rhododendron*', *Chemistry and Biodiversity*, 8 (5), 792–815.

Rice, E. L. (1979), 'Allelopathy: An update', *The Botanical Review*, 45 (1), 15–109.

Rice, E. L. (1984), *Allelopathy*, 2il argraffiad (Llundain: Academic Press).

Rotherham, I. D., 'The ecology of *Rhododendron ponticum* L. with special reference to its competitive and invasive capabilities', traethawd PhD, University of Sheffield, Sheffield, 1983.

Rotherham, I. D. (1986), 'The introduction, spread and current distribution of *Rhododendron ponticum* in the Peak District and Sheffield area', *Naturalist*, 111, 61–7.

Rotherham, I. D. (2001), '*Rhododendron* gone wild: Conservation implications of *Rhododendron ponticum* in Britain', *Biologist*, 48 (1), 7–11.

Rotherham, I. D., a Read, D. J. (1988), 'Aspects of the ecology of *Rhododendron ponticum* with reference to its competitive and invasive properties', *Aspects of Applied Biology*, 16, 327–35.

Shaw, M. W. (1984), '*Rhododendron ponticum*: Ecological reasons for the success of an alien species in Britain and features that may assist in its control', *Aspects of Applied Biology*, 5, 231–42.

Snowdonia Rhododendron Partnership (2015), *The Ecosystem Benefits of managing the invasive non–native plant Rhododendron ponticum in Snowdonia*, <http://www.eryri-npa.gov.uk/__data/assets/pdf_file/0019/546112/Rhododendron-in-Snowdonia.pdf> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2016].

Stephenson, C. M. et al. (2007), 'Testing mechanistic models of seed dispersal for the invasive *Rhododendron ponticum* (L.)', *Perspectives in Plant Ecology, Evolution and Systematics*, 9 (1), 15–28.

Stephenson, C. M. et al. (2006), 'Modelling establishment probabilities of an exotic plant, *Rhododendron ponticum*, invading a heterogeneous, woodland landscape using logistic regression with spatial autocorrelation', *Ecological Modelling*, 193, 747–58.

Stout, J. C. et al. (2006), 'Pollination ecology and seed production of *Rhododendron ponticum* in native and exotic habitats', *Biodiversity and Conservation*, 15 (2), 755–77.

Suc, J.-P. (1984), 'Origin and evolution of the Mediterranean vegetation and climate in Europe', *Nature*, 307 (5950), 429–32.

The Wildlife Trusts (dim dyddiad), *Rhododendron Leafhopper*, <http://www.wildlifetrusts.org/species/rhododendron-leafhopper> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2016].

Thomson, A. G. et al. (1993), 'Factors Affecting the Distribution and Spread of *Rhododendron* in North Wales', *Journal of Environmental Management*, 39 (3), 199–212.

Walker, J. F. et al. (1999), 'Suppression of ectomycorrhizae on canopy tree seedlings in *Rhododendron maximum* L. (Ericaceae) thickets in the southern Appalachians', *Mycorrhiza*, 9 (1), 49–56.

Wang, C. M. et al. (2013), 'The Impact of microbial biotransformation of catechin in enhancing the allelopathic effects of *Rhododendron formosanum*', *PLoS ONE*, 8 (12), <http://dx.plos.org/10.1371/journal.pone.0085162> [Cyrchwyd: 6 Rhagfyr 2016].

Williams, F. et al. (2010), *The economic cost of invasive non-native species on Great Britain*, <http://www.invasivespeciesscotland.org.uk/wp-content/uploads/2012/09/The_Economic_Cost_of_Invasive_Non-Native_Species_to_Great_Britain_-_Final_Report1.pdf> [Cyrchwyd: 12 Rhagfyr 2016].

Williams, R. D., a Hoagland, R. E. (1982), 'The effects of naturally occurring phenolic compounds on seed germination', *Weed Science*, 30 (2), 206–12.

Wong, J. et al. (2002), *Report of the rhododendron feasibility study* <http://www.wildresources.co.uk/reports/rhodo_eng.pdf> [Cyrchwyd: 6 Rhagfyr 2016].

Yela, J. L., a Lawton, J. H. (1997), 'Insect herbivore loads on native and introduced plants: a prelimary study', *Entomologia Experimentalis et Aplicata*, 85 (3), 275–9.

# Astudiaeth o ganfyddiadau tiwtoriaid *Cymraeg i Oedolion* o anawsterau ynganu ymhlith dysgwyr yr iaith

Iwan Wyn Rees a Jonathan Morris

*Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd*

Cyflwynwyd: 11 Gorffennaf 2017; Derbyniwyd: 30 Ionawr 2018

**Crynodeb:** Cyflwyna'r erthygl hon ddadansoddiad manwl o safbwyntiau tiwtoriaid profiadol ar ynganu dysgwyr *Cymraeg i Oedolion* (CiO) a'r sylw a roddir i ddysgu ynganu yn y sector. Casglwyd y data a gyflwynir yma drwy ddosbarthu holiadur ar-lein i diwtoriaid profiadol o wahanol rannau o Gymru, a thrwy gynnal grwpiau ffocws â sampl o'r tiwtoriaid hyn mewn dau leoliad penodol yng Nghymru. Nodau'r ymchwil yw sefydlu sut y mae tiwtoriaid yn canfod anawsterau ynganu dysgwyr, a darganfod i ba raddau y maent wedi eu hyfforddi'n ddigonol ar gyfer cynorthwyo dysgwyr o safbwynt yr agwedd heriol hon ar ddysgu iaith. Archwilir hefyd i ba raddau y mae gwahanol elfennau ynganu (e.e. cynhyrchu seiniau penodol a goslefu) yn effeithio ar allu dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Cyflwynir ar ddiwedd yr erthygl hon gyfres o argymhellion o ran y modd y gall y sector CiO wella ei darpariaeth o safbwynt ynganu. Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â darpariaeth y cyrsiau, yr hyfforddiant y mae ei angen ar diwtoriaid, yr adnoddau y gellid eu datblygu, y gweithgareddau allgyrsiol y gellid eu cynnal, yn ogystal ag ymchwil pellach a allai lywio pedagogeg y sector.

**Allweddeiriau**: Ieithyddiaeth gymhwysol, dysgu Cymraeg, Cymraeg i Oedolion, ynganu, caffael ail iaith, amrywio ffonolegol, seineg, rhyngiaith.

## A study of tutors' perspectives on learners' pronunciation difficulties in the *Welsh for Adults* Sector

**Abstract:** This article presents a detailed analysis of the views of experienced *Welsh for Adults* (WfA) tutors on learners' pronunciation and the attention paid to teaching pronunciation in the sector. The data were collected by distributing an on-line questionnaire to experienced tutors in different parts of Wales, and by conducting focus groups with a sample of these tutors in two specific locations in Wales. The aims of the research are to establish how

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

tutors perceive learners' pronunciation difficulties and to what extent they are adequately trained to assist learners in this challenging aspect of language learning. The extent to which various aspects of pronunciation (e.g. producing specific sounds and intonation) affect learners' ability to communicate effectively outside the classroom is also examined. A series of recommendations is presented at the end of the article which suggest how the WfA sector can improve its provision with regard to pronunciation. These recommendations concern the provision of courses, the training needed by tutors, resources that could be developed, the extracurricular activities that could take place, as well as further research which could inform pedagogy in the sector.

**Keywords**: Applied linguistics, learning Welsh, Welsh for Adults, pronunciation, second language acquisition, phonological variation, phonetics, interlanguage.

## 1. Cyflwyniad

Yn yr astudiaeth hon, cyflwynir ffrwyth ymchwil astudiaeth gychwynnol o'r modd y dysgir ynganu ym maes *Cymraeg i Oedolion* (CiO). Prif sail y canfyddiadau a'r argymhellion a gyflwynir yma yw canlyniadau holiadur a ddosbarthwyd i diwtoriaid profiadol y sector CiO, yn ogystal â thystiolaeth grwpiau ffocws gyda samplau o'r tiwtoriaid hyn mewn dau leoliad penodol yng Nghymru.

Amcanion yr astudiaeth hon yw ymchwilio i ganfyddiadau tiwtoriaid er mwyn:

- Pennu a yw ynganu'n broblem ymhlith dysgwyr y Gymraeg;
- Darganfod sut, ac i ba raddau, y rhoddir sylw i ynganu yn y dosbarth;
- Archwilio effeithiau problemau ynganu ar allu dysgwyr i gyfathrebu y tu allan i'r ystafell ddosbarth;
- Ymchwilio i resymau cymdeithasol (gw., er enghraifft, Trosset 1986, Hughes 2003, Pritchard Newcombe 2007, 2009) a rhai ieithyddol dros anawsterau ynganu;
- Sefydlu pa seiniau/nodweddion ynganu sy'n achosi anawsterau;
- Argymell camau gweithredu a fydd yn fuddiol i'r sector yn y dyfodol.

Cyflawnwyd yr ymchwil yn rhannol yn sgil adroddiad Mac Giolla Chríost et al. (2012) a adolygodd wahanol agweddau ar y sector CiO. Awgrymwyd yn yr adroddiad y dylai'r maes roi sylw i ynganu y tu hwnt i unedau cyntaf y cwrs Mynediad, e.e. trwy ddarparu adnoddau ar-lein, a threfnu mwy o hyfforddiant i diwtoriaid ym meysydd seineg a ffonoleg (Mac Giolla Chríost et al. 2012: tt. 32–49). Yn ogystal â'r argymhellion ymarferol hynny, pwysleisiwyd yr angen am fwy o ymchwil yn y maes (Mac Giolla Chríost et al. 2012: t. 223).

Gellir cyfeirio yn y cyswllt hwn at beth gwaith ymchwil a wnaed eisoes ar brofiadau oedolion a ddysgai'r Gymraeg yng ngogledd Cymru (Andrews 2011, Baker et al. 2011). Dengys yr astudiaethau hyn fod 92.3% o'r cychwynwyr a holwyd yn disgwyl gallu 'ynganu

geiriau Cymraeg' yn 'dda iawn' neu'n 'weddol dda' erbyn diwedd eu cwrs (Andrews 2011: t. 48, Baker et al. 2011: tt. 51–3). Mae un arall o ganfyddiadau Andrews (2011: t. 52), sef bod 'ynganu' yn un o'r prif anawsterau a wynebai dysgwyr wrth iddynt ddysgu Cymraeg, gyda 55.5% yn nodi ei fod yn 'anodd' neu'n 'anodd iawn', yn cadarnhau bod dirfawr angen i'r sector ddefnyddio'r dulliau mwyaf effeithiol posibl ar gyfer gwella ynganiad dysgwyr. Yng ngoleuni'r disgwyliadau uchel hyn, gellir barnu bod angen i'r sector CiO ystyried cynnydd yn ynganiad dysgwyr fel un o'u blaenoriaethau o safbwynt deilliannau dysgu. Diddorol nodi yn y cyswllt hwn fod cwricwlwm cenedlaethol newydd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2017[a]) yn ystyried ynganu a goslefu yn elfennau allweddol o safbwynt cyraeddiadau dysgwyr a nodau cyrsiau'r dyfodol.

Er gwaethaf gwaith ymchwil blaenorol ar safbwyntiau dysgwyr ar eu profiadau, prin iawn yw astudiaethau o ymagweddau tiwtoriaid tuag at anawsterau dysgwyr y Gymraeg. Bydd yr erthygl hon, felly, yn canolbwyntio ar ganfyddiadau tiwtoriaid profiadol o heriau ynganu dysgwyr o wahanol gefndiroedd ieithyddol, o bwysigrwydd addysgu ynganu fel elfen greiddiol o ddysgu iaith, ac o berthynas yr heriau hyn â phrofiadau o gyfathrebu yn y gymdeithas. Gan hynny, bydd y syniadau a wyntyllir gan y tiwtoriaid yn sail i gasgliadau ac argymhellion yr erthygl hon.

Rhoddir amlinelliad o'r cysyniadau allweddol ym maes Caffael Ail Iaith yn adran 2, gan gynnig crynodeb o astudiaethau blaenorol perthnasol (gan gynnwys yr ychydig astudiaethau a wnaed ar leferydd dysgwyr y Gymraeg). Eir ati wedyn yn adran 3 i grynhoi methodoleg yr astudiaeth hon, cyn mynd rhagddi yn adran 4 i gyflwyno a dehongli'r canlyniadau a gafwyd yn ôl y themâu canlynol:

- Ynganu fel problem yn y maes;
- Ynganu yn y dosbarth;
- Cyfathrebu yn y gymuned;
- Gwahaniaethau rhwng dysgwyr o Gymru a dysgwyr o wledydd eraill;
- Nodweddion ynganu sy'n achosi problemau.

Amlinellir casgliadau ac argymhellion yr astudiaeth hon yn adran 5, cyn cloi â chrynodeb o'r prif ganfyddiadau ymchwil yn adran 6.

## 2. Cysyniadau ac astudiaethau perthnasol

Ceir traddodiad hir o ddadansoddi iaith lafar ac iaith ysgrifenedig siaradwyr ail iaith y Saesneg ym maes Caffael Ail Iaith (gw., er enghraifft, Ortega 2009 am drosolwg o'r maes, a Flege 1995 am ymdriniaeth gyffredinol â lleferydd siaradwyr ail iaith). Canolbwyntia'r astudiaethau hyn ar amrywiaeth o agweddau ieithyddol gwahanol, gan gynnwys ffonoleg, geirfa, gramadeg (morffoleg a chystrawen), a phragmateg iaith (Ortega 2009: t. 111) a chydnabyddir y gall iaith gyntaf dysgwyr ddylanwadu ar eu defnydd o'r elfennau hyn yn eu hail iaith. Trosglwyddo (*transfer*) yw'r term a ddefnyddir er mwyn disgrifio seiniau neu

nodweddion ieithyddol eraill yr iaith gyntaf sy'n ymddangos yn yr ail iaith. Gall trosglwyddo fod yn bositif (*positive transfer*), h.y. pan fydd trosglwyddo sain neu nodwedd o'r iaith gyntaf yn helpu'r siaradwr i gaffael yr ail iaith, neu yn negyddol (*negative transfer*), h.y. pan fydd trosglwyddo sain neu reol yn rhwystro'r siaradwr ail iaith rhag cynhyrchu nodwedd benodol fel siaradwr brodorol (Ellis 2008: tt. 349–50). Er hyn, nid dylanwadau rhyngieithyddol yn unig sy'n esbonio datblygiad ieithyddol siaradwyr ail iaith. Gall anawsterau godi yn lleferydd dysgwyr gan mai proses ddatblygiadol yw caffael iaith (gweler, er enghraifft, Meisel et al. 1981). Fel y dywed Ortega (2009: t. 51), 'many errors that at first blush might be attributed to the influence of the mother tongue can be, in fact, unrelated to the L1 and instead reflect developmental universal processes that have been attested in the acquisition of human language in general'.

Cyfeiria rhyngiaith (*interlanguage*) at system gyfathrebol dysgwyr (Selinker 1972) a disgwylir iddi newid dros amser wrth i ddysgwyr symud tuag at feistrolaeth lawn o'r iaith darged. Disgrifia'r term 'ffosileiddio' (*fossilisation*) anallu parhaol rhai dysgwyr i feistroli nodweddion penodol yn yr ail iaith. Yn ôl Han (2004: t. 4):

> [fossilisation describes] permanent lack of mastery of a target language (TL) despite continuous exposure to the TL input, adequate motivation to improve, and sufficient opportunity for practice.

Gwahaniaetha Mougeon et al. (2004) rhwng dau fath o amrywio yn lleferydd siaradwyr ail iaith. Mae amrywio Teip 1 ar y naill law yn disgrifio nodweddion a gynhyrchir o ganlyniad i'r broses o gaffael ail iaith. Ar y llaw arall, mae amrywio Teip 2 yn disgrifio nodweddion a gynhyrchir sydd hefyd yn amrywio yn lleferydd siaradwyr brodorol (gw. hefyd drafodaeth bellach gan Durham 2014: tt. 16–17). Tanlinella hyn yn glir fod lleferydd siaradwyr ail iaith a siaradwyr brodorol yn amrywio fel ei gilydd.

Prin iawn yw'r astudiaethau o leferydd dysgwyr y Gymraeg. Cyflawnwyd astudiaeth fanwl o Gymraeg llafar 17 o ddysgwyr CiO, lle y rhestra Brake (2012: tt. 35–36) nifer o anawsterau cyffredin, gan gynnwys nodweddion uwchsegmentaidd (e.e. yr acen bwys ar y sillaf anghywir) a rhai segmentaidd (e.e. cynhyrchu'r ffrwydrolen felar ddi-lais [k] <c> yn lle'r ffrithiolen yflar ddi-lais [χ] <ch> neu'r ffrithiolen ochrol ddi-lais [ɬ] <ll>).

Mewn astudiaeth o gaffaeliad ffonolegol ymhlith saith dysgwr ar gwrs Sylfaen, defnyddiodd Pearce (2015) ddulliau meintiol er mwyn gweld i ba raddau yr oedd dysgwyr Cymraeg yn caffael y ffrithiolen yflar ddi-lais [χ] <ch>, y ffrithiolen ochrol ddi-lais [ɬ] <ll>, a'r ôl-ddodiad berfenwol [jɔ] <io>. Darganfu fod tuedd i'r dysgwyr Sylfaen gynhyrchu'r seiniau targed gan amlaf, ond bod amrywio i'w weld yng nghanrannau'r cynyrchiadau targed rhwng dysgwyr unigol a'i gilydd. Yn ogystal â hyn, tueddai'r dysgwyr i gynhyrchu canrannau uwch o gynyrchiadau targed wrth ddarllen rhestr o eiriau nag wrth siarad yn rhydd. Pwysleisia'r astudiaeth hon, felly, yr angen i ystyried effaith y sefyllfa ar gynhyrchiant lleferydd dysgwyr a'r gwahaniaethau a all fodoli rhwng unigolion a'i gilydd.

Cymharodd Creamer (2016) leferydd dysgwyr Cymraeg y cwrs Sylfaen ag eiddo rhai'r cwrs Uwch drwy ofyn i siaradwyr brodorol wrando ar gyfres o glipiau ac arfarnu i ba raddau

y credent fod y siaradwr yn 'frodorol' ac yn 'ddealladwy' (cymharer, er enghraifft, â Munro a Derwing 1999). Cynhwysai'r prawf glipiau o siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr Cymraeg i Oedolion y ddwy lefel yn ynganu'r un geiriau. Yn ei dadansoddiadau o eiriau a gynhwysai'r ffrithiolen yflar ddi-lais [χ] <ch> a'r ffrithiolen ochrol ddi-lais [ɬ] <ll>, dangosodd y canlyniadau fod tuedd gyffredinol i wrandawyr wahaniaethu rhwng siaradwyr brodorol a dysgwyr o safbwynt y ddau faen prawf, h.y. ystyrid bod siaradwyr brodorol yn swnio'n fwy dealladwy ac yn fwy brodorol. Er hynny, nid oedd gwahaniaeth clir rhwng yr ymatebion a gafwyd i ddysgwyr Sylfaen a'r rhai Uwch, sy'n awgrymu'n gryf nad yw pob anhawster ynganu yn diflannu gyda phrofiad.

Rhoi ystyriaeth i ddylanwad ffactorau ieithyddol ac all-ieithyddol ar gaffaeliad dysgwyr o'r ffrithiolen ochrol ddi-lais [ɬ] <ll> a wnaeth Cooper (2017). Edrychodd ar effaith safle'r sain yn y gair ar y modd y cynhyrchwyd y targed [ɬ] <ll>, yn ogystal ag effeithiau ffactorau cymdeithasol megis rhesymau'r dysgwyr dros ddysgu'r Gymraeg (personol, economaidd, neu'r ddau gymhelliant hyn), eu hoedran yn dysgu'r iaith, a nifer y blynyddoedd y buasai'r dysgwyr yn dysgu'r Gymraeg. Cynhyrchwyd canrannau uwch o gynyrchiadau targed pan oedd [ɬ] <ll> yn ymddangos ar ddechrau gair nag ar ddiwedd gair, pan oedd y dysgwyr yn dysgu'r Gymraeg am resymau personol ac economaidd, a phan oeddent wedi dechrau dysgu'r Gymraeg cyn iddynt gyrraedd eu 30 mlwydd oed. Yn yr un modd ag y gwelwyd yn astudiaeth Creamer (2016) uchod, nid oedd nifer y blynyddoedd y buesid yn dysgu'r Gymraeg yn effeithio ar y canlyniadau.

Mae'r astudiaethau uchod yn taflu goleuni gwerthfawr ar natur ynganiad dysgwyr mewn gwahanol gyd-destunau, ac yn sicr, gall fod goblygiadau pwysig i'w canfyddiadau o safbwynt llywio pedagogeg (gw. trafodaeth gan Derwing a Munro 2005). Ymhellach, nodwyd ar ddechrau'r ganrif hon gan Hughes (2003: t. 51) fod '[...] consensws ymhlith [...] addysgwyr fod acen ac ynganiad [...] dysgwyr yn ffactor sylweddol yn agwedd negyddol y Cymry Cymraeg tuag atynt', ac mai '[...] prin iawn yw'r sylw a roddir i ynganu a goslef yn y cyrsiau'. Fodd bynnag, nid yw'n glir sut y mae tiwtoriaid heddiw yn canfod anawsterau ynganu dysgwyr y Gymraeg a pha anghenion sydd gan y tiwtoriaid hyn er mwyn dysgu ynganu'n fwy effeithiol.

Dengys gwaith ymchwil blaenorol ar safbwyntiau dysgwyr a thiwtoriaid y Saesneg fod tuedd gan diwtoriaid i ffafrio modelau ynganu brodorol (h.y. hyfforddi dysgwyr i ynganu Saesneg fel y'i hyngenir gan siaradwyr brodorol) ac i werthuso ynganiadau anfrodorol yn negyddol (e.e. Timmis 2002; McKay 2003; Sifakis a Sougari 2005; Coskun 2011). Yn yr un modd, canfu Hughes (2003: t. 55) ymagweddau tebyg ymhlith rhai tiwtoriaid y sector CiO, gydag un tiwtor profiadol o'r farn '[...] y dylid anelu i gael y dysgwyr i swnio mor debyg ag sydd bosibl i Gymry Cymraeg mewn ardal Gymraeg, a hynny oherwydd agwedd y siaradwyr brodorol tuag at acenion "annerbyniol"'.

Er bod canfyddiadau o wahanol amrywiadau ar y Gymraeg yn drywydd ymchwil perthnasol (e.e. Robert 2009), canolbwyntir yma ar ganfyddiadau tiwtoriaid o anawsterau cyffredinol a wynebir gan ddysgwyr, ac i ba raddau y mae'r anawsterau hyn yn effeithio ar gyfathrebu. Gan hynny, bwriedir i'r astudiaeth hon weithredu fel dolen gyswllt rhwng dadansoddiadau diweddar o ganfyddiadau anghenion dysgwyr (e.e. Andrews 2011, Baker

et al. 2011) ar y naill law a dadansoddiadau meintiol o leferydd dysgwyr (e.e. Brake 2012, Cooper 2017) ar y llaw arall.

## 3. Methodoleg

Fel y nodwyd eisoes, casglwyd y data sy'n sail i'r astudiaeth hon drwy ddefnyddio holiadur a thrwy gynnal grwpiau ffocws. Manylir isod ar y modd y rhoddwyd y ddau ddull hyn ar waith, gan fanylu hefyd ar y samplau a gafwyd ym mhob achos.

### *3.1 Yr Holiadur*

Yn y lle cyntaf, crëwyd holiadur ar-lein (Bristol Online Surveys) ar gyfer casglu data meintiol, a chafwyd ymatebion iddo rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2013. Penderfynwyd gofyn i diwtoriaid a oedd â phrofiadau o ddysgu ar amrywiaeth o gyrsiau lenwi'r holiadur, a chysylltwyd â hwy drwy'r cyfarwyddwyr yn y chwe chanolfan CiO.[1]

Fel y gwelir yn yr holiadur (<http://www.gwerddon.cymru/en/media/main/gwerddon/rhifynnau/erthyglau/Gwerddon27_e3_Atodiad_Holiadur.pdf>), casglwyd data ar gefndir y tiwtoriaid yn ogystal â gwybodaeth am eu profiad o weithio ym maes CiO. Archwiliodd yr holiadur hefyd agweddau'r tiwtoriaid tuag at:

- Anawsterau sy'n codi ymhlith dysgwyr;
- Y rhesymau dros anawsterau ynganu;
- Y problemau a all godi yn y gymuned oherwydd anawsterau ynganu.

Sail y data meintiol hwn oedd cyfres o gwestiynau caeedig a datganiadau a gyflwynwyd ar ffurf graddfa *Likert* bum pwynt (Likert 1932). Rhoddwyd hefyd gyfle i ymatebwyr roi sylwadau pellach mewn cwestiynau agored.

Atebwyd yr holiadur gan 59 tiwtor, sef 8.8% o'r tiwtoriaid a geid yng Nghymru ($n$=670) yn ôl Old Bell 3 (2011: tt. 64–5). Roedd y rhan fwyaf o diwtoriaid yn fenywod (Old Bell 3 2011: t. 65). Yn debyg, mae 76.3% ($n$=45) o'r sampl yn fenywod a 23.7% ($n$=14) yn ddynion.

Fel yr oedd y rhan fwyaf o diwtoriaid CiO (Old Bell 3 2011: t. 66), roedd y rhan fwyaf o'r sampl a lanwodd yr holiadur dros 50 mlwydd oed. Roedd 33.9% rhwng 20 a 49 mlwydd oed ($n$=20), ac roedd 59.3% dros 50 mlwydd oed ($n$=35). Ni nododd 6.8% o'r sampl eu hoedrannau ($n$=4).

Ceid chwe chanolfan CiO (Old Bell 3 2011: t. 3) yn darparu cyrsiau yng Nghymru. Dangosir y sampl a gafwyd yn y tabl isod, ynghyd â chanrannau o'r sampl cyfan a ddaeth o bob canolfan:

[1] Ers i waith maes yr astudiaeth hon gael ei gyflawni, sefydlwyd y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a arweiniodd at ddileu'r chwe chanolfan hyn, gan greu un ar ddeg darparwr yn eu lle (gw. rhestr o'r darparwyr newydd hyn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 2017[b]).

| Canolfan | *n* | % |
|---|---|---|
| **De-orllewin** | 13 | 22.0 |
| **Gogledd** | 12 | 20.3 |
| **Gwent** | 11 | 18.6 |
| **Caerdydd** | 9 | 15.3 |
| **Morgannwg** | 7 | 11.9 |
| **Canolbarth** | 7 | 11.9 |

Tabl 1: Nifer a chanran y cyfranogwyr o'r chwe chanolfan CiO.

Roedd 67.8% ($n$=40) o'r sampl yn gweithio yn llawn amser a 32.2% ($n$=19) yn rhan amser.

Roedd gan y rhan helaethaf o'r sampl gymhwyster yn y Gymraeg (nid atebwyd y cwestiwn hwn gan un tiwtor). Roedd gan dros hanner y sampl (54.2%; $n$=32) radd yn y Gymraeg ac roedd cryn dipyn ohonynt (16.9%, $n$=10) wedi cwblhau astudiaethau ôl-raddedig yn y Gymraeg. Roedd gan 20.3% ($n$=12) o'r sampl gymwysterau Safon Uwch neu TGAU mewn Cymraeg Iaith Gyntaf ac roedd gan 6.7% ($n$=4) gymhwyster CiO (Uwch neu Hyfedredd).

Honnir gan Old Bell (2011: t. 66) fod 22% o diwtoriaid heb gymhwyster dysgu. Roedd 15.3% ($n$=9) o'r sampl heb gymhwyster dysgu ac roedd 6.8% ($n$=4) wedi cwblhau'r cymhwyster CiO. Roedd gan y rhan fwyaf o diwtoriaid naill ai gymhwyster TAR (45.8%; $n$=27) neu fwy nag un cymhwyster dysgu (32.2%; $n$=19).

Dangosir y blynyddoedd o brofiad a oedd gan y tiwtoriaid yn y tabl isod:

| Blynyddoedd | *n* | % |
|---|---|---|
| **0 – 9** | 17 | 28.8 |
| **10 – 19** | 22 | 37.3 |
| **20 – 29** | 13 | 22.0 |
| **30+** | 7 | 11.9 |

Tabl 2: Nifer y blynyddoedd o brofiad gan diwtoriaid y sampl.

Ar sail cwestiynau a oedd yn ymwneud â'r iaith ar yr aelwyd a'r modd y bu i'r tiwtoriaid gaffael y Gymraeg, gellir nodi i 59.3% ($n$=35) ohonynt gaffael y Gymraeg gan eu rhieni, ac i 40.7% ($n$=24) ohonynt gaffael y Gymraeg fel ail iaith naill ai yn yr ysgol neu fel oedolion.

Nid oedd neb o gartrefi di-Gymraeg wedi caffael y Gymraeg drwy fynychu ysgol Gymraeg neu un ddwyieithog. Roedd y rhan fwyaf ohonynt (58.3%; 14/24) wedi caffael y Gymraeg fel oedolion naill ai ar gyrsiau CiO (50%; 7/14) neu ar gyrsiau prifysgol (35.7%; 5/14), neu'n annibynnol (14.3%, 2/14). Dechreuodd 16.9% ($n$=10) o'r sampl ddysgu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg. Roedd pob tiwtor yn honni bod ganddynt sgiliau cyfathrebu o safon uchel yn y Gymraeg.

### *3.2 Y Grwpiau Ffocws: Y Cyfranogwyr*

Ar gyfer casglu data mwy ansoddol ei natur, cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda thiwtoriaid profiadol llawn amser, lle y trafodwyd rhai o ganlyniadau'r holiadur mewn manylder. Cynhaliwyd y grwpiau ffocws yng Nghaerdydd ym mis Medi 2013, ac ym Mhlas Tan-y-bwlch, Maentwrog, Gwynedd, ym mis Hydref 2013, a gwahoddwyd samplau dethol o diwtoriaid profiadol iddynt drwy ddilyn argymhellion cyfarwyddwyr y canolfannau CiO. Daeth pedwar tiwtor o ganolfannau Morgannwg a Chaerdydd i'r grŵp ffocws yng Nghaerdydd. Yng ngrŵp ffocws Maentwrog, cafwyd ynghyd chwe thiwtor, dau o ganolfan y canolbarth a phedwar o ganolfan y gogledd. Llwyddwyd, felly, i gasglu gwybodaeth ynghylch safbwyntiau tiwtoriaid a oedd o wahanol rannau o Gymru, ac a weithiai i wahanol ganolfannau.

Amcan pennaf y dadansoddiad ansoddol isod yw taflu goleuni pellach ar y dadansoddiadau meintiol, h.y. canlyniadau'r holiadur. Yn yr adran nesaf felly, cyfyngir yr ystod eang o bynciau a drafodwyd yn y grwpiau ffocws i themâu sydd hefyd yn berthnasol i'r data meintiol a gasglwyd.

## 4. Canlyniadau


Gosodwyd y rhan fwyaf o gwestiynau'r holiadur ar ffurf graddfa *Likert* bum pwynt (Likert 1932). Gofynnwyd i diwtoriaid ddewis pwynt ar y raddfa yn ôl eu barn (1 = anghytuno'n gryf; 2 = anghytuno; 3 = niwtral; 4 = cytuno; 5 = cytuno'n gryf). Yn yr isadrannau canlynol, cyflwynir yn y lle cyntaf yr ymatebion a gafwyd i gwestiynau'r holiadur, gan fynd ati wedyn ym mhob achos i dynnu ar dystiolaeth fwy ansoddol y grwpiau ffocws sydd fel rheol (ond nid yn ddieithriad) yn atgyfnerthu'r canlyniadau meintiol a gafwyd.

### *4.1 Anawsterau ynganu*

Ymddengys fod y tiwtoriaid a holwyd, ar y cyfan, yn cydnabod bod anawsterau ynganu yn gyffredin ymhlith dysgwyr y Gymraeg. Fel y gwelir yn Ffigur 1, mae'r tiwtoriaid, ar y cyfan, yn gytûn â'i gilydd fod rhai seiniau yn peri heriau i ddysgwyr, tra'u bod yn fwy rhanedig (ac efallai'n fwy ansicr) ynghylch yr elfennau eraill:[2]

- Mae 88.1% (52/59) yn cytuno (h.y. wedi dewis pedwar neu bump ar raddfa *Likert*) bod cynhyrchu rhai seiniau yn heriol i ddysgwyr (canolrif/modd = 4).
- Mae 62.7% (37/59) yn cytuno bod rhythmau a goslef y Gymraeg yn heriol i ddysgwyr (canolrif/modd = 4).
- Mae 54.2% (32/59) yn cytuno bod acen y Gymraeg yn heriol i ddysgwyr (canolrif/modd = 4).

[2] Er bod canran uwch o diwtoriaid yn cytuno bod seiniau'r Gymraeg yn heriol i ddysgwyr, noder nad yw hynny'n gyfystyr â dweud bod y rhan fwyaf o diwtoriaid o'r farn fod seiniau'r Gymraeg yn fwy heriol na'r elfennau ynganu eraill.




Ffigur 1: Canran y tiwtoriaid sy'n cytuno bod seiniau'r Gymraeg, ei rhythmau a'i goslef, a'i hacen yn heriol i ddysgwyr.

O holi tiwtoriaid ymhellach yn y grwpiau ffocws ynglŷn â'r gwahanol elfennau ynganu hyn, daeth yn amlwg nad oeddynt yn ystyried bod seiniau'r Gymraeg yn fwy heriol na'r elfennau ynganu eraill. Pwysleisiodd un tiwtor, er hynny, fod seiniau yn tueddu i gael llawer mwy o sylw na'r elfennau eraill yn y dosbarth. Daeth yn amlwg yn y grwpiau ffocws hefyd nad oedd consensws rhwng y tiwtoriaid o ran yr hyn a olygir ganddynt wrth 'acen'. Mynnai rhai mai cyfeirio at 'rythmau a goslef' yn unig a wnâi 'acen', ond mynegodd tiwtoriaid eraill eu barn fod defnydd o nodweddion ffonolegol neilltuol, e.e. defnydd o '-a' yn hytrach na seiniau orgraffyddol yn y sillaf olaf ddiacen mewn ffurfiau fel 'capal' a 'petha' yn y gogledd-orllewin (Thomas a Thomas 1989: tt. 40–2), hefyd yn rhan bwysig o acen. Sylwyd hefyd fod ambell diwtor yn gwahaniaethu rhwng 'ynganiad' ac 'acen', ac yn defnyddio'r term cyntaf i gyfeirio at seiniau a nodweddion ffonolegol siaradwyr, tra bônt yn defnyddio'r ail i olygu rhythmau a goslef.[3]

Yn ogystal â'r elfennau uchod, roedd hi'n amlwg fod consensws ymhlith y tiwtoriaid fod yr agweddau canlynol hefyd yn gyffredinol heriol:

- Mae 67.8% (40/59) o'r tiwtoriaid hefyd yn cytuno bod defnyddio nodweddion tafodieithol yn heriol i ddysgwyr (canolrif/modd = 4).

[3] Gellir nodi bod y duedd hon i beidio ag ystyried 'acen' fel rhan o 'ynganiad' yn mynd yn groes i farn ieithyddion diweddar fod acen, nid yn unig yn cynnwys rhythmau, goslef a'r pwyslais a roddir ar eiriau, ond hefyd elfennau segmentaidd, h.y. seiniau (gw., er enghraifft, Chambers a Trudgill 1998: t. 5).

- Mae 72.9% (43/59) yn cytuno bod siarad heb oedi yn heriol i ddysgwyr (canolrif = 4; modd = 5).
- Mae 74.6% (44/59) yn cytuno bod acen yr iaith gyntaf yn dylanwadu'n gryf ar acen Gymraeg dysgwyr (canolrif/modd = 4).

Daeth i'r amlwg hefyd nad yw'r rhan fwyaf o diwtoriaid CiO yn credu bod anawsterau ynganu o angenrheidrwydd yn lleihau gyda phrofiad:

- Mae'r tiwtoriaid yn tueddu i anghytuno â'r gosodiadau fod anawsterau ynganu'n diflannu cyn i ddysgwyr symud i'r cwrs Sylfaen (canolrif/modd = 2) neu rhwng y lefelau Sylfaen a Chanolradd (canolrif/modd = 2).
- 13.8% (8/58) yn unig sy'n cytuno bod anawsterau ynganu'n diflannu cyn y cwrs Sylfaen, tra bo 22.8% (13/57) yn credu bod anawsterau'n diflannu rhwng y lefelau Sylfaen a Chanolradd.
- Mae'r tiwtoriaid hefyd yn tueddu i anghytuno â'r gosodiad fod anawsterau ynganu'n diflannu cyn i ddysgwyr gyrraedd y lefel Uwch (modd = 2, canolrif = 3). 28.1% (16/57) sy'n tybio bod anawsterau'n diflannu cyn iddynt gyrraedd y lefel Uwch.
- Mae'r tiwtoriaid yn rhanedig yn eu hymateb i'r gosodiad fod anawsterau ynganu'n diflannu cyn i ddysgwyr gyrraedd lefel Hyfedredd (modd = 4; canolrif = 3). 47.3% (16/57) sy'n cytuno bod anawsterau'n diflannu cyn iddynt gyrraedd y lefel hon.

O safbwynt pwysigrwydd ynganu a goslefu i gyfathrebu'n effeithiol yn y gymuned (cymharer â Hughes 2003), mae'n amlwg fod y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid yn cytuno bod yr elfennau hyn yn allweddol:

- Mae 60.3% (35/58) yn cytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr rhugl fod yn heriol pan gaiff dysgwyr drafferth i ynganu rhai seiniau (canolrif/modd = 4).
- Mae 63.8% (37/58) yn cytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr rhugl fod yn heriol pan fo rhythmau a goslef dysgwyr yn peri trafferthion iddynt (canolrif/modd = 4).

Yn y grwpiau ffocws, roedd y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid a holwyd yn cytuno bod trafferthion i ynganu seiniau yn ogystal ag anawsterau â rhythmau a goslef yn effeithio ar allu dysgwyr i gyfathrebu'n effeithiol. Y farn gyffredin, felly, oedd bod modd i anawsterau ynganu beri problemau i ddysgwyr yn y gymuned. Tybiai rhai tiwtoriaid, er hynny, nad yw ynganu yn faes mwy problemus nag unrhyw agwedd arall ar ddysgu Cymraeg, ac mai gwell fyddai ganddynt ei ystyried fel 'maes pwysig i'w daclo' yn hytrach na phroblem enfawr.

### *4.2 Ynganu yn y dosbarth*

Cynhwysai'r holiadur hefyd gwestiynau ar ddysgu ynganu yn y dosbarth. Yn ôl y canlyniadau hyn, ymddengys fod dros hanner y tiwtoriaid o'r farn na roddir digon o sylw i'r elfen hon mewn gwersi CiO ac y byddai'r rhan fwyaf yn hyderus wrth roi sylw i ynganiad yn y dosbarth:

- Mae 57.6% (34/59; canolrif/modd = 4) yn credu bod angen neilltuo rhagor o amser ar gyfer dysgu ynganu yn y dosbarth.
- Mae 88.1% (52/59) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf nad ydynt yn ddigon hyderus i'w ddysgu.

O holi tiwtoriaid ymhellach yn y grwpiau ffocws, daeth i'r amlwg mai safbwynt nifer o diwtoriaid (o wahanol ganolfannau) yw bod y sylw a gaiff ynganu yn y maes yn annigonol, a bod dysgwyr yn wynebu anawsterau oherwydd hyn. Cyfeiriodd un tiwtor, er enghraifft, at duedd y cwrs Mynediad i roi sylw i ynganu yn yr uned gyntaf, gan anghofio'r wedd honno wedi hynny. Awgrymodd y tiwtor hwn mai 'plethu ymarferion ynganu drwy gydol y cwrs yn hytrach na'i gyfyngu i un uned' y dylid bod yn ei wneud, ond bod angen mwy o arweiniad ar diwtoriaid dibrofiad gyda hyn. Nododd sawl tiwtor arall fod angen cyplysu gwaith gwrando ag ymarferion ynganu yn rheolaidd, ond yn ôl un tiwtor, 'ryw deirgwaith y flwyddyn' yn unig y gwneir hyn. Dywedodd tiwtor arall mai amcan y sector ar hyn o bryd yw 'gwau yr elfen ynganu i mewn gyda'r eirfa', ond mai'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd yw bod tiwtoriaid yn methu mynd dros yr eirfa oherwydd prinder amser. Barnodd un tiwtor mai canlyniad y diffyg sylw a roddir i ynganu yw bod camynganiadau yn ffosileiddio yn iaith y dysgwyr.

Mae'n drawiadol fod canran dra uchel o'r tiwtoriaid a lanwodd yr holiadur yn anghytuno â'r gosodiad nad ydynt yn ddigon hyderus i ddysgu ynganu. Yn ddiddorol ddigon, cafwyd argraff wahanol iawn o'r sefyllfa yn y grwpiau ffocws wrth i diwtoriaid o ganolfannau gwahanol fynegi ansicrwydd ynghylch eu gallu i gynnig arweiniad effeithiol i ddysgwyr o safbwynt eu hynganiad. Cyfaddefodd un tiwtor tra phrofiadol, er enghraifft, nad oedd yn 'deall sut i helpu pobl [i wella eu hynganiad]', a bod hynny'n 'wendid enfawr' yn ei gallu fel tiwtor yn ei barn hi (er nad yw'n credu ei bod yn wahanol i diwtoriaid eraill yn y maes). Priodol yw dyfynnu un o'i phryderon:

> Dw-i ddim yn deall y geg, dw-i'n gallu dweud y sain, ond dw-i'n ei ffindio hi'n anodd iawn i ddadansoddi beth sy'n digwydd yn 'y ngheg i a throsglwyddo hynny i bobl eraill. Does dim canllawiau [yn cael eu cynnig].

Rhydd yr unigolyn hwn, felly, yr argraff nad yw pob tiwtor yn hyderus wrth ddysgu ynganu mewn modd arbenigol, a bod prinder canllawiau yn ddiffyg yn y maes. Fodd bynnag, nododd tiwtor arall ei fod yn deall y geg yn dda yn sgil ei brofiad yn astudio Ieithyddiaeth, ond na

wyddai sut i drosglwyddo'r wybodaeth seinegol a oedd ganddo yn ymarferol yn y dosbarth. Mae'n amlwg, felly, nad yw hyfforddiant seinegol yn ddigon ynddo'i hun i ddysgu ynganu'n llwyddiannus.

Nododd un tiwtor profiadol mai dwywaith mewn ugain mlynedd y derbyniodd hyfforddiant ym maes ynganu, ac yr hoffai gael rhagor. Gellir cyfeirio hefyd at safbwynt tiwtor arall a gafodd ei hyfforddi yn wreiddiol i beidio ag ymyrryd yn ormodol â chamynganu, ond yn hytrach i ailadrodd ffurf wallus â'r ynganiad cywir. Mae'r tiwtor hwn bellach yn amau effeithiolrwydd y dull hwn, ac yn barnu nad yw'n gweithio gyda dysgwyr nad ydynt 'yn clywed eu camgymeriadau eu hunain'. Gellir casglu, felly, fod cryn ansicrwydd ymhlith tiwtoriaid o ran y modd mwyaf effeithiol o ddysgu ynganu. Er bod y canfyddiad hwn yn groes i un o ganlyniadau'r holiadur, ymddengys fod grwpiau ffocws yn ddull mwy effeithiol o gymell tiwtoriaid i fanylu ar eu pryderon tra'u bod yn llai tebygol o gydnabod diffyg hyder wrth ymateb i osodiad mewn holiadur.

Gan fod drilio yn ddull a ddefnyddir yn dra chyffredin yn y sector CiO (Hughes 2003: t. 16), gofynnwyd yn yr holiadur i diwtoriaid werthuso effeithiolrwydd y dechneg hon o wella ynganiad dysgwyr. Ar y cyfan, maent yn gefnogol o ddrilio fel dull o ddysgu ynganu:

- Mae 84.7% (50/59) yn credu bod drilio'n addas ar gyfer gwella ynganiad dysgwyr o seiniau unigol (canolrif/modd= 5).
- Mae 79.7% (47/59) yn cytuno bod drilio'n addas ar gyfer gwella rhythmau a goslef dysgwyr (canolrif = 4; modd = 5) tra bo 71.2% (42/59) yn credu bod y dechneg hon yn addas ar gyfer gwella acen dysgwyr (canolrif = 4; modd = 5).

Ategwyd yr agweddau cadarnhaol hyn tuag at ddrilio yn y grwpiau ffocws hefyd. O gwestiynu'r tiwtoriaid ynghylch y perygl mai dysgu rhythmau annaturiol ac artiffisial i ddysgwyr y mae drilio, dadleuodd sawl tiwtor nad yw 'drilio effeithiol' yn arwain at hynny. Cyfeiriodd rhai tiwtoriaid, er enghraifft, at 'ddrilio cudd', lle y'i gwneir drwy gyfrwng tasg, ac at ddrilio ar ffurf deialog, lle yr honnir bod yr oslef 'yn codi yn naturiol'. Er hyn, awgrymodd ambell diwtor nad oedd drilio yn ddelfrydol ar gyfer pob dysgwr, gan nodi bod y rhai sy'n cael trafferthion i ynganu yn tueddu i gadw'n dawel, neu i beidio â gorffen brawddegau. Mynegodd tiwtor arall ei barn y byddai adnoddau ar-lein yn fwy effeithiol na 'drilio corws' gan mai gwaith unigol sy'n aml yn arwain at wella ynganiad.[4]

Mae'n amlwg hefyd fod y rhan fwyaf o diwtoriaid yn anghytuno nad oes raid treulio gormod o amser ar ynganu yn y dosbarth. Gellir dehongli oddi wrth y canlyniadau isod mai'r farn gyffredinol ymhlith tiwtoriaid yw bod modd i wersi ar ynganu fod yn fanteisiol

[4] Y math o dechnoleg yr oedd gan y tiwtor hwn dan sylw oedd 'Streaming Speech'; meddalwedd gyfrifiadurol lle y disgwylir i ddysgwyr ddewis model, a'i (h)efelychu yn llefaru (gw. Chun 2005). Ar gyfer pob sain, rhoddir marc (canran) yn dangos pa mor agos at y targed (h.y. ynganiad y model) y mae'r dysgwr. Am fanylion ynghylch meddalwedd debyg, gw. <https://www.rosettastone.com/speech-recognition> [Cyrchwyd: 7 Gorffennaf 2017].

i ddysgwyr, nid yn unig er mwyn iddynt ddod yn fwyfwy dealladwy, ond hefyd ar gyfer lleihau'r ymyrraeth sy'n tarddu o'u hiaith gyntaf:

- Mae 67.8% (40/59) yn anghytuno â'r gosodiad nad oes raid treulio gormod o amser ar ynganu yn y dosbarth gan mai deall y dysgwr sy'n bwysig yn y pen draw (canolrif/modd = 2).
- Mae 66.1% (39/59) yn anghytuno â'r gosodiad nad oes raid treulio gormod o amser ar ynganu yn y dosbarth gan na fydd dylanwad yr iaith gyntaf byth yn diflannu fel rheol (modd = 1; canolrif = 2).

Cadarnhawyd yr awgrymiadau hyn ymhellach yn y grwpiau ffocws. Nododd un tiwtor, er enghraifft, ei chred fod ynganiad rhai dysgwyr yn gwella gydag amser, ond bod cynnydd dysgwyr yn amrywio'n fawr, ac yn ddibynnol i raddau ar eu gallu naturiol i ddynwared.

### *4.3 Cyfathrebu yn y gymuned*

Gofynnwyd i'r tiwtoriaid a lanwodd yr holiadur ystyried profiadau dysgwyr CiO yn y gymuned. Yn gyffredinol, roedd y tiwtoriaid o'r farn nad oedd digon o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a theimlent y dylai dysgwyr gael mwy o gyfleoedd i dreulio amser gyda siaradwyr rhugl:

- Mae 71.2% (42/59) yn teimlo nad oes gan ddysgwyr ddigon o gyfleoedd i siarad yr iaith y tu allan i'r dosbarth (canolrif/modd = 4).
- Mewn modd tebyg, mae 86.4% (51/59) yn cytuno y dylai dysgwyr gael mwy o gyfleoedd i dreulio amser gyda siaradwyr brodorol yn y gymuned (canolrif/modd = 5).

Pwysleisiwyd y diffyg cyfleoedd hyn hefyd gan sawl tiwtor yn y grwpiau ffocws, yn enwedig gan rai sy'n gweithio yn y de-ddwyrain. Yr argraff a gâi un tiwtor profiadol oedd bod cymdeithasau Cymraeg y de-ddwyrain, sy'n denu nifer o 'bobl broffesiynol, ddosbarth canol', yn tueddu i drafod pynciau sy'n estron i ddysgwyr, e.e. cofiannau Cymraeg a chyfansoddiadau'r Eisteddfod, a bod dysgwyr o ganlyniad yn gadael y cymdeithasau hyn wedi un neu ddau ymweliad â hwy. Awgryma hyn, felly, nad diffyg dealltwriaeth o'r iaith yw'r unig broblem bosibl, ond bod modd i arferion a thraddodiadau diwylliannol sy'n anghyfarwydd i ddysgwyr eu troi yn erbyn rhai cymdeithasau Cymraeg. Nododd y tiwtor hwn hefyd y gwyddai am ddysgwyr ifainc a oedd yn awyddus i ymarfer eu Cymraeg, ond mai cymdeithasau o bensiynwyr oedd yr unig rai Cymraeg yn eu hardaloedd, ac nad oedd y rhain felly yn apelio atynt. Cynigiodd un tiwtor mai un ateb rhannol fyddai cynnal cyrsiau preswyl a fyddai'n dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr ynghyd yn rheolaidd.

Pwysleisia nifer o astudiaethau blaenorol fod tueddiad cryf i siaradwyr brodorol y Gymraeg droi i'r Saesneg wrth gyfathrebu â dysgwyr (e.e. Trosset 1986, Hughes 2003,

Pritchard Newcombe 2007). Cadarnhaodd ymatebion yr holiadur fod y tiwtoriaid o'r farn fod y broblem hon yn parhau'n gyffredin ond awgrymwyd hefyd mai problem arall yw bod y dysgwyr eu hunain yn troi i'r Saesneg:

- Mae 83.1% (49/59) yn credu bod siaradwyr iaith gyntaf sy'n troi i'r Saesneg yn broblem fawr (canolrif/modd = 5). 55.9% (33/59) sy'n 'cytuno'n gryf' â'r gosodiad hwn.
- Mae 69.5% (41/59) yn credu bod dysgwyr sy'n troi i'r Saesneg wrth siarad â siaradwyr iaith gyntaf yn broblem fawr (canolrif/modd = 4). 30.5% (18/59) sy'n 'cytuno'n gryf' â'r gosodiad hwn.


Pwynt arall a wnaed gan un tiwtor yn un o'r grwpiau ffocws oedd bod, yn ei thyb hi, 'gynifer o siaradwyr Cymraeg o hyd' nad ydynt yn adnabod yr un dysgwr. Awgryma hyn, felly, nad yw nifer o siaradwyr brodorol wedi arfer siarad â dysgwyr, ac y gallant fod yn ansicr o'r hyn y dylent ei wneud mewn sefyllfa o'r math hwn. Teimlad tiwtor arall oedd bod siaradwyr Cymraeg yn y de-ddwyrain yn fwy goddefgar o ddysgwyr nag mewn rhannau eraill o Gymru gan eu bod 'yn fwy ymwybodol o argyfwng y Gymraeg'.

Cynhwysai'r holiadur hefyd nifer o osodiadau a geisiai sefydlu beth, ym marn y tiwtoriaid, yw'r prif resymau dros anawsterau cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr brodorol:

- Mae 63.8% (37/58) yn cytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwyr yn siarad yn araf (canolrif/modd = 4).
- Mae 89.7% (52/58) yn cytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd pobl yn methu deall y dysgwyr (canolrif/modd = 4).
- Mae 89.7% (52/58) yn credu bod nerfusrwydd dysgwyr wrth sgwrsio â siaradwyr iaith gyntaf yn broblem fawr (canolrif/modd = 4).
- Mae canran is o diwtoriaid, sef 43.9% (25/57), yn cytuno â'r gosodiad fod acen dysgwyr yn ei gwneud yn anodd iddynt gael eu derbyn gan siaradwyr iaith gyntaf (canolrif/modd = 3).
- Mae 39.7% (23/58) yn cytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dylanwad Saesneg amlwg ar acen y dysgwyr (modd = 2; canolrif = 3).
- Mae 59.6% (34/57) yn credu y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwyr yn siarad yn wahanol i'r siaradwyr iaith gyntaf (canolrif/modd = 4).
- Mae 54.4% (31/57) yn anghytuno y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol pan fydd dysgwyr yn ceisio siarad fel siaradwyr Cymraeg brodorol (canolrif/modd = 2). Mae 19.3% (11/57) yn cytuno â hyn.

- Yn yr un modd, 37.3% (22/59) sy'n cytuno â'r honiad fod dysgwyr yn teimlo'n anghyfforddus wrth ddynwared acen siaradwyr Cymraeg brodorol (modd = 2; canolrif = 3).
- Mae 55.2% (32/58) yn cytuno bod siaradwyr iaith gyntaf sy'n rhy ddiamynedd i siarad â dysgwyr yn broblem fawr (canolrif/modd = 4).
- Ceir cymysgedd o atebion ar gyfer yr honiad mai problem fawr yw bod siaradwyr iaith gyntaf yn defnyddio gormod o ffurfiau tafodieithol. Mae 48.3% (28/58) yn cytuno â'r gosodiad, tra bo 32.8% (19/58) yn niwtral.

Crynhoir rhai o'r canlyniadau uchod yn Ffigur 2, a gwelir cryn amrywiaeth o sgorau o safbwynt cytundeb y tiwtoriaid â'r gwahanol osodiadau sy'n ceisio rhoi cyfrif am broblemau cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr brodorol:




Ffigur 2: Canrannau'r tiwtoriaid a gytunodd y gall cyfathrebu rhwng dysgwyr a siaradwyr iaith gyntaf fod yn heriol oherwydd y rhesymau a nodir.

Gellir awgrymu yma, felly, fod tiwtoriaid yn ystyried bod mwy i gyfathrebu effeithiol na gallu i siarad yn ddealladwy (*intelligibility*), ond bod cyflymder llafar y dysgwyr (h.y. eu rhuglder; *fluency*), yn ogystal â'u gallu i swnio'n debyg i siaradwyr brodorol (h.y. *a native-like pronunciation*), hefyd yn hollbwysig ar gyfer cyfathrebu'n effeithiol yn y gymuned. Mae'n debygol, felly, fod rhai tiwtoriaid CiO yn disgwyl mwy na'r hyn a argymhellir gan rai arbenigwyr ym maes dysgu ail iaith oherwydd eu pwyslais ar efelychu patrymau ynganu siaradwyr iaith gyntaf. Cymerer, er enghraifft, yr argymhelliad hwn o eiddo Munro a Derwing (1999: t. 305):

> [...] instruction should not focus on global accent reduction, but only on those aspects of the learner's speech that appear to interfere with listeners' understanding.

Dehongliad posibl arall, fodd bynnag, yw bod tiwtoriaid o'r farn fod anoddefgarwch tuag at Gymraeg dysgwyr yn gyffredin ymhlith siaradwyr brodorol, hyd yn oed pan fo'u Cymraeg yn ddealladwy.[5]

Teflir goleuni pellach ar y canfyddiadau hyn gan rai sylwadau a wnaed yn y grwpiau ffocws. Yn ôl un tiwtor, mae 'siaradwyr Cymraeg cyffredin' yn fwy tebygol o siarad â dysgwyr sy'n swnio'n debycach iddynt hwy. Nododd tiwtor arall ei bod yn bwysig i ddysgwyr 'fagu acen Gymreig', gan ychwanegu bod siaradwyr brodorol yn ymateb yn gadarnhaol i hynny. Yn ôl tiwtor arall, mae trwytho'r dysgwyr yn nodweddion ffonolegol eu hardaloedd, e.e. defnyddio '-a' yn hytrach na seiniau orgraffyddol yn y sillaf olaf ddiacen mewn ffurfiau fel 'capal' a 'petha' yn y gogledd-orllewin (Thomas a Thomas 1989: tt. 40–2), yn bwysig er mwyn iddynt gael eu derbyn gan siaradwyr Cymraeg brodorol.

Awgryma hyn oll, felly, fod sawl tiwtor o'r farn fod a wnelo ynganiad llwyddiannus â mwy na 'gallu i siarad yn ddealladwy', ond eu bod hefyd yn disgwyl i ddysgwyr ddatblygu acen Gymreig a fydd yn debyg i eiddo siaradwyr brodorol. Yn wir, yn ôl un tiwtor, nid yw'n 'afresymol disgwyl i ddysgwyr swnio fel Cymry Cymraeg'. Dylid pwysleisio, fodd bynnag, nad oedd pob tiwtor a holwyd yn rhannu'r un safbwynt. Barnodd un tiwtor, er enghraifft, fod 'acen' yn ymwneud â hunaniaeth unigolyn, a'i bod o'r herwydd yn ansicr a ddylai dysgwyr orfod '[c]olli eu hunaniaeth drwy ymdebygu i Gymry Cymraeg'. Er hynny, pwysleisiodd yr un tiwtor nad yw'n hawdd i ddysgwyr nad ydynt yn ynganu'n effeithiol 'gael eu derbyn' neu 'ffitio i mewn' i gymuned o siaradwyr Cymraeg. Gellir dod i gasgliad, felly, fod safbwyntiau tiwtoriaid yn amrywio o ran yr hyn a ddisgwyliant oddi wrth ddysgwyr, ond ei bod yn gred gyffredin yn y sector, er hynny, fod Cymry Cymraeg yn fwy tebygol o dderbyn dysgwyr sydd ag 'acen Gymreig'.

### *4.4 Gwahaniaethau rhwng dysgwyr o Gymru a dysgwyr o wledydd eraill*


Ceir consensws eithaf clir ymhlith y tiwtoriaid a lanwodd yr holiadur fod ynganu'n llai heriol i ddysgwyr o Gymru nag ydyw i ddysgwyr o wledydd eraill Prydain neu i rai o dramor:

- Mae 33.9% (20/59) yn cytuno â'r gosodiad fod ynganu ar y cyfan yn heriol i ddysgwyr o Gymru (canolrif = 3; modd = 2 a 4).
- Ar gyfer y gosodiad fod ynganu ar y cyfan yn heriol i ddysgwyr o wledydd eraill Prydain, mae canran sylweddol uwch o diwtoriaid yn cytuno ag ef, sef 83.1% (49/59) ohonynt (canolrif/modd = 4).

[5] Diau y byddai hyn yn gyson â chred dros hanner y tiwtoriaid fod diffyg amynedd Cymry Cymraeg i siarad â dysgwyr yn broblem fawr.

- Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid hefyd yn cytuno bod ynganu'n heriol i ddysgwyr o dramor, er bod y ganran yn is ar gyfer y gosodiad hwn na'r un blaenorol (67.8%; 40/59; canolrif/modd = 4).

Crynhoir y canlyniadau uchod yn Ffigur 3:




Ffigur 3: Canrannau'r tiwtoriaid a gytunodd fod modd i ynganiad y Gymraeg fod yn heriol i ddysgwyr o'r mannau a nodir.

Gall rhesymau dros hynny fod yn gymdeithasol ac/neu'n ieithyddol, h.y. bod gan rai Cymry system ffonolegol Saesneg sydd wedi ei dylanwadu gan system Gymraeg (gw. Flege 1987). Dywedodd rhai o aelodau'r grwpiau ffocws fod gan ddysgwyr o Gymru wybodaeth o seiniau Cymraeg nad ydynt yn rhan o'u Saesneg (e.e. [χ] <ch> a [ɬ] <ll>). Yr awgrym, felly, yw bod dysgwyr o Gymru yn caffael seiniau Cymraeg nad ydynt yn bodoli yn eu Saesneg trwy'r gymdeithas (e.e. trwy enwau lleoedd neu yn yr ysgol), a bod hyn yn fanteisiol wrth iddynt ddysgu'r Gymraeg fel oedolion. Nid yw'n glir, fodd bynnag, a ddigwydd hyn drwy Gymru gyfan (cf. Coupland 1985).

Amlyga'r data mai *ffactorau ieithyddol* sydd i raddau yn hwyluso ynganu i ddysgwyr o Gymru. Gellir disgrifio hyn fel trosglwyddo positif (*positive transfer*, gw. Odlin 1989: t. 36) lle y mae dysgwyr o Gymru'n trosglwyddo eu gallu i gynhyrchu seiniau o'u tafodiaith Saesneg i'r Gymraeg. Gall hyn ddigwydd oherwydd tebygrwydd rhwng sawl tafodiaith Saesneg yng Nghymru a thafodieithoedd Cymraeg o ganlyniad i gysylltiad rhwng y ddwy iaith (gw., er enghraifft, Walters 2001). Fel y dywed Wells (1982: t. 377):

> the main influence on the pronunciation of English in Wales is the substratum presented by the phonological system of Welsh.

Tebygrwydd rhwng seiniau tafodieithoedd Saesneg Cymru a rhai'r Gymraeg (llafariaid yn benodol) oedd y prif reswm a nodwyd hefyd yn y grwpiau ffocws.

Er bod gan nifer helaeth o ddysgwyr o Gymru system Saesneg sy'n ymdebygu i'r un Gymraeg, pwysleisiwyd bod trosglwyddo negyddol (*negative transfer*, gw. Odlin 1989: t. 36) yn gallu achosi anawsterau i bob dysgwr. Ymhlith anawsterau ynganu sy'n codi oherwydd dylanwad y Saesneg, nodwyd yn y grwpiau ffocws fod cynhyrchu llafariaid syml fel deuseiniaid, e.e. [nɔvjəu] yn hytrach na [nɔvjɔ] 'nofio', peidio ag ynganu [r] <r> ar ôl llafariaid, e.e. [ka:] ar gyfer 'car', a defnyddio /r/ ymwthiol, e.e. yn 'Mae hwnna-r-yn ddiddorol', i gyd yn achosion cyffredin. Yn ogystal, dylid dwyn i gof fod tafodieithoedd Saesneg Lloegr yn amrywio, gan ystyried bod rhai tafodieithoedd Saesneg yn Lloegr yn debycach i rai Cymraeg nag y mae rhai eraill (e.e. mewn ardaloedd o ogledd Lloegr lle y ceir llafariaid syml yn hytrach na deuseiniaid).

Mae'n amlwg, felly, y bydd cefndir ieithyddol dysgwyr yn amrywio'n sylweddol, a phwysleisia hyn yr angen i ystyried anghenion dysgwyr unigol. Yn ogystal â hynny, nododd nifer o aelodau'r grwpiau ffocws fod lleoliad y dosbarth hefyd yn hollbwysig gan fod tuedd i Gymry fynychu dosbarthiadau mewn ardaloedd lle nad yw'r rhan fwyaf o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg (e.e. yn y gogledd-ddwyrain), tra bo mwy o ddysgwyr nad ydynt yn dod o Gymru yn nosbarthiadau rhannau eraill o Gymru (e.e. yn y gogledd-orllewin).

Nid yw'r rhesymau dros y gwahaniaeth hwn rhwng dysgwyr o Gymru a dysgwyr o Loegr yn hollol *gymdeithasol* yn ôl y data. Hynny yw, nid oedd y rhan fwyaf o'r tiwtoriaid a lanwodd yr holiadur yn cytuno bod dysgwyr o Gymru yn fwy tebygol o ymdoddi i gymunedau Cymraeg:

- Mae 26.3% (15/57) o'r tiwtoriaid yn barnu bod dysgwyr o Gymru yn well am integreiddio/ymdoddi i gymunedau Cymraeg nag ydyw dysgwyr o Loegr (canolrif/modd = 3).

Awgryma hyn, felly, nad yw'r tebygrwydd *ieithyddol* a all fod rhwng y Cymry Cymraeg a'r rhai di-Gymraeg o angenrheidrwydd yn gyfystyr â chymathiad ieithyddol/diwylliannol llwyddiannus.

## *4.5 Nodweddion ynganu sy'n achosi problemau*

Gofynnwyd i'r tiwtoriaid a lanwodd yr holiadur ystyried i ba raddau y mae gwahanol seiniau/nodweddion ffonolegol, e.e. [χ] <ch> a [ɬ] <ll>, yn heriol i ddysgwyr y Gymraeg. Yn achos pob nodwedd, yr oedd pedwar ateb posibl, ac un yn unig y gellid ei ddewis bob tro. Yr atebion posibl oedd:

- Heriol iawn i ddysgwyr sy'n dechrau;
- Heriol iawn i ddysgwyr pob lefel;
- Heriol i rai dysgwyr;
- Nid yw'n heriol.

Dangosir y canlyniadau yn y tabl isod:

| **NODWEDD** | **Canrannau’r tiwtoriaid a gytunodd** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **‘Heriol iawn i ddysgwyr sy’n dechrau’** | **‘Heriol iawn i ddysgwyr pob lefel’** | **‘Heriol i rai dysgwyr’** | **‘Nid yw’n heriol i ddysgwyr’** |
| Caffael [ɬ] <ll> | 28.8% (17/59) | 0% (0/59) | 69.5% (41/59) | 1.7% (1/59) |
| Caffael [χ] <ch> | 23.7% (14/59) | 1.7% (1/59) | 67.8% (40/59) | 6.8% (4/59) |
| Caffael [r̥] <rh> | 28.8% (17/59) | 8.5% (5/59) | 52.5% (31/59) | 10.2% (6/59) |
| Rolio [r] <r> | 13.6% (8/59) | 11.9% (7/59) | 72.9% (43/59) | 1.7% (1/59) |
| Ynganu [r] <r> ar ôl llafariaid, e.e. [kar] ‘car’ a [partnɛr] ‘partner’ | 10.2% (6/59) | 10.2% (6/59) | 71.2% (42/59) | 8.5% (5/59) |
| Ynganu [a] <a>, e.e. [da:] ‘da’ (yn wahanol i [dɑ:] *dah* Seisnigaidd) | 1.7% (1/59) | 5.1% (3/59) | 66.1% (39/59) | 27.1% (16/59) |
| Ynganu [o]/[ɔ] <o> yn y sillaf olaf e.e. [nɔvjɔ] ‘nofio’ (nid fel [nɔvjəu] ‘nofiow’) | 10.2% (6/59) | 5.1% (3/59) | 76.3% (45/59) | 8.5% (5/59) |
| Ynganu [ɨu]/[iu] <yw>, e.e. [bɨu] ‘byw’ (nid fel [bju:] *be-oo*) | 23.7% (14/59) | 15.3% (9/59) | 52.5% (31/59) | 8.5% (5/59) |
| Ynganu [ou] <ow>, e.e. [broun] ‘brown’ (yn wahanol i ynganiad Saesneg y gair hwn) | 8.5% (5/59) | 15.3% (9/59) | 69.5% (41/59) | 6.8% (4/59) |
| Ynganu <eu>, <ae> neu <ei> fel [eɨ]/[ei] yn y goben acennog (yn hytrach nag fel [ai] <ai>), e.e. [eiljad] ‘eiliad’ yn lle [ailjad] ‘ailiad’ | 15.3% (9/59) | 23.7% (14/59) | 57.6% (34/59) | 3.4% (2/59) |
| Pwysleisio’r sillaf anghywir, e.e. ‘CÁN-ol-fan’ yn lle ‘can-ÓL-fan’ | 13.6% (8/59) | 5.1% (3/59) | 67.8% (40/59) | 13.6% (8/59) |

Tabl 3: Nodweddion ynganu penodol sy’n achosi anawsterau.

Dangosir yn eglur yn y tabl uchod mai'r ateb mwyaf cyffredin o bell ffordd ar gyfer pob nodwedd oedd '*heriol i rai dysgwyr*' (rhwng 76.3% a 52.5%). O ran yr ateb '*heriol i ddysgwyr pob lefel*', y tair nodwedd â'r canrannau uchaf yw ynganu <eu>/<ae>/<ei> fel [eɨ]/[ei] yn y goben acennog (23.7%), ynganu [ɨu]/[iu] <yw>, ac ynganu [ou] <ow> (15.3% ar gyfer y ddwy nodwedd ddiwethaf). Cadarnha'r canlyniadau hyn y gall gwahanol seiniau achosi anawsterau i wahanol ddysgwyr ar unrhyw lefel (cf. 4.1 uchod). Yn un o'r grwpiau ffocws, mynegodd un tiwtor ei barn fod cynnydd yng ngallu dysgwyr i ynganu'n effeithiol yn ddibynnol iawn ar eu hymwneud â Chymry Cymraeg y tu allan i'r dosbarth, ac mai man cychwyn yn unig yw'r dosbarth. Awgrymir, felly, y gall ffactorau cymdeithasol, e.e. cymhelliant ac oedran, effeithio ar allu dysgwyr Cymraeg i gaffael seiniau, a chefnoga'r canfyddiad hwn waith blaenorol ym maes caffael ail iaith (gw. Piske et al. 2001 am fraslun). Cam nesaf posibl fydd edrych ar leferydd y dysgwyr er mwyn ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio ar eu hynganiad o wahanol nodweddion.

Yn y grwpiau ffocws, codwyd y mater o ffosileiddio (Coskun 2011: t. 64) lle y mae anawsterau ynganu'n aros gyda'r dysgwr. Yn wir, soniodd tiwtoriaid yn y ddau grŵp ffocws am ddysgwyr ar lefelau uwch a barhâi i ynganu'n aneglur gan fod eu camynganiadau wedi ffosileiddio yn eu hiaith. Cafwyd consensws ymhlith y tiwtoriaid fod angen trafod anawsterau gyda dysgwyr o bob lefel yn hytrach na derbyn elfennau sydd wedi eu ffosileiddio. Fodd bynnag, awgryma'r canlyniadau fod anawsterau gyda rhai seiniau yn diflannu gyda phrofiad. Er bod canrannau'r tiwtoriaid sy'n dewis '*heriol iawn i ddysgwyr sy'n dechrau*' yn gyffredinol isel, gwelir yn y tabl mai'r nodweddion sydd â'r sgorau uchaf (h.y. dros 20%) o safbwynt yr ateb hwn yw caffael [ɬ] <ll>, caffael [r̥] <rh>, caffael [χ] <ch>, ac ynganu'r ddeusain [ɨu]/[iu] <yw>.

Mae canrannau'r tiwtoriaid sy'n dewis yr ateb '*nid yw'n heriol*' ar y cyfan yn drawiadol isel. Eithriad, fodd bynnag, yw ynganu [a:] <a> (heb ddefnyddio'r llafariad ôl Saesneg [ɑ:]) gan fod 27.1% o'r farn nad yw'r sain hon yn heriol i ddysgwyr. Yn ogystal â'r seiniau uchod, nodwyd gan rai tiwtoriaid, yn atebion rhydd yr holiadur yn ogystal ag yn y grwpiau ffocws, y gall ynganu'r canlynol achosi anawsterau:

- Geiriau sy'n debyg i eiriau Saesneg, e.e. 'achos', 'car' a 'radio';
- Y gwyriad a geir yn y goben acennog, h.y. cyfnewid llafarog o [ɨ]/[i] i [ə], pan ychwanegir sillaf at air er mwyn creu ffurf luosog, e.e. [mənɨð]/[mənið] 'mynydd' > [mənəðɔɨð]/[mənəðɔið] 'mynyddoedd' (yn hytrach na [mənɨðɔɨð]/[məniðɔið]);
- Y ddeusain ddeheuol [ʊi] 'wy' a yngenir fel [ɔi] gan rai dysgwyr, e.e. [pɔi ɔit ti:] ar gyfer 'pwy wyt ti?';
- Y sain [ŋ] <ng> (yn hytrach na [ŋg]) mewn geiriau fel [əŋanɨ]/[əŋani] 'ynganu' a [kəŋɔr] 'cyngor';
- Y seiniau [m̥] <mh>, [n̥] <nh>, [ŋ] <ng> a [ŋ̊] <ngh> a sbardunir gan dreiglad trwynol.

Gellir grwpio'r seiniau sy'n achosi anawsterau fel:

- Cytseiniaid nad ydynt yn bodoli yn Saesneg rhai dysgwyr, e.e. [χ] <ch> a [ɬ] <ll>;
- Rheolau ffonolegol nad ydynt yn Saesneg rhai dysgwyr, e.e. ynganu [r] <r> ar ôl llafariaid, a phwyslais cyson ar y goben acennog;
- Llafariaid syml a yngenir fel deuseiniaid yn Saesneg rhai dysgwyr;
- Deuseiniaid nad ydynt yn bodoli yn Saesneg;
- Amwysedd yn yr orgraff Gymraeg, e.e. y modd y gellir sylweddoli <y> â'r seiniau [ɨ]/[i] neu [ə] yn ddibynnol ar y cyd-destun.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

I gloi, tynnir ynghyd rai o'r canfyddiadau pwysicaf sy'n deillio o'r astudiaeth gychwynnol hon. Ceisir, felly, ddarlunio'r sefyllfa fel ag y mae ar hyn o bryd yn ôl y dystiolaeth a ddarparwyd gan diwtoriaid CiO, yn ogystal â chynnig argymhellion i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd o ran y modd y gall ddatblygu ei darpariaeth ym maes ynganu.

### *5.1 Dysgu ynganu yn y sector*

Dangosir yn eglur gan y canlyniadau mai un o ganfyddiadau'r tiwtoriaid yw bod ynganu rhai seiniau yn heriol i ddysgwyr (gw. 4.1 uchod). Yn ogystal â hynny, darganfuwyd bod tiwtoriaid o'r farn fod rhythmau a goslef y Gymraeg hefyd yn achosi anawsterau i ddysgwyr. Rhoddodd y grwpiau ffocws gyfle i'r tiwtoriaid fanylu ar gwricwlwm a hyfforddiant CiO yn fanylach. Daeth yn amlwg yn ystod y trafodaethau hyn fod mwy o bwyslais ar gynhyrchu seiniau nag ar ymarfer rhythmau a goslef.

**ARGYMHELLIAD 1**

Dylai'r maes roi sylw priodol i rythmau a goslef yn ogystal ag i seiniau'r Gymraeg fel elfennau hollbwysig o gaffael acen y Gymraeg. Dylai unrhyw adnoddau a ddatblygir ar gyfer gwella ynganiad dysgwyr ystyried y ddwy elfen hyn (gw. adran 5.3 isod ynghylch adnoddau posibl).

Amlygwyd yn y grwpiau ffocws hefyd nad oedd cytundeb rhwng gwahanol diwtoriaid o ran ystyr termau megis 'acen', 'aceniad', 'ynganiad' a 'rhythmau a goslef'.

**ARGYMHELLIAD 2**

Mae angen i ddefnydd y sector o'r termau uchod fod yn gyson o ran eu hystyron. Bydd y cysondeb hwn yn hanfodol ar gyfer gwireddu unrhyw strategaeth genedlaethol ym maes ynganu.

Datganodd 57.6% o'r tiwtoriaid a atebodd yr holiadur fod angen treulio rhagor o amser ar gyfer dysgu ynganu yn y dosbarth, er eu bod eisoes yn neilltuo amser penodol ar gyfer dysgu uned ynganu ar ddechrau'r cwrs Mynediad. Noda'r rhan fwyaf o diwtoriaid (88.1%) eu bod yn hyderus wrth ddysgu ynganu. Fodd bynnag, awgrymwyd yn y grwpiau ffocws y dylid ystyried creu mwy o ymarferion ynganu, sicrhau bod ymarferion i'w cael ar gyfer pob lefel, yn ogystal â darparu mwy o hyfforddiant cymhwysol i diwtoriaid ym meysydd seineg a ffonoleg (gw. adran 5.2 isod ynghylch hyfforddiant i diwtoriaid).

**ARGYMHELLIAD 3**

Awgrymwn fod y sector yn gosod amcanion penodol o safbwynt caffael acen drwy gydol y cyrsiau ac yn darparu mwy o ymarferion sy'n addas i **bob** lefel. Argymhellwn hefyd i gynllunwyr y cyrsiau ymgorffori gweithgareddau ynganu yn gyson o fewn y cyrsiau yn hytrach na'u cyfyngu i unedau dechreuol. Dylid ystyried cyplysu ymarferion ynganu â thasgau gwrando (yn y dosbarth ac ar-lein).

Daeth i'r amlwg hefyd fod rhai nodweddion ynganu yn peri anawsterau i rai dysgwyr trwy gydol eu taith ddysgu ac y gall ffactorau megis ymyrraeth yr iaith gyntaf ddylanwadu ar eu hynganiadau Cymraeg. Cefnoga'r canlyniad hwn waith ymchwil blaenorol ym maes caffael ail iaith (gw. Piske et al. 2001).

**ARGYMHELLIAD 4**

Cynigiwn y dylai'r sector godi ymwybyddiaeth tiwtoriaid o'r modd y gall anawsterau ynganu fod yn tarddu o iaith gyntaf y dysgwr, h.y. o wahanol dafodieithoedd Saesneg. Awgrymwn fod yr agwedd hon ar hyfforddiant y tiwtoriaid yn dod yn rhan o'r cynllun hyfforddi i ddarpar diwtoriaid. Fel rhan o'r ddarpariaeth hon hefyd, dylid cynnig mwy o ganllawiau i diwtoriaid fel bod modd iddynt wneud dysgwyr yn ymwybodol (mewn modd sensitif) o'u hanawsterau ynganu, ac o bwysigrwydd goresgyn y problemau hynny.

## *5.2 Datblygu hyfforddiant i diwtoriaid*

Un gwendid yn y sector a amlygwyd yn bennaf yn y grwpiau ffocws yw nad yw tiwtoriaid yn teimlo eu bod yn derbyn digon o hyfforddiant ym meysydd seineg a ffonoleg, ac na roddir iddynt chwaith ganllawiau clir o ran yr elfen hon. Canlyniad y diffygion hyn yw bod rhai tiwtoriaid o'r farn nad oes modd iddynt gynnig arweiniad effeithiol i ddysgwyr sy'n wynebu anawsterau ynganu.

**ARGYMHELLIAD 5**

Dylid cynyddu'r hyfforddiant a roddir i diwtoriaid ym maes ynganu yn sylweddol fel bod modd iddynt ddysgu'r pwnc yn hyderus ac yn fwy effeithiol. Bernir nad hyfforddiant

ym maes seineg/ffonoleg yn unig sy'n angenrheidiol, ond bod angen i'r tiwtoriaid allu trosglwyddo eu gwybodaeth arbenigol yn ymarferol yn y dosbarth er budd y dysgwyr.

Awgrymwn, felly, fod y sector yn darparu gweithdy neu gyfres o weithdai meistr[6] a fydd:

i) yn darparu hyfforddiant i diwtoriaid ym meysydd seineg a ffonoleg;
ii) yn galluogi i'r tiwtoriaid allu trosglwyddo eu gwybodaeth arbenigol yn ymarferol yn y dosbarth er budd y dysgwyr.

## *5.3 Datblygu adnoddau ar gyfer gwella ynganiad dysgwyr*

Pwysleisiodd sawl tiwtor yn y grwpiau ffocws mai prin iawn yw'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer rhoi cymorth i ddysgwyr gyda'u hynganiad. Nodwyd eisoes safbwynt un tiwtor profiadol, sef y byddai adnoddau ar-lein yn fwy effeithiol na 'drilio corws' ar gyfer rhoi sylw i anawsterau unigolion.[7] Dylid hefyd nodi bod sawl tiwtor o'r farn mai cyplysu ymarferion ynganu â gwaith gwrando sy'n angenrheidiol, tra bo tiwtoriaid eraill yn credu ei bod yn dra phwysig rhoi sylw i ynganiad wrth gyflwyno geirfa gwahanol unedau.

**ARGYMHELLIAD 6**

Dylid datblygu rhagor o adnoddau ar-lein gyda'r amcan o wella sgiliau ynganu (a gwrando) y dysgwyr. Argymhellwn, felly, fod y sector yn datblygu meddalwedd arbenigol a fydd â'r gallu i werthuso ynganiad Cymraeg dysgwyr. Dylai'r feddalwedd hon fod yn ychwanegol at ddeunyddiau sain ar-lein (sy'n cynnwys ymarferion drilio cudd) a gaiff eu teilwra at anghenion dysgwyr pob lefel. Argymhellwn felly i'r sector fuddsoddi mewn technoleg soffistigedig a fyddai'n gallu arfarnu ynganiadau dysgwyr y Gymraeg mewn modd gwyddonol. Yn sicr, rhoddai hyn fwy o gyfleoedd i ddysgwyr ar wahanol lefelau i wella eu sgiliau ynganu yn annibynnol (y tu allan i'r dosbarth). Awgrymwn felly y byddai meddalwedd fel '*Streaming Speech*', lle y mae'n ofynnol i ddysgwyr ddewis model a'i (d)dynwared yn llefaru (gw. Chun 2005), yn dra defnyddiol i ddysgwyr y sector, ac y dylid addasu meddalwedd o'r math hwn at ddibenion dysgu Cymraeg cyn gynted ag y bo'r modd.

## *5.4 Datblygu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned*

Daeth i'r amlwg yng nghanlyniadau'r holiadur yn ogystal ag yn y grwpiau ffocws fod nifer helaeth o diwtoriaid o'r farn na chaiff dysgwyr ddigon o gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg

---

[6] Gellir cael arbenigwr gwadd o faes TEFL, er enghraifft.

[7] Noder bod un o ganlyniadau Andrews (2011: 52–4) yn dangos mai'r elfen yr oedd dysgwyr CiO leiaf bodlon â hi oedd defnydd y cyrsiau o'r dechnoleg ddiweddaraf.

y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ac y dylent gael mwy o gyfleoedd i dreulio amser gyda siaradwyr Cymraeg brodorol.[8]

**ARGYMHELLIAD 7**

Byddai'n fanteisiol pe bai modd i'r sector CiO drefnu cyrsiau preswyl sy'n dod â Chymry Cymraeg a dysgwyr ynghyd yn rheolaidd (gw. hefyd sylwadau Sioned Davies yn Llywodraeth Cymru 2013: tt. 7, 18, 24). Hoffem argymell, felly, fod cynllunwyr rhaglenni Dysgu Anffurfiol CiO yn ymgorffori elfennau o'r cyrsiau dysgu ffurfiol (ymarferion ynganu yn yr achos hwn) yn rhai o'u gweithgareddau. Gofynna hyn, felly, am raglenni Dysgu Anffurfiol mwy strwythuredig lle y byddai'n ofynnol i siaradwyr Cymraeg gael eu briffio ynglŷn â'u rôl hwy o flaen llaw.

Ystyrir hefyd fod angen i'r sector barhau â'u cenhadaeth i annog siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf ar hyd a lled Cymru i ymwneud â dysgwyr, ac i ddarparu canllawiau iddynt o ran y ffyrdd gorau o wneud hynny. Gan fod rhai tiwtoriaid yn ofni nad oes llawer o Gymry Cymraeg yn darllen llyfrynnau megis *Rhannwch eich Cymraeg*, dylid ceisio mynd ati (yn ddelfrydol gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) i gynyddu ymwybyddiaeth siaradwyr brodorol o'r modd y gallant helpu dysgwyr ar y we a'r cyfryngau torfol (cf. ymgyrch 'Y Gymraeg, Anrheg am Byth' Twf, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru).

## *5.5 Ymchwil pellach*

Mae nifer o bosibiliadau ar gyfer gwaith ymchwil pellach ar ynganu a allai fod o fudd i'r maes. Un prosiect posibl fyddai archwilio lleferydd dysgwyr er mwyn ceisio meintioli amlder yr anawsterau ynganu a geir ar wahanol lefelau, yn ogystal â sefydlu i ba raddau y ceir cydberthyniadau rhwng yr anawsterau hyn a ffactorau all-ieithyddol (cf. Brake 2012). Gall ymchwil o'r math hwn fod yn sail ar gyfer datblygu adnoddau ar gyfer gwahanol lefelau yn y dyfodol.

Awgrymwn hefyd y dylid comisiynu archwiliad o sefyllfa ynganu ym maes dysgu ail iaith yn gyffredinol (yn enwedig ym maes TEFL) er mwyn sicrhau bod unrhyw faes llafur diwygiedig neu gwricwlwm newydd wedi ei seilio ar yr ymchwil diweddaraf yn y maes. Dylai unrhyw astudiaeth o'r math hwn ystyried hefyd sut y dysgir ynganu i athrawon ieithoedd eraill.

Awgrymwyd mewn gweithiau blaenorol (e.e. Trosset 1986, Hughes 2003, Pritchard Newcombe 2007, 2009) a chan diwtoriaid fod modd i agweddau siaradwyr Cymraeg brodorol tuag at ddysgwyr achosi problemau cyfathrebu weithiau. Dylai'r sector, felly, ystyried i ba

[8] Mae'n werth nodi yn y cyswllt hwn fod y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol newydd lansio cynllun peilot newydd yn Ionawr 2018, sef 'Siarad', lle y bydd dysgwyr Cymraeg yn cael eu paru â siaradwyr Cymraeg brodorol mewn pedair ardal benodol yng Nghymru (gw. <https://dysgucymraeg.cymru/newyddion/siarad/> am ragor o fanylion).

raddau y gallai ymchwil i ymagweddau siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf tuag at amrywiadau o'r Gymraeg (gan gynnwys acenion dysgwyr) daflu goleuni pellach ar anawsterau dysgwyr yn y gymuned (gw. er enghraifft, Robert 2009).

## 6. Diweddglo

Pennaf amcan yr astudiaeth hon oedd cynnig gwerthusiad o'r sylw a gaiff ynganu yn y sector *Cymraeg i Oedolion*, gan bennu a yw'r pwyslais a roddir ar yr agwedd hollbwysig hon ar ddysgu iaith yn ddigonol mewn cyrsiau CiO, ac i ba raddau y mae dulliau dysgu'r maes yn effeithiol ar gyfer cynorthwyo dysgwyr â'r elfen heriol hon. Seiliwyd y gwerthusiad hwn ar safbwyntiau tiwtoriaid profiadol y sector CiO, a dangoswyd gan hynny fod cryn gonsensws rhyngddynt, nid yn unig bod elfennau ynganu yn heriol i ddysgwyr y Gymraeg, ond hefyd fod y sylw a gaiff ynganu yn y maes yn annigonol ar hyn o bryd. Gan fod y tiwtoriaid yn amlwg yn gytûn fod modd i anawsterau ynganu arwain at broblemau cyfathrebu sylweddol rhwng dysgwyr a siaradwyr rhugl, ni ellir gorbwysleisio pa mor angenrheidiol yw hi bellach fod y sector CiO yn blaenoriaethu sgiliau ynganu wrth ddatblygu cyrsiau a chwricwla newydd. Ymhellach, gan fod canfyddiad clir ymhlith y tiwtoriaid a holwyd nad oes gan lawer o ddysgwyr gyfleoedd digonol i ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth, ymddengys fod angen gweithredu ar fyrder i wyrdroi'r sefyllfa anfoddhaol sydd ohoni, yn enwedig os yw Llywodraeth Cymru am wireddu ei nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Nodwyd yn yr adran ddiwethaf gyfres o argymhellion o ran sut y gellir gwella'r modd y dysgir ynganu o fewn y sector CiO. Mae'r rhain yn ymwneud â darpariaeth y cyrsiau a gynigir, yr hyfforddiant y dylid ei gynnig i diwtoriaid, yr adnoddau a fyddai'n fuddiol i'r dysgwyr, y gweithgareddau y tu allan i'r dosbarth a fyddai'n fanteisiol i'r dysgwyr, yn ogystal ag astudiaethau pellach o amrywiadau dysgwyr (ynghyd ag ymagweddau tuag atynt) a allai fod yn sail i adnoddau'r dyfodol. Wrth i'r sector CiO broffesiynoli'n fwyfwy gyda dyfodiad y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chyda phwyslais cynyddol ar ddefnydd o'r Gymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth (boed hynny yn y gweithle neu yn y gymuned), ni allwn lai na gobeithio y bydd cyfle i wireddu'r argymhellion uchod, nid yn unig er lles a budd y dysgwyr, ond hefyd er parhad a thwf y Gymraeg.

## 7. Diolchiadau

Dymunwn gydnabod ein dyled a'n gwerthfawrogiad i'r holl diwtoriaid a'n cynorthwyodd gyda'r gwaith ymchwil hwn, gan ddiolch hefyd i'r Athro Diarmait Mac Giolla Chríost am ei gynghorion buddiol ar sawl elfen o'r gwaith hwn. Rydym hefyd yn ddyledus i ddau adolygydd anhysbys am eu hawgrymiadau gwerthfawr.

## Llyfryddiaeth

Andrews, H. (2011), 'Llais y dysgwr: Profiadau oedolion sydd yn dysgu Cymraeg yng ngogledd Cymru', *Gwerddon*, 9, 37–58.

Baker, C. et al. (2011), 'Adult language learning: a survey of Welsh for Adults in the context of language planning', *Evaluation & Research in Education*, 24 (1), 41–59.

Brake, P. (2012), 'Astudiaeth gychwynnol o wallau iaith llafar dysgwyr Cymraeg i Oedolion profiadol', *Gwerddon*, 12, 24–52.

Chambers, J. K., a Trudgill, P. (1999), *Dialectology* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Chun, D. M. (2005), 'Streaming Speech: Listening and Pronunciation for Advanced Learners of English [Review]', *TESOL Quarterly*, 39 (3), 559–62.

Cooper, S. (2017), 'Producing new sounds in Welsh: Variable lateral fricative production in adult Welsh learners', *International Symposium on Bilingualism*, Prifysgol Limerick, 11–15 Mehefin 2017.

Coskun, A. (2011), 'Future English Teachers' Attitudes towards EIL Pronunciation', *Journal of English as an International Language*, 6 (2), 46–68.

Coupland, N. (1985), 'Sociolinguistic Aspects of Place Names: Ethnic Affiliation and the Pronunciation of Welsh in the Welsh Capital', yn Viereck, W. (gol.), *Focus on: England and Wales* (Amsterdam PA: John Benjamin's), tt. 29–44.

Creamer, B. (2016), 'Canfyddiadau siaradwyr y Gymraeg o leferydd dysgwyr', traethawd BA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd, Caerdydd.

Derwing, T. M., a Munro, M. J. (2005), 'Second language accent and pronunciation teaching: A research-based approach', *Tesol Quarterly*, 39 (3), 379–97.

Durham, M. (2014), *The Acquisition of Sociolinguistic Competence in a Lingua Franca Context* (Clevedon: Multilingual Matters).

Ellis, R. (2008), *The Study of Second Language Acquistion* (Oxford: Oxford University Press).

Flege, J. E. (1987), 'The production of 'new' and 'similar' phones in a foreign language: Evidence for the effect of equivalence classification', *Journal of Phonetics*, 15, 47–65.

Flege, J. E. (1995), 'Second-language speech learning: Theory, findings and problems', yn Strange, W. (gol.), *Speech Perception and Linguistic Experience* (Timonium MA: York Press), 233–77.

Han, Z. (2004), *Fossilization in Adult Second Language Acquisition* (Clevedon: Multilingual Matters).

Hughes, H. (2003), 'Cymathu'r Dysgwyr â'r Gymdeithas Gymraeg a Rôl yr Addysgwyr yn y Broses', traethawd MA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Likert, R. (1932), 'A Technique for the Measurement of Attitudes', *Archives of Psychology*, 140, 5–55.

Llywodraeth Cymru (2013), *Un Iaith i Bawb: Adolygiad o Gymraeg ail iaith yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4: Adroddiad ac argymhellion* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Mac Giolla Chríost, D., et al. (2012), *Adnoddau, dulliau ac ymagweddau dysgu ac addysgu ym maes Cymraeg i Oedolion – Astudiaeth ymchwil gynhwysfawr ac adolygiad beirniadol o'r ffordd ymlaen* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

McKay, S. (2003). 'Teaching English as an International Language: The Chilean context', *ELT Journal*, 57 (2), 139–48.

Meisel, J., Clahsen, H., a Pienemann, M. (1981), 'On determining developmental stages in natural second language acquisition', *Studies in Second Language Acquisition,* 3 (2), 109–35.

Mougeon, R., Rehner, K., a Nadasdi, T. (2004), 'The learning of spoken French variation by immersion students from Toronto, Canada', *Journal of Sociolinguistics*, 8 (3), 408–32.

Munro, M. J., a Derwing, T. M. (1999), 'Foreign accent, comprehensibility and intelligibility in the speech of second language learners', yn Leather, J. (gol.), *Phonological Issues in Language Learning* (Malden: Blackwell), tt. 285–310.

Odlin, T. (1989), *Language Transfer: Cross–linguistic Influence in Language Learning* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Old Bell 3 (2011), *Gwerthusiad o'r rhaglen Cymraeg i Oedolion* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Ortega, L. (2009), *Understanding Second Language Acquisition* (Llundain: Routledge).

Pearce, H. (2015), 'I ba raddau mae dysgwyr y Gymraeg, sydd gydag ychydig o brofiad blaenorol, yn caffael seiniau'r iaith', Traethawd BA nas cyhoeddwyd, Prifysgol Caerdydd.

Piske, T., MacKay, I. R. A., a Flege, J. E. (2011), 'Factors affecting degree of foreign accent in an L2: a review', *Journal of Phonetics,* 29, 191–215.

Pritchard Newcombe, L. (2007), *Social Context and Fluency in L2 Learners: The Case of Wales* (Clevedon: Multilingual Matters).

Pritchard Newcombe, L. (2009), *Think Without Limits: You CAN Speak Welsh* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Robert, E. (2009), 'Accommodating "new" speakers? An attitudinal investigation of L2 speakers of Welsh in south-east Wales', *International Journal of the Sociology of Language*, 195, 93–115.

Selinker, L. (1972), 'Interlanguage', *IRAL-International Review of Applied Linguistics in Language Teaching*, 10 (3), 209–32.

Sifakis, N. C., a Sougari, A. (2005), 'Pronunciation issues and EIL pedagogy in the periphery: A survey of Greek state school teachers' beliefs', *TESOL Quarterly*, 39 (3), 467–88.

Thomas, B., a Thomas, P. W. (1989), *Cymraeg, Cymrâg, Cymrêg…: Cyflwyno'r Tafodieithoedd* (Caerdydd: Gwasg Taf).

Timmis, I. (2002), 'Native-speaker norms and international English: A classroom view', *ELT Journal*, 56 (3), 240–49.

Trosset, C. S. (1986), 'The social identity of Welsh learners', *Language in Society,* 15 (2), 165–91.

Walters, R. J. (2001), 'English in Wales and a 'Welsh Valleys' accent', *World Englishes*, 20 (3), 285–304.

Wells, J. C. (1982), *Accents of English 2: The British Isles* (Caergrawnt: Cambridge University Press).

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2017[a]), *Cwricwlwm Cenedlaethol Cymraeg i Oedolion*, <https://dysgucymraeg.cymru/media/1159/curriculum-amended-17_5_17.pdf> [Cyrchwyd: 7 Gorffennaf 2017].

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol (2017[b]), *Darparwyr*, <https://dysgucymraeg.cymru/amdanom/darparwyr/> [Cyrchwyd: 7 Gorffennaf 2017].

# ‘Beth os mai hon yw Armagedon?’: Crefydd a’r Wasg Gymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf

Meilyr Powel

*Adran Hanes, Prifysgol Abertawe*

Cyflwynwyd: 12 Medi 2017; Derbyniwyd: 1 Mawrth 2018

**Crynodeb:** Mae’r papur hwn yn dadansoddi cynnwys y Wasg gyfnodol Gymreig ar adeg y Rhyfel Byd Cyntaf, gyda ffocws ar y modd y datblygwyd crefydd yn agwedd flaenllaw o’r diwylliant rhyfel yng Nghymru. Fel rhan allweddol o’r gymdeithas sifil, roedd y Wasg yn llwyfan nerthol ar gyfer darbwyllo cynulleidfa, wrth i gyfranwyr uchel eu statws cymdeithasol gyflwyno a dehongli’r rhyfel yn ôl daliadau penodol. Dadl y papur hwn yw y cynhyrchwyd disgwrs grefyddol gref gan sylwebwyr y Wasg Gymreig ynghylch ystyr a phwrpas y rhyfel, gan roi ystyriaeth ddwys i broffwydoliaeth, Iachawdwriaeth, a dyfodiad oes newydd, lle y chwaraeir rôl ganolog gan Gristnogaeth.

**Allweddeiriau:** Rhyfel Byd Cyntaf, Cymru, y wasg, diwylliant, crefydd.

## ‘What if this is Armageddon?’: Religion and the Welsh Press in the First World War

**Abstract:** This paper analyses the Welsh periodical press during the First World War, with an emphasis on the way an important aspect of the Welsh war culture was constructed. As an integral part of civil society, the press represented a powerful platform from where audiences could be influenced, as contributors of prominent social standing presented, interpreted, and framed the war in particular ways and in accordance with personal beliefs and cultural traditions. This paper argues that a powerful religious discourse was constructed by commentators in the Welsh press with regards to the meaning and purpose of the war, with thoughtful consideration given to prophecy, salvation, and the coming of a new age where Christianity would play a central role.

**Key words**: First World War, Wales, the press, culture, religion.

Coleg Cymraeg Cenedlaethol
ISSN: 1741-4261
http://gwerddon.cymru

## Cyflwyniad

Yn ddiweddar, cafwyd sawl astudiaeth sy'n bwrw golwg beirniadol ar brofiad Cymru o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan gyfrannu'n amserol at ein dealltwriaeth o un o gyfnodau mwyaf cythryblus a gwaedlyd hanes Cymru fodern.[1] Croesewir y don newydd hon o hanesyddiaeth Gymreig, sydd yn wahanol i'r gweithiau hanesyddol clasurol Cymreig a ffafriai gyd-destunau llawer ehangach i esbonio ffurfiant y genedl.[2] Yn yr hanesyddiaeth Gymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gellir adnabod dylanwad y 'tro diwylliannol' a ddatblygodd yn hanesyddiaeth ryngwladol y rhyfel. Ffocws yr ymagwedd hon yn gyffredinol o fewn hanes rhyngwladol oedd yr arferion a'r cynrychioliadau a gynhyrchid gan gymdeithas, ac yn wreiddiol roedd yn ymateb i'r ymdriniaeth elitaidd a thraddodiadol â hanes gwleidyddol a diplomyddol.[3] Yn sgil hyn, mae ffocws ar sut y paratowyd gwledydd gwahanol ar gyfer y Rhyfel Byd Cyntaf wedi tyfu i gynnwys agweddau diwylliannol, yn ychwanegol at y rhai milwrol ac economaidd amlwg.[4]

---

1 Astudiaeth semenol yng Nghymru oedd Gaffney, Angela (2000), *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press). Mae gweithiau mwy diweddar yn cynnwys: Cragoe, Matthew, a Williams, Chris (2007) (goln), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press); Barlow, Robin (2014), *Wales and World War One* (Llandysul: Gomer Press); Jenkins, Gwyn (2014), *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa); Hughes, Clive (2014), *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia! Recriwtio i'r Fyddin yng Ngogledd-Orllewin Cymru 1914–16* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch); Hicks, Jonathan (2016), *The Welsh at Mametz Wood: The Somme 1916* (Talybont: Y Lolfa); Matthews, Gethin (2016) (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru); Hicks, Jonathan (2017), *The Welsh at Passchendaele* (Tal-y-Bont: Y Lolfa); John, Steven (2017), *Welsh at War: From Mons to Loos and the Gallipoli Tragedy* (Barnsley: Pen and Sword); Llwyd, Alan (2018), *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer). Hefyd, gweler y bennod '"Ha! Ha! among the Trumpets" – a Century of Warfare: Cowardice, Courage and Hatred', yn Davies, Russell (2015), *People, Places and Passions: 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870–1945* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 275–318.

2 Mae'r astudiaethau hanes 'macro' hyn o Gymru yn cynnwys Morgan, Kenneth O. (1982), *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Oxford: Oxford University Press); Williams, Gwyn Alf (1985), *When Was Wales? A History of the Welsh* (London: Penguin Books); Jones, John Graham (1990), *The History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press); Jenkins, Philip (1992), *The History of Modern Wales 1536–1990* (London: Longman); Jones, R. Merfyn (1999), *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru); Evans, D. Gareth (2000), *A History of Wales 1906–2000* (Cardiff: University of Wales Press); Morris, Jan (2000), *Wales: Epic Views of a Small Country* (London: Penguin Books); Ross, David (2005), *Wales: History of a Nation* (New Lanark: Geddes and Grosset); Jenkins, Geraint (2007), *A Concise History of Wales* (Cambridge: Cambridge University Press); Davies, John (2007), *A History of Wales* (London: Penguin Books); Gower, Jon (2013), *The Story of Wales* (London: BBC Books).

3 Burke, Peter (2004), *What is Cultural History?* (Cambridge: Polity Press), t. 2.

4 Mae rhai o'r prif weithiau a chyfrolau yn y maes hwn yn cynnwys Fussell, Paul (1975), *The Great War and Modern Memory* (Oxford: Oxford University Press); Kocka, Jurgen (1984), *Facing Total War: German Society, 1914–1918*, cyfieithiwyd gan Barbara Weinberger (Cambridge, MA: Cambridge University Press); Becker, Jean-Jacques (1985), *The Great War and the French People*, cyfieithiwyd gan Arnold Pomerans (Providence: Berg); Winter, Jay (1995), *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Cambridge: Cambridge University Press); Horne, John (1997) (gol.), *State, society and mobilization in Europe during the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press); Audoin-Rouzeau, Stéphane, a Becker, Annette (2003), *Understanding the Great War 14–18*, cyfieithwyd gan Catherine Temerson (New York: Hill and Wang); Smith, Leonard V., Audoin-Rouzeau, Stéphane, a Becker, Annette (2003) (goln), *France and the Great War 1914–1918*

Bwriad y gweithiau hyn yw olrhain sut yr oedd cymdeithasau yn dod i ddeall, dehongli, a chyflwyno'r rhyfel drwy dalu sylw i strwythurau'r gymdeithas sifil, sef y sefydliadau a'r arferion hynny y tu hwnt i ffiniau'r wladwriaeth. Yn ganolog i'r astudiaethau hyn y mae'r cysyniad o 'ddiwylliant rhyfel' a ddiffinnir gan haneswyr fel system o gynrychioliadau a gynorthwyai bobl i wneud synnwyr o'r rhyfel, a'u perswadio eu hunain i barhau i'w ymladd.[5] Gellir adnabod diwylliant rhyfel drwy amlygu sut y tynnwyd ar agweddau o ddiwylliant er mwyn rhoi ystyr penodol i'r rhyfel. Roedd hyn yn agwedd ar yr hunanysgogi a ddigwyddodd mewn cymdeithasau Ewropeaidd y tu hwnt i baramedrau'r gwladwriaethau, lle mai'r prif gyfrifoldeb oedd paratoi'r lluoedd arfog, diwydiannau a'r economi. Fel y noda John Horne:

> The war was held to involve not only the physical and territorial integrity of the national community but its distinctive values, ways of life and political institutions ... Not only the state, but the associational life of civil society, rallied behind the national cause.[6]

Cyflyrwyd natur yr ysgogi a'r diwylliant rhyfel gan ddatblygiad bywyd gwleidyddol a diwylliannol y gymdeithas.[7] Yn ogystal, buddsoddwyd syniadau, delweddau ac ymagweddau penodol y gymdeithas yn yr ymdrech rhyfel. Dyma un o hanfodion 'profiad' rhyfel, felly, lle y mae'r sefyllfa Gymreig yn haeddu sylw pellach.

Dengys yr hanesyddiaethau rhyngwladol a Phrydeinig fod gwedd grefyddol i ddiwylliannau rhyfel y Rhyfel Byd Cyntaf.[8] Dadleua Philip Jenkins, er enghraifft, fod rôl amlwg gan grefydd

---

(Cambridge: Cambridge University Press); Winter, Jay, a Prost, Antoine (2005), *The Great War in History: Debates and Controversies, 1914 to the Present* (Cambridge: Cambridge University Press); Bridgham, Fred (2006) (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester NY: Camden House); Kramer, Alan (2008), *Dynamic of Destruction: Culture and Mass Killing in the First World War* (Oxford: Oxford University Press); Winter, Jay (2014) (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press).

5 Smith, Audoin-Rouzeau, Becker (goln), *France and the Great War*, t. xv.

6 Horne, John, 'Introduction', yn Horne (gol.), *State, society and mobilization*, t. 2.

7 Ibid., t. 1.

8 Hoover, Arlie Jack (1989), *God, Germany, and Britain in the Great War: A Study in Clerical Nationalism* (New York: Praeger); Becker, Annette (1998), *War and Faith: The Religious Imagination in France, 1914–1930* (Oxford: Berg Publishers); Schweitzer, Richard (2003), *The Cross and the Trenches: Religious Faith and Doubt Among British and American Great War Soldiers* (Westport: Praeger); Snape, Michael (2005), *God and the British Soldier: Religion and the British Army in the First and Second World Wars* (London: Routledge); Burleigh, Michael (2007), *Sacred Causes: The Clash of Religion and Politics, from the Great War to the War on Terror* (New York: Harper Collins); Robbins, Keith (2008), *England, Ireland, Scotland, Wales: The Christian Church 1900–2000* (Oxford: Oxford University Press); Becker, Annette (2012), *Faith, Ideologies, and the 'cultures of war'*, yn Horne, John (gol.), *A Companion to World War I* (Chichester: Wiley-Blackwell); Gregory, Adrian (2014), 'Beliefs and Religion', yn Winter, Jay (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 418–44; Boniface, Xavier (2014), *Histoire religieuse de la Grande Guerre* (Paris: Librairie Arthème Fayard); Jenkins, Philip (2014), *The Great and Holy War: How World War I changed religion for ever* (Oxford: Lion Books); Besier, Gerhard (2015), 'The Great War and Religion in Comparative Perspective: Why the Christian Culture of War Prevailed over Religiously-Motivated Pacifism in 1914', *Kirchliche Zeitgeschichte,* 28 (1), 21–65; Houlihan, Patrick J. (2015), *Catholicism and the Great War: Religion and everyday life in Germany and Austria-Hungary, 1914–1922* (Cambridge: Cambridge University Press); Houlihan,

ym mhrofiad pob gwlad a frwydrodd yn y rhyfel, drwy nodi yn enwedig sut y cymathwyd delweddau crefyddol yn eu hymdrechion propaganda. Mor weledol oedd crefydd mewn mannau, disgrifia Jenkins y cyfnod fel '*the prostitution of religious rhetoric*', ac effeithiau'r rhyfel yn gweddnewid y dirwedd grefyddol fyd-eang.[9] Mae gweithiau Alan Kramer ac Adrian Gregory hefyd yn amlygu swyddogaeth ddylanwadol crefydd wrth i lywodraethau, eglwysi, ac unigolion gysylltu amcanion cenedlaethol â negeseuon crefyddol.[10] Ceir amlinelliad tebyg o agweddau'r eglwysi yn y rhyfel gan Keith Robbins, sy'n esbonio eu bod wedi cynnig math o genedl arall drwy bwysleisio'r grym yr oedd ganddynt i dynnu ar ffyddlondeb eu haelodau er budd ymdrech y rhyfel:

> Denominations, as became evident, were fully as capable as nations of demanding absolute 'loyalty'.[11]

Yn ogystal, mae cyfrol Michael Snape ac Edward Madigan yn crynhoi'r astudiaethau diweddar ar gaplaniaid byddin Prydain. Casglant fod clerigwyr wedi cyfrannu at ystyriaethau moesol y rhyfel a chwarae rhan bwysig wrth ddehongli'r rhyfel mewn termau crefyddol.[12]

Gwelir gwedd grefyddol o fewn yr hanesyddiaeth Gymreig hefyd.[13] Cynigia'r testunau hyn fod rôl bwysig i grefydd yn yr ymateb Cymreig i'r rhyfel, p'un ai ar lefel bersonol neu sefydliadol. Amlinellir agweddau'r enwadau Anghydffurfiol, er enghraifft, gan Robert Pope:

> Ar ôl dechrau'r rhyfel ym 1914, datganai mwyafrif sylweddol arweinwyr yr eglwysi yn Lloegr a Chymru yn gyson eu cefnogaeth selog i'r rhyfel. Ar y cyfan, derbyniodd arweinwyr yr eglwysi ddadl y llywodraeth yn ddi-gwestiwn. Dylid cefnogi'r ymgyrch i sicrhau cyfiawnder i'r cenhedloedd

---

Patrick J. (2015), 'The Churches', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*, <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/the_churches> [Cyrchwyd: 15 Mawrth 2016]; Houlihan, Patrick J. (2015), 'Religious Mobilization and Popular Belief', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online International Encyclopedia of the First World War*, <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/religious_mobilization_and_popular_belief> [Cyrchwyd: 15 Mawrth 2016]; Paiano, Maria (2015), 'Religious Mobilization and Popular Belief (Italy)', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online: International Encyclopedia of the First World War,* <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/religious_mobilization_and_popular_belief_italy> [Cyrchwyd: 12 Mawrth 2016]; Snape, Michael, a Madigan, Edward (2016) (goln), *The Clergy in Khaki: New Perspectives on British Army Chaplaincy in the First World War* (London: Routledge).

9 Jenkins, *The Great and Holy War*, t. 369.

10 Kramer, *Dynamic of Destruction*, tt. 175–80; Gregory, *The Last Great War,* tt. 152–86; Gregory, 'Beliefs and Religion', tt. 418–44.

11 Robbins, *England, Ireland, Scotland, Wales*, t. 150.

12 Snape a Madigan (goln), *The Clergy in Khaki*, t. 3.

13 Davies, Dewi Eirug (1988), *Byddin y Brenin: Cymru a'i chrefydd yn y Rhyfel Mawr* (Abertawe: Tŷ John Penry); Morgan, Dafydd Densil (1997), '"Christ and the War": Some Aspects of the Welsh Experience, 1914–18', *Journal of Welsh Religious History*, vol. 5, 73–91; Pope, Robert, 'Christ and Caesar? Welsh Nonconformists and the State, 1914–1918', yn Cragoe a Williams (goln), *Wales and War,* tt. 165–83; Morgan, Dafydd Densil (2011), *The Span of the Cross: Chrisian Religion and Society in Wales 1914–2000* (Cardiff: University of Wales Press); Barlow, *Wales and World War One*; Pope, Robert (2014), 'Duw ar Drai ar Orwel Pell: Capeli Cymru a'r Rhyfel Mawr', *Y Traethodydd*, Hydref, 213–30; Matthews, Gethin, '"Un o Ryfeloedd yr Arglwydd": Eglwysi Anghydffurfiol Cymru a'r Rhyfel Mawr, 1914–1915', yn Matthews (gol.), *Creithiau*, tt. 34–62.

> bychain yn wyneb y peiriant didostur, militaraidd, ymerodrol. Eu tuedd oedd defnyddio geirfa a delweddaeth grefyddol er mwyn gwneud hyn.[14]

Mewn modd tebyg, noda Dafydd Densil Morgan ymdrechion rhai o weinidogion Cymru a ddaeth i fabwysiadu rôl swyddogion recriwtio:

> Scriptual language was commandeered for militaristic use and Nonconformist ministers, to say nothing of Anglican prelates, became recruiting officers.[15]

Meddai Dewi Eirug Davies hefyd:

> Trwy gydol y Rhyfel, ni ŵyrodd yr enwadau oddi wrth eu hargyhoeddiad ynghylch cyfiawnder achos Prydain.[16]

Dengys yr astudiaethau hyn fod crefydd sefydliadol wedi hawlio rhan ym mhrofiad Cymru o'r rhyfel. Serch hyn, nid olrhain diwylliant rhyfel oedd ffocws y gweithiau hyn, ac ni thalwyd lawer o sylw chwaith i rôl un o gyfryngau mwyaf dylanwadol cymdeithas y cyfnod – y Wasg.

Yn wir, llwyfan pwysig i gyfryngu a magu diwylliant rhyfel oedd y Wasg. Yn gysyniadol, mae'r Wasg yn rhan allweddol o'r gymdeithas sifil ac yn endid pwysig sy'n cynhyrchu ac yn cynnal disgyrsiau. Awgryma Pierre Purseigle, er enghraifft, fod cymdeithas sifil y gwahanol wledydd wedi cyfrannu, drwy wahanol ddulliau, at fonitro a sensro barn gyhoeddus ar adeg y rhyfel.[17] Roedd y Wasg yn llwyfan i unigolion dylanwadol gael darbwyllo eu cynulleidfaoedd mewn ffordd benodol, led-ymreolaethol, ac roedd cyfranwyr y misolion a'r cyfnodolion yn aml yn cynnwys gweinidogion, academyddion, a gwleidyddion. Ymgorfforai'r Wasg hon dair strategaeth glasurol Aristotle er mwyn darbwyllo cynulleidfa: yr *ethos*, a gyfeiria at statws a hygrededd y negesydd fel ffynhonnell gredadwy; y *pathos*, a noda'r defnydd o themâu emosiynol er mwyn targedu cynulleidfa benodol; a'r *logos*, a ddisgrifia strwythur y ddadl fel un resymegol.

Yng ngeiriau Antonio Gramsci, felly, roedd y Wasg Gymreig ei hun yn rym rheolaethol a oedd yn medru trwytho a datblygu arferion, syniadau, agweddau, a moesau cymdeithasol.[18] Fel y noda Chris Williams ynghylch swyddogaeth y Wasg yn y cyfnod, er nad ydoedd o reidrwydd yn adlewyrchu'r farn gyhoeddus, yr oedd fodd bynnag yn cynrychioli ffynhonnell bwysig i ddinasyddion gael gweld y byd.[19] I grynhoi, roedd y Wasg yn ffynhonnell bwerus a oedd yn medru llunio golwg benodol ar ddigwyddiadau, gan chwarae rhan bwysig yn natblygiad diwylliant rhyfel.

---

14 Pope, 'Duw ar Drai ar Orwel Pell', 215.
15 Morgan, '"Christ and the War"', 74–5.
16 Davies, *Byddin y Brenin*, t. 51.
17 Purseigle, Pierre (2005) (gol.), *Warfare and Belligerence: Perspectives in First World War Studies* (Lieden: Brill), t. 25.
18 Gramsci, Antonio (2007), *Selections from the Prison Notebooks,* cyfieithiwyd gan Hoare, Quitin, a Smith, Geoffrey Nowell (London: Lawrence & Wishart Ltd), t. 242.
19 Williams, Chris (2003), '"Our War History in Cartoons is Unique": J. M. Staniforth, British Public Opinion, and the South African War, 1899–1902', *War in History*, 20 (4), 494.

## Rhyfel Cyfiawn, Rhyfel Sanctaidd

Mae'n debyg i un o gaplaniaid byddin Prydain, George Studdert Kennedy ('*Woodbine Willie*'), ddatgan bod cychwyn y rhyfel wedi achosi '*a run on the bank of God*'.[20] Gellir sylwi ar yr hyn yr oedd Kennedy yn ei olygu yn y Wasg Gymreig, er gwaethaf y syndod a fynegwyd gan rai yn sgil cyhoeddiad y rhyfel. Lansiwyd y misolyn *Welsh Outlook* ym mis Ionawr 1914 gan y diwydiannwr ac Aelod Seneddol Rhyddfrydol Trefaldwyn, David Davies, ynghyd â'r academydd, y gweithiwr sifil, a golygydd y cylchgrawn, Thomas Jones, Rhymni. Disgrifir daliadau'r *Welsh Outlook* gan Meic Stephens fel '*Liberal, internationalist, moderately decentralist but often rigidly conservative over ideological questions*'.[21] Yn rhifyn cyntaf y misolyn wedi cychwyn y rhyfel, nododd Jones:

> Even now, we cannot realize it; we find ourselves reading the headlines of a newspaper, and we have to force our imaginations to realize that it is not a novel we are reading.[22]

Cwestiynodd Jones yn gynnar beth oedd union ystyr y rhyfel:

> The truth is that none of us know or will ever know what war means.[23]

Serch hyn, daeth y Wasg i ddehongli'r rhyfel yn ôl daliadau diwylliannol ac ideolegol y cyfnod. Ym mhob un o'r teitlau misol a chwarterol, bu trafodaeth ar y rhyfel yn uwd o ddaliadau a delweddau Cristnogol. Yng nghylchgrawn llenyddol *Y Geninen* a olygid gan John 'Eifionydd' Thomas yng Nghaernarfon, dadleuodd D. Jones ym mis Hydref 1914 fod y rhyfel yn arwydd fod Cristnogaeth wedi colli ei dylanwad ar wledydd Ewrop. Gan ddisgrifio'r rhyfel fel 'yr Armagedon arswydus', meddai Jones:

> Duwiau ffiaidd Golud, Pleser, Glythineb, a'u tras, oedd yn derbyn sylw ac addoliad miloedd er ys rhawg. Am ryw reswm neu gilydd, y mae cŵn gwancus Rhyfel o leiaf wedi eu gollwng yn rhydd unwaith eto; ac nid oes ond y Nefoedd fawr a ŵyr pa bryd y ceir hwy yn ôl i'r gynllyfan.[24]

I nifer, roedd y rhyfel yn cynrychioli Armagedon, sef y lleoliad ar gyfer y frwydr dyngedfennol yn ystod yr amserau olaf, fel y nodir yn Llyfr y Datguddiad. Roedd seiliau'r syniad hwn yn mynd yn ôl bron cenhedlaeth at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, wrth i densiynau rhyngwladol gynyddu yn sgil polisïau cenedlaetholgar, rhaglenni arfogi, sefydlu cynghreiriau strategol, a sawl argyfwng rhyngwladol. Mor gynnar â 1886, gwelwyd y papur wythnosol

[20] Gregory, Adrian, 'Beliefs and Religion', yn Winter (gol.), *The Cambridge History of the First World War*, tt. 418–44.
[21] Stephens, Meic (1998), *The New Companion to the Literature of Wales* (Cardiff: University of Wales Press), t. 632.
[22] 'Notes of the Month' (1914), *Welsh Outlook*, Medi, 375.
[23] Ibid.
[24] Jones, D. (1914), 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Hydref, 270.

*Baner ac Amserau Cymru* yn nodi bod 'y rhagolwg mor fygythiol fel y ceir y proffwydi eisoes yn taeru unwaith yn rhagor fod "Brwydr Armagedon" ar fin cael ei hymladd'.[25] Yn ystod 'Argyfwng Gorffennaf', y cyfnod rhwng llofruddiaeth Archddug Ferdinand ar 28 Mehefin 1914 a chyhoeddiadau rhyfel fis yn ddiweddarach, roedd proffwydo y byddai rhyfel Ewropeaidd yn cynrychioli Armagedon yn gyffredin. Nododd y *Cambria Daily Leader*, er enghraifft, ar 31 Gorffennaf:

> The mind is slow to accept the possibility that, in a day, in a week, that European Armageddon of which so many tongues have spoken and pens written may be upon us.[26]

Ddiwrnod ar ôl i Brydain gyhoeddi'r rhyfel, gofynnodd papur enwadol yr Annibynwyr, *Y Tyst*: 'Beth os mai hon yw Armagedon?'.[27]

Ac eithrio'r sylwadau golygyddol, ymddangosodd yn rhifynnau Hydref, Tachwedd, a Rhagfyr 1914 y *Welsh Outlook* erthyglau a osododd y rhyfel mewn cyd-destun crefyddol.[28] Er yn gwrthwynebu'r rhyfel, dilynodd cylchgrawn y Bedyddwyr, *Seren Gomer*, yr *Outlook* yn Nhachwedd 1914 wrth feirniadu crefydd 'wrthnysig' yr Almaen am iddi hwyluso militariaeth yn y wlad.[29] Yr un modd ag yr oedd *Seren Gomer* yn frith o erthyglau a wrthwynebai'r rhyfel ar sail grefyddol, yn 1916 sefydlwyd *Y Deyrnas* gan Thomas Rees, Bangor, er mwyn gwrthwynebu'r rhyfel ar sail egwyddorion Cristnogol, heb unrhyw duedd enwadol. Bu nifer o destunau hefyd yng nghylchgrawn y Methodistiaid Calfinaidd, *Y Traethodydd*, o dan olygyddiaeth John Evan Hughes yn gweld y rhyfel trwy ddrych ystyriaethau Cristnogol, fel y gwnaeth Lewis Williams, Bangor, yn 1915:

> Cyn y proffwydi ... edrychid ar ryfel rhwng y cenhedloedd fel rhyfel y Duwiau, a phan y collai cenedl, byddai hynny am fod ei Duw yn rhy wan i'w hamddiffyn.[30]


Yn ogystal, ymddangosodd cynnwys crefyddol yn ymdrin â'r rhyfel yn achlysurol yn y cyfnodolyn *Cymru*, a olygid gan yr academydd a'r Rhyddfrydwr, Owen M. Edwards, a ddisgrifir gan Malcolm Ballin fel '*the leading Welsh intellectual of the day*'.[31]

Chwaraeodd y *Welsh Outlook* rôl flaenllaw yn cyflwyno'r rhyfel mewn iaith, daliadau, a syniadaeth grefyddol. Fel cyfnodolyn a ddisgrifiwyd gan Tecwyn Lloyd fel un mwyaf

---

25 'Ffurfafen Fygythiol y Cyfandir', *Baner ac Amserau Cymru*, 29 Medi, 1886, 9.
26 'In the Balance', *Cambria Daily Leader*, 31 Gorffennaf 1914, 4.
27 'Rhyfel', *Y Tyst*, 5 Awst 1914, 8.
28 Figgis, John Neville (1914), 'Man Versus the Superman', *Welsh Outlook*, Hydref, 420–22; Thomas, E. E. (1914), 'Germany's Political Ideal', *Welsh Outlook*, Tachwedd, 459–62; Morgan, Herbert (1914), 'Church and the War', *Welsh Outlook*, Rhagfyr, 499–501.
29 'Y Rhyfel', *Seren Gomer*, Tachwedd 1914, 281–88.
30 Williams, Lewis (1915), 'Y Proffwydi, eu Byd, a'u Duw. Fel esiampl i ni yn yr argyfwng presennol', *Y Traethodydd*, Gorffennaf, 206.
31 Ballin, Malcolm (2013), *Welsh Periodicals in English, 1882–2002* (Cardiff: University of Wales Press), t. 31.

‘cyfrifol’ ac ‘ystyriol’ y cyfnod, roedd y *Welsh Outlook* yn blatfform i’r elît diwylliannol Cymreig.[32] Nid oedd ei gynnwys bob tro ar ffurf ysgrifenedig chwaith. Yn rhifyn Hydref 1914, gwelwyd darlun o St Geneviève, nawddsant Paris, o dan y teitl ‘*St. Geneviève Watching Over Paris*’.[33] Roedd y darlun hwn yn amserol, a ‘gwyrth’ Brwydr y Marne yn gefnlen i gyhoeddiad y rhifyn hwn, lle y llwyddodd y Ffrancwyr i atal ymosodiad yr Almaenwyr rai milltiroedd o Baris. Tebyg oedd profiad Paris yn y bumed ganrif, pan rwystrwyd Hyniaid Attila ar gyrion y ddinas yn dilyn gweddïau Santes Geneviève. Roedd neges y darlun yn arwyddocaol: drwy aros yn driw i air Duw a’r ffydd Gristnogol, gellid atal lluoedd tywyll y rhyfel presennol.



Ffigwr 1: ‘St Geneviève Watching Over Paris’[34]

[32] Lloyd, Tecwyn (1972), ‘Welsh Public Opinion and the First World War’, yn *Planet*, 10, 31.
[33] Yn y bumed ganrif, yn ôl y stori, achubwyd Paris rhag Hyniaid Attila gan weddïau St Geneviève.
[34] ‘St Geneviève Watching Over Paris’ (1914), *Welsh Outlook*, Hydref, 428.

Roedd y darlun hwn hefyd yn enghraifft o ymdrech i gynnwys Cymru o fewn naratif grefyddol y Cynghreiriaid. O dan yr is-bennawd, '*Our Allies and Our Enemy*' yng ngolygyddol mis Medi, amlygwyd natur Gristnogol y Rwsiaid:


> Religion is in actual fact a more real force in Russia than in any other European country. Just as the Russian Church has preserved more than any other the ritual of the Early Christians, so the Russian people have more than any other preserved the real spirit of Christ.[35]

Ymgais i gymodi Cristnogaeth uniongred Rwsia â Christnogaeth y Gorllewin oedd hon, sydd yn arwyddocaol o gofio'r rhwyg hanesyddol o fewn yr Eglwys Gatholig gyda chyhuddiadau o gamgrediniaeth yn cael eu taflu gan y Dwyrain Groegaidd a'r Gorllewin Lladin. Drwy ddechrau ailddiffinio canfyddiadau poblogaidd o'r Rwsiaid mewn termau crefyddol, honnodd Thomas Jones fod pobl Rwsia wedi diogelu gwir ysbryd Crist. Yn gydamserol, awgrymwyd bod yr Almaenwyr wedi gwyrdroi eu crefydd hwy yn un dywyll a pheryglus:

> The God on whom they so loudly called is the God who fills bellies and sharpens swords.[36]

Roedd gweithredoedd yr Almaen yng Ngwlad Belg a Ffrainc ym mis Awst 1914 yn barod wedi cynhyrfu'r wasg Brydeinig, wrth i drefi Belgaidd Louvain ac Aarschot, a Lunéville yn Ffrainc, gael eu hysbeilio, a honiadau o ddienyddio miloedd o sifiliaid Belgaidd gael eu lledu.[37] Mewn iaith a gâi ei hadleisio genhedlaeth yn ddiweddarach, galwodd y *Daily Mail* yr ymosodiadau ar Louvain yn '*Holocaust of Louvain*', ieithwedd a adleisiwyd genhedlaeth yn ddiweddarach, yn ystod yr Ail Ryfel Byd.[38] Ond pan gyhoeddodd y *Welsh Outlook* ffotograff o eglwys gadeiriol Rheims yn deilchion yn dilyn tân-belenni'r Almaenwyr, gwelwyd mwy o dystiolaeth o ymosodiadau'r Almaen ar safleoedd diwylliannol a sanctaidd i gyd-fynd â'r honiadau o'r erchyllterau yng Ngwlad Belg a gogledd Ffrainc. Nodwyd y difrod i Eglwys Gadeiriol Rheims yn y *Welsh Outlook* fel y '*melancholy achievements of German brutality*'.[39]

[35] 'Notes of the Month' (1914), *Welsh Outlook*, Medi, 383.
[36] Ibid., 384.
[37] Pan ddinistriwyd Louvain gan yr Almaenwyr ddiwedd mis Awst, llosgwyd ei llyfrgell hanesyddol a oedd yn cynnwys cannoedd o ddogfennau hynafol. Ynghyd â dienyddio trigolion, profodd y digwyddiadau hyn, yn ogystal â suddo'r *Lusitania* ym mis Mai 1915, yn rhan ganolog o ymdrech bropaganda Prydain.
[38] 'Holocaust of Louvain', *Daily Mail*, 31 Awst, 1914, 8.
[39] 'Rheims and its Cathedral' (1915), *Welsh Outlook*, Mai, 191.



Ffigwr 2: 'Destruction of the wonderful architecture at the entrance to Rheims Cathedral'[40]

Cyffyrddodd darluniau Santes Geneviève ac Eglwys Gadeiriol Rheims â themâu canoloesol a ffurfiodd agwedd gyson ar naratif y rhyfel sanctaidd. Yn '*The Sword*', tynnodd T. Huws Davies ar hanesion y Croesgadwyr a Jeanne D'Arc wrth ddadlau dros gyfiawnder y rhyfel, gan ddweud:

> They remembered that [the sword] should only be wielded in a truly holy cause and, even then, only by men of clean hands and honest hearts, upright of purpose and spiritual of mind.[41]

Dim ond mewn achos sanctaidd felly y gellid cefnogi rhyfela. Dyna oedd dysgeidiaeth y gwleidydd a'r cenedlaetholwr Eidalaidd, Guiseppe Mazzini, a ddadleuodd fod rhyfel yn

[40] 'Destruction of the wonderful architecture at the entrance to Rheims Cathedral', *Welsh Outlook*, Mai 1915, 191.
[41] Davies, T. Huws (1915), 'The Sword', *Welsh Outlook*, Mai, 174.

drosedd ofnadwy oni bai fod yr achos yn un sanctaidd. Dyfynnwyd Mazzini fel rhan o nodiadau golygyddol rhifyn Mawrth 1916:

> Is it enough that we call ourselves Christians, if we desert our brothers at their utmost need, struggling in a holy cause at fearful odds?[42]

Parhaodd y themâu canoloesol a'r sôn am Groesgadwyr yn achlysurol drwy gydol y rhyfel. Pan gipiwyd Jerusalem ym mis Rhagfyr 1917 gan Lu Alldeithiol yr Aifft, y Cadfridog Edmund Allenby, roedd y cyfeiriadau crefyddol yn amlwg. Ym mis Ionawr 1918, a chipiad diweddar Jerusalem yn sicr dan ystyriaeth, galwodd R. Hugh Davies yn *Y Geninen* nod y rhyfel fel 'croesgad rhyddid y gwledydd'.[43] Mynegwyd thema'r Croesgadwyr hefyd mewn cerdd gan A. G. Prys Jones yn y *Welsh Outlook* ym mis Mawrth 1918, gan gymharu milwyr Allenby â Chroesgadwyr Brenin Richard y Cyntaf.[44]

Ystyriwyd y rhyfel fel gornest ddiwinyddol dros gyfeiriad cymdeithas y dyfodol. Datganodd 'Simon Selotes' yn *Y Geninen* yn ystod ymosodiadau'r Somme:

> Nid rhwng byddinoedd o gig a gwaed yn unig y mae'r rhyfel hon, ond rhwng tywysogaethau ac awdurdodau, ac yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd.[45]

Ymfalchïodd R. Hugh Davies yn rôl Anghydffurfiaeth yn y rhyfel gan awgrymu bod clod haeddiannol i Anghydffurfwyr yn dilyn yr ymladd:

> Da gennym fel Ymneilltuwyr am safiad ein gwlad a'i Chynghreiriaid yn erbyn gormes a thrais, ac o blaid rhyddid a thegwch rhyngwladwriaethol.[46]

Amlygwyd ei falchder ymhellach drwy gysylltu egwyddorion Anghydffurfiaeth â'r nodau rhyfel ehangach:

> Nid oes un dosbarth y gellir disgwyl iddynt gymeradwyo cymhellion Prydain yn yr ornest bresennol yn fwy calonnog na'r Ymneilltuwyr. Arferasant fod ar hyd eu hanes yn elynion gormes ac yn gyfeillion rhyddid. Pan ddeallwyd mai brwydr egwyddorion ydoedd brwydr y Cyfandir, ni fuont hwyrdrwm i wrando ei hapêl.[47]

Roedd balchder enwadol i'w weld yn gymhelliant i gefnogi'r rhyfel, ac argyhoeddwyd sawl un eu bod yn cyflawni gweithred ddwyfol wrth i'r rhyfel gynrychioli math o 'brawf' i wir Gristnogion. Gwelwyd hyn mewn gohebiaeth yn *Y Geninen* yn 1915 pan gwestiynwyd a

---

42 'The Message of Mazzini' (1916), *Welsh Outlook*, Mawrth, 79.
43 Davies, R. Hughes (1918), 'Ymneilltuaeth a'r Cyfnod Presennol', *Y Geninen*, Ionawr, 37.
44 Jones, A. G. Prys (1918), 'Palestine, 1192–1917', *Welsh Outlook*, Mawrth, 96.
45 Selotes, Simon (1916), 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref, 259.
46 Davies, R. Hughes (1918), 'Ymneilltuaeth a'r Cyfnod Presennol', *Y Geninen*, Ionawr, 36.
47 Ibid.

oedd y rhyfel yn rhan o gynllun mawr Duw. Yn rhifyn Ionawr, ysgrifennodd E. Tegla Davies fod y rhyfel yn symbol o ddirywiad Cristnogaeth. Gofynnodd:

> Os mai cynllun iachawdwriaeth yw cynllun Duw, paham y cyni, y trueni, y pechod, a'r boen?

Atebodd ei gwestiwn ei hun drwy ddatgan yn gadarn mai: 'Nid ar law Duw y mae rhoi pen ar y rhyfel mawr hwn'.[48] Pwysleisiodd Davies bwysigrwydd gweddïo fel mynegiant mwyaf sylfaenol Cristnogaeth, a dylid ymdrechu i'w wneud yn gyson ac yn ddi-baid, yn hytrach nag ar adegau neilltuol. Ymatebodd T. Elias Parry i erthygl Davies yn rhifyn Gorffennaf gan feirniadu agwedd besimistaidd Davies ynglŷn â dirywiad Cristnogaeth. Mynnodd Parry *fod* y rhyfel yn rhan o gynllun Duw:

> Angenrhaid [ydyw rhyfel] i hyrwyddo ac i gyflymu sylweddoliad bwriadau tragwyddol Duw o ddaioni moesol ac ysprydol i'r hil ddynol.[49]

Cynrychiola'r ohebiaeth rhwng Davies a Parry ddwy ffordd o sut yr oedd Cristnogion yn dehongli'r rhyfel. Gwelwyd un garfan yn dadlau dros fethiant cymdeithas ddiweddar i gynnal y ffydd, wrth i bobl a sefydliadau ildio i ysgogiadau materol a threisgar. Dadleuodd carfan arall, o bosibl wedi eu dallu gan eu cred fod yn rhaid i ryw dda ddod allan o'r cwbl, mai rhan o gynllun mawr Duw oedd y rhyfel, ac mai arwydd ydoedd i ailgydio yn y ffydd Gristnogol er mwyn puro cymdeithas o ddylanwadau drwg.

Hybwyd delweddau crefyddol y Wasg Gymreig gan weithredoedd yr Almaen yng ngwlad Belg a gogledd Ffrainc ym mis Awst 1914. Cymharodd y Parchedig John Neville Figgis fflamau dinistr Louvain â seren Bethlehem, gan ddangos y ffordd i'r Cymry a'u galw mewn cyrch sanctaidd tuag at faes y gad. Gan gyfeirio at ddysgeidiaeth yr athronydd Almaenaidd, Friedrich Nietzsche, credodd Figgis fod y 'Dydd' wedi cyrraedd:

> The strong vein of apocalypticism in Nietzsche is a quality not always sufficiently recognised. Well, this "Day" has dawned; and the bonfire of Louvain is its Bethlehem star.[50]

Parhaodd y syniad o'r 'Dydd' dros y blynyddoedd.[51] Yn 1916, cyfeiriwyd at y rhyfel gan G. Bedford Roberts fel 'dydd y prawf'.[52] Cred Roberts oedd fod Cymru wedi cael ei pharatoi ar gyfer y 'dydd' hwn, ond pryderwyd a fyddai ffydd y Cymry yn ddigon cadarn i oroesi'r rhyfel. Yn *Y Beirniad*, cylchgrawn llenyddol John Morris Jones, soniodd David Miall Edwards yn 1916 mai 'dydd barn ar bawb a phopeth ydyw'r dydd heddyw'.[53] Cyflewyd yr un ddelwedd

[48] Davies, E. Tegla (1915), 'Gweddi a'r Rhyfel', *Y Geninen*, Ionawr, 10.
[49] Parry, T. Elias (1915), '"Gweddi a'r Rhyfel"', *Y Geninen*, Gorffennaf, 175.
[50] Figgis, John Neville (1914), 'Man Versus the Superman', *Welsh Outlook*, Hydref, 420.
[51] Cyfeiria hyn at Dydd y Farn, sef yr olygfa lle y deuai Iesu i ddyfarnu ac achub y gwir Gristnogion ar drothwy brwydr Armagedon a diwedd y byd.
[52] Roberts, G. Bedford (1916), 'Yr Eglwys a'r Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref 1916, 252.
[53] Edwards, David Miall (1916), 'Y Rhyfel a Hollalluowgrwydd Duw', *Y Beirniad*, Gwanwyn, 1.

yn *Cymru* trwy ddweud mai 'Dydd Deffro Cydwybod' oedd y cyfnod presennol, ynghyd â'r weledigaeth mai 'dydd yw hwn y rhaid adeiladu fel yr adeiledid y deml yn amser Nehemiah; un llaw yn gweithio yn y gwaith, a'r llaw arall yn dal arf'.[54] Ystyriodd Lewis Williams yn *Y Traethodydd* a oedd y 'Dydd' hwn yn brawf a osodwyd gan Dduw:

> Diameu fod rhywbeth o'i le yng ngwareiddiad y Gorllewin, a bod llawer yn credu fod Duw wedi codi'r Almaen, nid i'n gorchfygu, ond i'n ceryddu am ein hanystyriaeth a'n hanghyfiawnder a'n balchter a'n pechod. Ein dyledswydd yn awr ydyw dysgu gwersi moesol a chrefyddol yr amgylchiadau a gofalu fod pob peth a wnawn ar sylfaeni moesol.[55]

Roedd y cysyniad o 'Ddydd y Farn' yn bodoli felly yn y Wasg Gymreig. Yn debyg i gyfeiriadau at Armagedon, ar y naill law roedd hyn yn esiampl o ddeallusion a sylwebwyr Cymru yn tynnu ar waddol ddiwylliannol y cyfnod a phortreadu'r rhyfel mewn iaith a delweddau Beiblaidd. Ar y llaw arall, dangosai sut yr oedd delfrydau Cristnogol yn cynnal yr ymdrech ryfel Gymreig drwy ei chlymu wrth naratif a phroffwydoliaeth y Beibl. Ynghyd ag ymdrechion eraill i gynnwys crefydd o fewn dehongliad o'r rhyfel, gan gynnwys ffurfio undod crefyddol ymysg y Cynghreiriaid, dangosai cynnwys y Wasg Gymreig y gred ymysg nifer o sylwebwyr fod elfen sanctaidd sylweddol i'r rhyfel. Effaith hyn oedd cyflwyno'r syniad o ryfel cyfiawn i'r ddisgwrs.

## Crefydd yr Almaen

Ceisiodd sylwebwyr y Wasg Gymreig gyfleu darlun o ryfel dau-begynol, y da yn erbyn y drwg, y cyfiawn yn erbyn yr anghyfiawn, a'r sanctaidd yn erbyn y materol. Yn ogystal â phwysleisio'r daliadau crefyddol a oedd ynghlwm wrth ymdrech y Cynghreiriaid, talwyd sylw hefyd i nodweddion crefyddol yr Almaen. Os oedd y Cynghreiriaid yn brwydro rhyfel sanctaidd er mwyn amddiffyn delfrydau Cristnogaeth, rhaid bod y gelyn wedi ymgorffori natur anghristnogol.

Ym misoedd cynnar y rhyfel, cyhuddwyd yr Almaen o fod wedi gwyrdroi Cristnogaeth. Enghraifft amlwg o hyn oedd erthygl gan D. Jones yn *Y Geninen* ym mis Hydref 1914. Cyhuddodd Jones yr Almaen o fod yn wlad 'ffug-sancteiddiol', a heb unrhyw afael ar wir Gristnogaeth. Gobeithiai 'mai y dynged sydd o flaen y teyrn balch, ffug-sancteiddiol a achosodd y rhyfel trychinebus hwn fydd cael ei amddifadu o'i dra-arglwyddiaeth a'i osod mewn cadwynau cedyrn dros ei oes'.[56] Gwelwyd yr ymgyrch i ddelweddu'r Almaenwyr fel cenedl heb ffydd yn cael gafael yn y Wasg Gymreig yn gynnar a chyflwynwyd y ddelwedd o Almaen anghristnogol yn gyson drwy gydol y rhyfel.

---

54 Edwards, Owen. M (1916), 'Dydd Deffro Cydwybod', *Cymru*, Ebrill, 154.
55 Williams, Lewis (1915), 'Y Proffwydi, eu Byd, a'u Duw. Fel esiampl i ni yn yr argyfwng presennol', *Y Traethodydd*, Gorffennaf, 211.
56 Jones, D. (1914), 'Rhyfel y Cenhedloedd', *Y Geninen*, Hydref, 271–2.

Dehonglodd Jones foesau a gwerthoedd yr Almaen yn ôl daliadau Cristnogol Cymru hefyd. Yn yr un erthygl, bychanwyd honiadau'r Almaen o fod yn wlad Gristnogol. Cyfeiriodd Jones at garfan benodol o gymdeithas yr Almaen, y *Junkers*, sef yr uchelwyr a'r dosbarth uwch hanesyddol Prwsiaidd:

> Proffesant [y *Junkers*] gredu a dysgu egwyddorion y grefydd Gristionogol; a dywedir y bydd eu hymherawdwr, yn awr ac eilwaith, yn esgyn i'r pulpud i bregethu sêl dros yr hyn a alwant hwy yn *wladgarwch* ddigon o flaen eu heiddigedd dros lwyddiant y grefydd Gristionogol![57]

Ymosodiad oedd hwn ar honiadau'r Almaen ei bod yn ymgorffori *Kultur* gwaraidd a Christnogol. Dadleuwyd bod y grefydd Almaenaidd yn cynnwys delfrydau hunanol a oedd yn caniatáu i unigolion ymddwyn yn dreisgar ac anufudd. Cynigiodd hyn esboniad ar weithredoedd yr Almaenwyr yng ngogledd Ffrainc a Gwlad Belg lle y dinistriwyd trefi diwylliannol a dienyddiwyd trigolion. Crisialwyd hyn gan E. E. Thomas yn y *Welsh Outlook* ym mis Tachwedd 1914. Gwnaeth Thomas sylw am Brotestaniaeth yr Almaen:

> [It has] become extremely individualistic, and has lost both the political and religious motives which started it on its career.[58]

Yn *Y Traethodydd* yn 1915, cyhuddodd J. Richards ddiwinyddiaeth Brotestannaidd Almaenig hefyd o fod yn 'Dduwiaeth' yn hytrach na Christnogaeth:

> Mae y dybiaeth yn ddiamwys ynom, fod Germani wedi cael tuedd ac ateg nid egwan i'w pholisi milwrol dihafarch presennol, yn y ffaith ddarfod iddi farchog ei hangorion Cristnogol.[59]

Yn nhyb Richards, roedd yr Almaen wedi rhoi'r gorau i'w chredoau Cristnogol a mynd ar drywydd addoli militariaeth yn ei lle.

Safbwynt poblogaidd yn y Wasg Gymreig ynghylch daliadau crefyddol yr Almaen oedd eu natur milwrol. Disodlwyd Duw Cristnogaeth gan Dduw militariaeth. Ymddangosodd y cyhuddiadau hyn yn gynnar, a golygyddol y *Welsh Outlook* ym mis Medi 1914 yn cyhuddo'r Almaen o addoli militariaeth:

> The really dangerous point about militarism in Germany is that it is, with a large part of the nation, almost a religious belief; they have made it into an idol or a philosophy and worship it freely; it is not just something stuck on to their daily lives from above.[60]

---

[57] Ibid., 270.
[58] Thomas, E. E. (1914), 'Germany's Political Ideal', *Welsh Outlook*, Tachwedd, 461.
[59] Richards, J. (1915), 'A gaiff Efe ffydd ar y ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill, 103.
[60] 'Notes of the Month' (1914), *Welsh Outlook*, Medi, 377.

Yn yr un modd, dyma Thomas Hughes yn crybwyll 'Yr Efengyl Germanaidd' yn rhifyn mis Ebrill 1915 *Y Geninen*:

> Un o brif erthyglau yr efengyl hon ydyw fod rhyfel yn anhebgorol tuag at lwyddiant cenedl rymus ac uchelgeisiol, a bod cyfnod hirfaith o heddwch yn niweidiol i ddatblygiad a pherffeithiad rhinweddau materol a moesol cenedl.[61]

Canfuwyd militariaeth yn rym nerthol a hanfodol i'r Almaen yn ei chais am lwyddiant cenedlaethol. Daeth militariaeth yn rhinwedd y drefn wleidyddol, gymaint ag y disodlwyd Cristnogaeth gan filitariaeth fel ffydd i'w haddoli. Nododd O. M. Edwards yn *Cymru* yn 1915 fod yr Almaen wedi 'troi ei natur ddynol yn natur satanaidd'.[62] Ffug-sancteiddrwydd oedd un o nodweddion yr Almaen felly, ac yn gyrru'r grefydd newydd hon yr oedd teyrnas Prwsia. Fel y sylwodd J. Davies yn *Y Geninen* yn 1917:

> Amcan Milwriaeth Prwsia yw creu nefoedd newydd trwy greu daear newydd, a thrwy hynny wyrdroi egwyddor lywodraethol y byd.[63]

Wrth ddangos yr Almaen fel gwlad a oedd wedi colli golwg ar ei chredoau Cristnogol, awgrymwyd yn gydamserol fod Cymru yn driw i'w ffydd. Mynegwyd hyn mewn mwy nag un ffordd, gan gynnwys cerddi, megis 'Gweddiwch Dros yr Almaen' gan J. R. Tryfanwy. Mewn cerdd a oedd yn proffesu cryfder Cristnogaeth dros filwriaeth yr Almaen, gorffennodd yr ail bennill (allan o bedwar) gyda chyfeiriad cwta, unwaith eto, at Ddydd y Farn:

Gweddiwch dros yr Almaen
A lethodd Felgium dlos –
Y gadarn falch a fathrodd
Y Fechan ddewr i'r ffos!
Cyfiawnder llym fo'ch cleddau,
A chariad iddo'n garn, –
Nid gynnau Krupp, ond gwenau Crist,
A erys fore'r Farn.[64]

Cyfeiria'r gerdd hon at falchder a milwriaeth yr Almaen fel nodweddion a oedd yn flaengar yn ei bywyd cenedlaethol. Roedd gofyn am 'weddïo dros yr Almaen' hefyd yn dangos tosturi, yn hytrach na chasineb, ar ran Tryfanwy. Felly, gwelwyd cyhuddiadau mewn sawl ffurf bod yr Almaen yn gwyrdroi ei chrefydd, ond a oedd bob tro'n seiliedig ar y rhagdybiaeth Gymreig ein bod 'ni' yn berchen ar Gristnogaeth 'gwell'.

61 Hughes, Thomas (1915), 'Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol', *Y Geninen*, Ebrill, 93.
62 Edwards, Owen M. (1915), 'Cwymp yr Almaen', *Cymru*, Chwefror, 105.
63 Davies, J. (1917), 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill, 83.
64 Tryfanwy, J. R. (1915), 'Gweddiwch Dros yr Almaen', *Cymru*, Mawrth, 198.

Wrth i'r Almaen gael ei delweddu fel gwlad ddi-Dduw, ceisiwyd adnabod y pechadur – neu'r pechaduriaid – a oedd yn gyfrifol am y cyflwr hwn. Roedd y *Junkers* yn un. Ond yr oedd y Kaisar hefyd yn darged hawdd i nifer o destunau'r Wasg. Dyma a wnaeth Thomas Hughes wrth geisio egluro tarddiad y rhyfel. Ysgrifennodd yn *Y Geninen*:

> Perswadiodd y Caisar ei hun ei fod yn ffafrddyn y Goruchaf – wedi ei ddewis i gario allan fwriadau amlwg rhagluniaeth.[65]

Yn yr un rhifyn, gwelwyd englyn lle bo'r awdur yn anhysbys, sef 'Yr Almaen'. Ochr-yn-ochr â disgrifiadau Beiblaidd o'r Almaen fel 'Sodom bechadurus' ac 'uffern boeth', cyfeiriwyd at y Kaisar fel y 'llyw' a oedd i'w 'ddamnio'. Disgrifiwyd ef yn 'Pharo', fel unben a oedd yn rheoli'r wlad yn llym:

> Dyma hen wlad y damniol lyw; – o'i mewn
> Mae'r Gwn Mawr bâr ddistryw:
> Sodom bechadurus ydyw, –
> Uffern boeth lle mae Pharo'n byw![66]

Gwelwyd hefyd yn yr un rhifyn englyn arall yn cyflwyno'r Kaisar yn benodol fel unigolyn di-Dduw. Ysgrifennwyd 'Y Ceisar' gan Mafonwy a chyhuddwyd ef o fod yn 'gawr didduw' a oedd yn addoli'r diafol:

> Y Ceisar penwan, annuw, – rudda'i ffyrdd
> Ffals â gwaedlyd ddilyw:
> Gwaradwyddus gawr didduw;–
> Wele, ei ddiawl yw ei dduw![67]

Cyhoeddwyd yn *Y Geninen* nifer o englynion tebyg, gydag 'Y Caisar', 'Y Caiser', 'Y Kaiser' yn deitlau poblogaidd.[68] Dengys y sylw a rhoddwyd i Wilhelm II sut yr oedd sylwebwyr Cymru yn gwahaniaethu rhwng y genedl Almaenig gyfan ac elfennau penodol ohoni neu o'i diwylliant. Yn ogystal â'r Caisar, nodwyd dosbarth cymdeithasol y *Junkers*, teyrnas dra-arglwyddiaethol Prwsia, a'r athronydd Friedrich Nietzsche fel rhai a lywiodd natur crefydd yr Almaen. Ysgrifennodd 'Shenkyn ap Morgan' er enghraifft, am rôl Prwsia yn rhifyn Hydref 1917 y *Welsh Outlook*:

> The rule of Prussia in Germany has always savoured more of the dark reactionism of the East, than of clean and progressive Christianity.[69]

---

65 Hughes, Thomas (1915), 'Achlysur ac Achos y Rhyfel Bresennol', *Y Geninen*, Ebrill, 91–2.
66 'Yr Almaen' (1915), *Y Geninen*, Ebrill, 135.
67 Mafonwy (1915), 'Y Ceisar', *Y Geninen*, Ebrill, 89.
68 Cyhoeddwyd 11 englyn o dan y teitlau hyn yn *Y Geninen* rhwng Ebrill 1915 a Ionawr 1918. Gwelwyd englynion 'Yr Almaen' ym mis Ebrill 1915 ac 'Y Crown Prins' ym mis Hydref 1916 hefyd yn sôn am y Caisar.
69 ap Morgan, Shenkyn (1917), 'The War in the Balkans', *Welsh Outlook*, Hydref, 338.

Rai misoedd ynghynt yn *Y Geninen*, soniwyd am ddylanwad rhai o unigolion mwyaf blaenllaw diwylliant ac athroniaeth yr Almaen ar gwrs crefyddol y wlad:

> Ysbryd y gwrthgiliad [o Gristnogaeth] a lefarai trwy Nietzsche a Treitschke, a hwnnw sy'n awr wedi ymgnawdoli yn ymerodraeth Germany. Hwnnw sydd heddyw'n gwneud Europe yn Aceldama fwy gwaedlyd nag erioed o'r blaen.[70]

Ymddangosodd Friedrich Nietzsche yn gynnar iawn yn ymdriniaeth y Wasg. Yn '*Man Versus the Superman*', ymosododd y Parchedig John Neville Figgis ar syniadaeth wrth-Gristnogol yr athronydd Almaenaidd.[71] Cyfeiriwyd yn nheitl yr erthygl at yr Übermensch, sef delfryd Nietzsche o'r hyn y dylai dynoliaeth anelu ato, fel yr amlygwyd yn ei destun 1883, *Thus Spoke Zarathustra*. Cyflwynwyd yr Übermensch fel cyferbyniad i arallfydiaeth Cristnogaeth er mwyn annog y ddynoliaeth i'w gwella ei hun. Roedd yn gysyniad a oedd yn gwrthdaro'n llwyr yn erbyn Cristnogaeth gan ei fod yn rhybuddio ei gynulleidfa i wrthod unrhyw syniadaeth oruwchnaturiol, megis Cristnogaeth. Cyplyswyd yr Übermensch â marwolaeth Duw. Ar ôl datgan '*God is dead*', cyflwynwyd yr Übermensch fel crëwr gwerthoedd newydd. Mewn byd heb grefydd, ni fyddai bellach unrhyw fframwaith moesau a fyddai'n creu a mesur gwerthoedd, gan greu gwacter lle y gallai'r Übermensch osod ei werthoedd ei hun. Ond i Figgis, y gwerthoedd hyn oedd militariaeth a dirywiad gwareiddiad, a gynrychiolai grefydd wyrgam. Esboniodd:

> Germany, or rather Prussia, if she attains world-empire, would in the same way propagate her own ideals and with them perhaps a new world-religion. This religion would be some development of Nietzsche's gospel of *The Will to Power*, the title of one of his later and most illuminating works. That is what we mean by saying that Nietzsche is the torch that lit this flame.[72]

Tebyg oedd barn J. Richards yn *Y Traethodydd*, yn cyhuddo'r Almaen o'i 'hethol' ei hun yn 'ddiamod' uwchben cenhedloedd eraill Ewrop. Soniodd am 'hyder hunanol yr Almaen' a chysylltodd enaid y wlad â syniadaeth Nietzsche:

> Wele genedl wedi ceisio gwneud dyn newydd, eithr wrth batrwm a chynllun estronol iawn i arfer a defion cread a thwf; a Duw a'i gŵyr, mae ei ymbalfalu direswm a diedifar yn dryllio byd.[73]

Roedd targedu Nietzsche yn agwedd gyffredin ar yr ymateb Prydeinig ehangach. Cymaint oedd presenoldeb Nietzsche yng ngornest ddiwylliannol y rhyfel, fe'i gelwid gan rai y rhyfel 'Ewro-Nietzscheaidd'. Noda Stuart Wallace enghraifft o siop lyfrau ym Mhiccadilly a oedd yn arddangos y casgliad diweddaraf o weithiau Nietzsche yn yr iaith Saesneg. Y geiriad a

[70] Selotes, Simon (1917), 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr, 24.
[71] Figgis, John Neville (1914), 'Man Versus the Superman', *Welsh Outlook*, Hydref, 422.
[72] Ibid.
[73] Richards, J. (1915), 'A gaiff Efe ffydd ar y ddaear?', *Y Traethodydd*, Ebrill, 100.

ddefnyddiwyd er mwyn eu hysbysebu oedd '*The Euro-Nietzschean war. Read the Devil in order to fight him the better*'.[74] Roedd targedu Nietzsche, neu unrhyw Almaenwr unigol arall, megis y Kaisar, yn enghraifft o hanfodoli'r Almaen, sef ceisio esbonio gweithredoedd yr Almaen yn ôl dysg ei phobl. Yn wir, gwelwyd triniaeth debyg i'r cadfridog a'r hanesydd, Friedrich von Bernhardi, a'r gwleidydd cenedlaetholgar, Heinrich von Treitschke, wrth i ddeallusion Prydain dynnu sylw at ysgrifau rhyfelgar yr unigolion hyn fel tystiolaeth o fwriad yr Almaen i gychwyn y rhyfel.

Roedd yr Almaen felly, yn ymgorffori rhinweddau gwrthgrefyddol Nietzsche, a llwyddodd propagandwyr, deallusion, ac elît Prydain i gyfleu rhyfel daubegynnol rhwng y Cynghreiriaid Cristnogol a'r Tiwtoniaid di-Dduw. Wrth briodoli tarddiad y rhyfel i'r tueddiadau anghristnogol hyn, bu'n rhaid, felly, i Brydain ymateb yn gyferbyniol. Gyda hynny, byddai'n briodol iawn petai Cristnogaeth yn amlwg yn ymdrech y rhyfel ym Mhrydain er mwyn dinistrio'r grymoedd gwrth-Gristnogol, Nietzscheaidd.

## Dyrchafu Crefydd

Argyhoeddwyd nifer fod y rhyfel yn cynrychioli cychwyn oes newydd. Cynrychiolai'r rhyfel gyfnod o newid mawr wrth i fyd newydd ymddangos ar y gorwel, yn barod i ddisodli'r hen fyd. Byddai hen arferion, egwyddorion, a strwythurau cymdeithasol yn cael eu disodli gan rai newydd yn sgil y rhyfel. Rhoddwyd ystyriaeth ddwys i rôl Cristnogaeth wedi'r rhyfel ac i sut y dylai'r Eglwys a Christnogion ymateb i'r newidiadau yn y byd. Fel y mynegodd y Parchedig Pierce Owen yn 1917, 'colled mawr fydd ennill y frwydr, os na fanteisia crefydd arni'.[75]

Gofynnodd G. Bedford Roberts yn *Y Geninen* yn 1916: 'A drengodd [yr eglwys] yn y ddrycin? A foddwyd yr arch yn nilyw y gyflafan erch?'.[76] Roedd Roberts yn rhagweld cyfnod newydd wedi i'r rhyfel orffen gan gydnabod bod yn rhaid i'r eglwys gynnig atebion newydd i broblemau'r byd: 'dilys yw fod ganddi waith mawr cyfaddasu ei hun ar gyfer y problemau newydd a ddaw'.[77] Profodd y rhyfel i fod yn argyfwng i grefydd sefydliadol, a thybiodd Roberts fod y Gymru Gristnogol 'ar y groesffordd'.[78] Nid llais unigryw oedd hwn ond un a oedd yn gynrychioliadol o sawl un a boenai fod grymoedd materol wedi disodli'r hen rymoedd ysbrydol. Mynegodd yr Aelod Seneddol, ac ariannydd y *Welsh Outlook*, David Davies, yr un gofid yn 1918:

> There is a widespread belief in many quarters that the Church has lost her hold upon humanity, and that more and more, as time goes on, mankind is drifting into the religion of materialism.[79]

[74] Wallace, Stuart (1988), *War and the Image of Germany: British Academics, 1914–1918* (Edinburgh: John Donald), t. 50.
[75] Owen, Pierce (1917), 'Rhai o Wersi y Rhyfel Presennol', *Y Traethodydd*, Ionawr, 80.
[76] Roberts, G. Bedford (1916), 'Yr Eglwys a'r Dyfodol', *Y Geninen*, Hydref, 252.
[77] Ibid.
[78] Ibid., 253.
[79] Davies, David (1918), 'The Church and the League of Nations', *Welsh Outlook*, Mehefin, 179.

Cafodd rôl yr Eglwys ei beirniadu ar sawl achlysur, fel y gwnaeth Edward Davies yng nghylchgrawn gwrth-ryfel *Y Deyrnas* ym mis Medi 2017. Wrth grynhoi digwyddiadau o Gynhadledd Heddwch Llandrindod yr haf hwnnw, datganodd fod yr Eglwys wedi 'colli gafael ar y werin oherwydd aneglurder llais y pulpud ar gwestiynau mawr y dydd'.[80] Ystyriwyd y rhyfel yn dystiolaeth fod yr Eglwys sefydliadol wedi methu yn ei chenhadaeth a'i dyletswydd.

Yn yr un modd, rhybuddiodd W. R. Jones yn *Y Traethodydd* yn 1916 y byddai'r rhyfel yn effeithio ar foesoldeb y wlad drwy 'feithrin ysbryd milwrol'. Er yn gefnogol i'r rhyfel, roedd Jones yn ofalus i osgoi mabwysiadu rhai o werthoedd y rhyfela: 'Y mae rhyfel o'r math hwn', dywedodd, 'yn rhwym o ddeffro a chyffroi'r teimladau isaf, mwyaf bwystfilaidd, a dieflig ynom, a thuedda yn gryf i feithrin ysbryd milwrol'.[81] Ond gwelodd Jones y rhyfel fel cyfle i genhadaeth newydd. Ceisiodd ef 'brofi' bod y rhyfel yn orfodol i Gristnogion er mwyn cymodi dyn â Duw:

> Yn yr Eglwys yng nghymdeithas ein Duw a'n Tad deffroir ynom y teimladau mwyaf tyner, llednais a charuaidd, a marweiddir yr elfennau bwystfilaidd a dieflig.[82]

Yr un oedd syniadaeth Pierce Owen mewn rhifyn diweddarach o'r *Traethodydd*, a ddadleuodd dros ymladd y rhyfel er mwyn sefydlu cymdeithas well i'r dyfodol.[83]

Cynigiwyd atebion tebyg gan eraill, a oedd yn gweld y rhyfel fel arwydd pendant y dylai'r Eglwys ailgydio ym mywyd a threfn cymdeithas. Dadleuodd J. Bennet Williams yn *Y Traethodydd* yn 1918:

> Onid oes yn awr gyfle gwell nag a fu erioed i egluro a chymell Gwirioneddau hanfodol ein Crefydd i ystyriaeth dynion?[84]

Nododd J. Lewis Williams 'gyfle' yr Eglwys i arwain gwareiddiad wedi'r rhyfel:

> Dyma angen yr oes, a dyma gyfle yr Eglwys – rhoddi neu ddangos safon bywyd ysbrydol i'r byd.[85]

Aeth T. E. Nicholas gam ymhellach yn *Y Deyrnas* wrth ddadlau dros allu'r Eglwys a Christnogaeth yn y dyfodol nid yn unig i adfywio cymdeithas, ond hefyd i Grist 'lywodraethu'r byd':

> Sonia rhywrai am fyd newydd; ond os mai'r dynion a ddamniodd yr hen fyd fydd ben, gwae fydd i'r byd newydd wedyn. Rhaid i'r Eglwys fynnu llais i Grist yn y byd newydd.[86]

---

[80] Davies, Edward (1917), 'Gwersi'r Gynhadledd', *Y Deyrnas*, Medi, 7.
[81] Jones, W. R. (1916), 'Yr Eglwys a'r Rhyfel', *Y Traethodydd*, Ebrill, 157.
[82] Ibid., 159.
[83] Owen, Pierce (1917), 'Rhai o Wersi y Rhyfel Presennol', *Y Traethodydd*, Ionawr, 70–80.
[84] Williams, J. Bennet (1918), 'Y Pulpud a'r Argyfwng Presennol', *Y Traethodydd*, Ebrill 1918, 130.
[85] Williams, J. Lewis (1918), 'Brwydr y Teyrnasoedd', *Y Geninen*, Ebrill 1918, 93.
[86] Nicholas, T. E. (1917), 'Llywodraeth Crist ar y Byd drwy ei Eglwys', *Y Deyrnas*, Medi 1917, 12.

Gwelodd Nicholas filwriaeth fel y drygioni a fodolai ym mhob gwlad, ac er mwyn gwarchod rhag milwriaeth y dyfodol galwodd ar yr Eglwys i gynnig i'w phobloedd ddehongliad mwy 'cywir' o Grist a fyddai'n briodol i'r byd newydd.

Ategwyd y syniad o fyd newydd yn dyfod ymysg trafodaethau gwleidyddol o sefydlu Cynghrair y Cenhedloedd wedi'r rhyfel, gyda'r bwriad o geisio lleddfu'r posibilrwydd o ryfel yn y dyfodol. Un cefnogwr brwd i Gynghrair y Cenhedloedd oedd David Davies. I Davies, byddai'n rhaid i'r Eglwys ddod yn esbonydd i syniadau'r oes newydd er mwyn adennill ei hygrededd a'i grym mewn cymdeithas. Galwodd ar yr Eglwys i adfer ei statws fel grym cymdeithasol drwy gymathu ei hegwyddorion â gweledigaeth wleidyddol Cynghrair y Cenhedloedd. Byddai methiant yr Eglwys i sefydlu hyn yn drychineb:

> Will it not be truthfully said that if the Church loses this opportunity, our profession of religion is a sham and an illusion?[87]

Wedi ei argyhoeddi dros gyfiawnder y rhyfel, galwodd Davies am 'aberth' er mwyn gwireddu dyfodol yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol:

> When the issues at stake are vital to the moral progress of the human race, compromise is unthinkable. Sacrifice for an ideal, and for the Right, is the watchword of the New Testament ... The duty of the Church lies rather in the purification of our war-aims, and in preparing the minds of her followers for a righteous reconstruction of the world. Above all, she should insist that the new structure should be based upon the principles of Christianity.[88]

Cefnogwyd safbwynt Davies mewn llythyr i'r *Welsh Outlook* gan y diwinydd a'r llenor, David Miall Edwards. Roedd Edwards ar y pryd yn dal y Gadair Athroniaeth Crefydd ac Athrawiaeth Gristnogol yng Ngholeg Coffa, Aberhonddu, ac yr oedd hefyd yn olygydd y papur enwadol *Y Dysgedydd*. Credai Edwards fod amcanion y gwleidyddion yn urddasol ac yn gywir, ond ni fedrai Cynghrair y Cenhedloedd lwyddo heb gefnogaeth 'foesol' cymdeithas. '*And who is to supply this*', meddai Edwards, '*if not the Churches?*'.[89]

Bu pwysau hefyd ar yr eglwysi i'w diwygio eu hunain, a thrafodwyd y posibilrwydd o uno'r enwadau gwahanol yng Nghymru. Yn Ionawr 1917, mynegodd 'Simon Selotes' fod y rhyfel wedi llwyddo i wanhau'r rhwystrau enwadol a fodolai mewn Anghydffurfiaeth. A'r rhyfel yn cael ei ymladd yn enw Crist, nid oedd unrhyw le ar gyfer sectyddiaeth Gristnogol. Unodd y rhyfel y gwahanol enwadau mewn achos cyffredin gan gynnig mewnwelediad posibl i'r dyfodol. Galwyd y posibilrwydd hwn yn un o ganlyniadau 'mwyaf bendithiol' y rhyfel, gyda'r gobaith y byddai'r enwadau yn nesáu at ei gilydd yn y dyfodol a rhoi i'r naill ochr

[87] Davies, David (1918), 'The Church and the League of Nations', *Welsh Outlook*, Mehefin, 179.
[88] Ibid., 180.
[89] Edwards, David Miall (1918), 'Correspondence', *Welsh Outlook*, Gorffennaf, 233.

ddaliadau a oedd yn gwrthdaro â'i gilydd.[90] Cyfeiriwyd at gynlluniau yn Lloegr i sefydlu Eglwys Rydd Genedlaethol ac at alwadau yn yr Alban i uno'r holl enwadau. Ymddengys fod y rhyfel wedi datgelu'r ffaith fod gan yr enwadau gwahanol gynifer o bethau'n gyffredin:

> Ac onid yw'n bryd bellach tewi â sôn, yng Nghymru, am Gydffurfwyr ac Anghydffurfwyr, am Eglwys Sefydledig ac Eglwysi Rhyddion. Nid oes ystyr mwyach i'r termau hyn a'u tebyg, oblegid yr ydym *oll* yn eglwysi rhyddion a chydradd. Ac heblaw hynny, yr ydym oll yn un o ran credo, – yn addoli'r un Duw, yn canu'r un emynau, ac yn gobeithio am yr un nefoedd.[91]

Yn yr un rhifyn, awgrymodd y clerigwr a'r bardd, Robert Williams, y dylid sefydlu undeb a fyddai'n llwyfan unedig i holl enwadau Ymneilltuaeth. Williams oedd ficer Betws Garmon a churad parhaol Waunfawr. Dadleuodd y byddai undeb enwadau Ymneilltuaeth yn cryfhau'r enwadau ac yn eu paratoi'n briodol ar gyfer unrhyw ryfel yn y dyfodol drwy ateb apeliadau'r Llywodraeth gydag un llais:

> Gallem, yn un enwad cryf, gario dylanwad mawr i ddwyn diwygiadau cymdeithasol i ddeddfwriaeth y wlad. Ac nid ydym yn hollol sicr na bydd yn rhaid ail ymladd eto frwydrau rhyddid crefyddol gyda mwy o angerddoldeb nag a fu yn rhan i neb o honom ni. Byddai i ni fod yn un yn help mawr yn nydd y frwydr.[92]

Awgryma'r drafodaeth hon fod Cristnogaeth sefydliadol Cymru ar adeg y rhyfel wedi bygwth cael ei chanoli neu ei huno. Mewn sawl achos, dehonglwyd nod y rhyfel fel un cyffredin i holl enwadau'r Anghydffurfwyr. Ymddengys fod natur y rhyfel wedi achosi i sawl sylwebydd roi ystyriaeth ddifrifol i ddyfodol Cristnogaeth sefydliadol. O ganlyniad, cynigiwyd syniadau i ganoli a chryfhau Ymneilltuaeth yn dilyn y rhyfel i warchod rhag rhwystredigaeth a gwrthdaro rhyngddynt yn y dyfodol.

Yn ogystal â diwygio sefydliadol, soniwyd hefyd am ddiwygio ysbrydol fel ymateb i'r rhyfel. Wrth sôn am effeithiau'r rhyfel yn 1917, nododd y gweinidog Methodisitiad Calfinaidd, John Davies, yn *Y Geninen*:

> Dyma ni rhwng mynyddoedd a bryniau ein gwlad â'n gwisg genedlaethol yn ddarnau ar y llawr a'n hanrhydedd yn y llwch.[93]

Tebyg oedd rhagolygon O. M. Edwards am y flwyddyn honno: 'Ni welir yno ond ansicrwydd, difrod anaele, a phryder ingol'.[94] Serch y ddelwedd dywyll ac anobeithiol hon, roedd gobaith y byddai'r dyfodol yn un llewyrchus yn dilyn y rhyfel. Gwelwyd y rhyfel gan sawl un fel 'gwawr' newydd yn torri. Ysgrifennodd Davies am 'greu daear newydd' trwy 'wneud nefoedd

---

[90] Selotes, Simon (1917), 'Dylanwad y Rhyfel ar Grefydd y Dyfodol', *Y Geninen*, Ionawr, 26–7.
[91] Ibid., 27.
[92] Williams, Robert (1917), 'Undeb yr Enwadau', *Y Geninen*, Ionawr, 34.
[93] Davies, John (1917), 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill, 84.
[94] Edwards, Owen, M. (1917), 'Y Rhagolygon', *Cymru*, Ionawr, 11.

newydd'. Nid oedd cyflwr presennol Cristnogaeth y wlad yn 'foddhaol' i Davies. Y gobaith oedd 'dyrchafu'r wlad' yn dilyn y rhyfel:

> Os yw crefydd i barhau yn ei dylanwad ar ein gwlad, rhaid yw ei dyrchafu i dir uwch ac awyrgylch gliriach nag y mae ynddo ar hyn o bryd.[95]

Mynegodd hefyd y rhyfel fel cyfle i 'buro' cymdeithas a dadleuodd dros 'undeb ysbryd' a 'meithrin *esprit de corps*' ymysg yr enwadau. Drwy wneud, 'fe grëir nefoedd newydd, a cha'n gwehelyth fwynhau daear newydd, a Chymdeithas newydd – burach ac iachach'.[96]

Bwriad y gymdeithas newydd 'burach ac iachach' oedd rhoi terfyn ar ryfeloedd y dyfodol. Un ffordd o wireddu hyn fyddai sefydlu 'brawdgarwch Cristnogol'. Dyma oedd gweledigaeth D. Stanley Jones a ysgrifennodd at *Y Deyrnas*. I Jones, byddai'r 'brawdgarwch Cristnogol' yn seiliedig ar 'berthynas ysbrydol dynion â'i gilydd yn Iesu Grist' yn hytrach na fel aelodau o'r un genedl.[97] Roedd y rhyfel yn symptom nid o fethiant Cristnogaeth, ond yn hytrach methiant yr Eglwys i gyfieithu'r efengyl. Yn rhifyn nesaf *Y Deyrnas*, mynnodd yr athro a'r llenor, John Evan Thomas, nad oedd y rhyfel yn ymwneud â 'rhyddid' a 'chyfiawnder' ond yn hytrach yn ganlyniad 'anocheladwy i syniadau cyfeiliornus ymhob gwlad am ddyletswydd dyn at ddyn, a dyn at Dduw'.[98] Os gallai'r Eglwys blannu brawdgarwch Cristnogol yn ei dilynwyr, byddai'r ysbryd Cristnogol, drwy ei natur drawswladol, yn drech na grym cenedlgarwch ac yn trechu unrhyw anghydfod rhwng gwladwriaethau. Esboniodd Thomas:

> Rhaid i amcanion cenedlaethol ac ymerodraethol gael eu symud o'r neilltu, a gosod lles cyffredinol dynoliaeth yn eu lle.[99]

Roedd pwyslais yr 'ysbryd' yn fwy amlwg mewn rhai teitlau nag eraill. Mae'n wir i'r cysyniad fod yn gymharol gyffredin yn y Wasg, fel y dangosir gan J. Lewis Williams yn *Y Geninen* yn 1918 pan ddadleuodd mai 'un o wendidau penaf bywyd ein hoes yw ei bod wedi colli safonau ysprydol i'w bywyd'.[100] Ond fel cylchgrawn heddychol gwrth-ryfel, roedd yr 'ysbryd' i'w weld yn fwy amlwg yng nghynnwys *Y Deyrnas*. Mewn apêl i Gristnogion ddechrau adeiladu byd gwell, datganodd Thomas Rees yng ngolygyddol mis Rhagfyr 1917:

> A phrif waith pob Cristion bob dydd hyd ddiwedd y rhyfel a ddylai fod creu barn ac ysbryd yn y wlad hon, trwy weddi, myfyrdod a dadl, a phob moddion moesol ac ysbrydol, a gynhyrchai lywodraeth gymwys a pharod i apelio at reswm ac ysbryd Germani ac Awstria, fel y codai ac y tyfai yno ysbryd rheswm a thangnefedd mewn atebiad.[101]

---

95 Davies, John (1917), 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill, 85.
96 Ibid.
97 Jones, D. Stanley (1917), 'Henry Richard: Apostol Heddwch', *Y Deyrnas*, Ionawr, 5.
98 Thomas, John Evan (1917), 'Y Deml Newydd', *Y Deyrnas*, Chwefror, 12.
99 Ibid.
100 Rees, Thomas (1918), 'Brwydr y Teyrnasoedd', *Y Geninen*, Ebrill, 93.
101 'Egwyddorion ac Amgylchiadau' (1917), *Y Deyrnas*, Rhagfyr, 2.

Roedd y syniad o geisio 'puro' cymdeithas a dylanwadu ar foesau'r gelyn wedi cael ei drafod eisoes yn y Wasg. Awgrymodd Thomas H. Hughes yn 1916, er enghraifft, fod y rhyfel yn gyfle i 'buro' cymdeithas drwy 'ddwyn pob gradd a dosbarth yn y Deyrnas at ei gilydd'.[102] Fel un arall a welodd y rhyfel fel cyfle i ffurfio cymdeithas well ar gyfer y byd newydd, galwodd ef y rhyfel yn 'foddion'.

Roedd y trafodaethau yn y Wasg ynghylch rôl Cristnogaeth ar ôl y rhyfel yn enghraifft o elît Cymru yn dygymod nid yn unig ag effeithiau'r rhyfel ar grefydd, ond hefyd dyfodiad moderniaeth. Ystyriwyd gan sawl un fod yr hen fyd yn cael ei ddisodli gan y rhyfel, ac felly trodd y drafodaeth i ganolbwyntio ar sut i greu cymdeithas ddwyfol ar gyfer y dyfodol. Yn ganolog i'r drafodaeth hon oedd addasu'r Eglwys a'r Efengyl i gwrdd ag anghenion yr oes newydd. Fel y soniodd J. Davies yn *Y Geninen*, roedd galw bellach ar 'arweinwyr' crefyddol i arwain bywyd ac enaid y wlad. Dywedodd:

> Y mae angen am wir arweinwyr i'w dyrchafu i dir uwch o fyw. Nid trwy ddeddfau seneddol y ceir yr adnewyddiad hwn.[103]

Y bwriad felly oedd 'dyrchafu' crefydd i lwyfan a fyddai unwaith eto yn rhoi trefn ar gymdeithas a gwleidyddiaeth y wlad.

## Casgliadau

Dadleua Alan Kramer fod diwylliant dominyddol ledled Ewrop wedi rhuthro i'r achos cenedlaethol ar gychwyn y rhyfel.[104] Yn yr Almaen, noda Kramer ddylanwad Protestaniaeth y wlad fel grym a gynigiai fath o ollyngdod moesol, a'r rhyfel yn cael ei weld fel barn Duw. Yn yr Eidal, gwelwyd trafodaeth ar syniadaeth rhyfel cyfiawn Awstin Sant, tra y gwelwyd Ffrancod yn cydio yn y gred mai Ffrainc oedd merch hynaf yr Eglwys ac y byddai'r rhyfel yn 'paratoi' achubiaeth y genedl.[105] Yn Lloegr hefyd, llwyddodd agweddau ar Eglwys Loegr i gorddi rhethreg Gristnogol wrth i Esgob Llundain, A. F. Winnington-Ingram, gyhoeddi bod y rhyfel yn un sanctaidd, ac y byddai'r milwyr a laddwyd yn mynd i'r nefoedd.[106] Ymddengys felly fod y profiad Cymreig wedi dilyn y patrwm Ewropeaidd hwn wrth i grefydd ddod i'r amlwg yn y Wasg mewn ymgais i roi ystyr i'r rhyfel.

Mor gynnar ag Argyfwng Gorffennaf, ceisiwyd dehongli'r hyn a allai ddigwydd mewn ffordd gyfarwydd i'r gynulleidfa Gymreig drwy dynnu ar agwedd ar brif ffrwd diwylliant Cymru. Amlygwyd enghreifftiau o hanesyddiaeth Gristnogol, megis Armagedon a Dydd y Farn, gan y Wasg. Dehongliad oedd hwn a oedd yn ceisio cysylltu proffwydoliaethau Beiblaidd â digwyddiadau cyfoes. Gwelwyd hefyd ymdrechion i ystyried crefydd y Cynghreiriaid fel grym unedig yn erbyn yr Almaen ddi-Dduw ac anwaraidd, a chyflwynwyd y rhyfel fel un

---

[102] Hughes, Thomas H. (1916), 'Pa Les Ddaw o'r Rhyfel?', *Y Geninen*, Ebrill, 131.
[103] Davies, J. (1917), 'Nefoedd Newydd a Daear Newydd', *Y Geninen*, Ebrill, 84.
[104] Kramer, *Dynamic of Destruction*, t. 175.
[105] Ibid., tt. 176–7.
[106] Inglis, Ken, 'Foreword', yn Becker, *War and Faith*, t. xi.

sanctaidd a fyddai'n gwarchod y ffordd Gristnogol a Chymreig o fyw. Yn ogystal â hyn, drwy gydol y rhyfel, roedd iachawdwriaeth yn thema yn y drafodaeth grefyddol. Cred nifer oedd bod yr Eglwys wedi methu yn ei darpariaeth a'u chenhadaeth. Roedd y rhyfel hefyd yn symptom o gymdeithas a oedd wedi colli gafael ar ei ffydd, ac felly er mwyn sicrhau dyfodol heb ryfel, roedd 'dyletswydd' ar bobl i edifarhau, plannu Cristnogaeth ym mhob dyn, a chynnig iachawdwriaeth o'r holl ddrygioni yn y byd.

Roedd y syniad o iachawdwriaeth yn gysylltiedig â'r canfyddiad o fyd newydd ar y gorwel, wrth i'r hen drefn gael ei disodli gan y rhyfel. Gellid dehongli'r rhyfel felly, fel y gwna Patrick Houlihan, fel cyfnod o foderniaeth yn herio arferion crefyddol traddodiadol.[107] O ganlyniad, amlygwyd y syniad fod y rhyfel yn gyfle i 'buro' cymdeithas, ac ymddangosodd trafodaeth ynglŷn â ffurfio byd gwell yn dilyn y rhyfel. Daeth dwy ysgol o feddwl i'r amlwg ynghylch hyn. Ar un lefel, ystyriwyd pa fath o rôl y dylai'r Eglwys ei chwarae yn y dyfodol er mwyn sicrhau cymdeithas well na'r un a aeth i ryfel yn 1914. Ar lefel arall, rhoddwyd pwyslais ar 'ysbryd' yr unigolyn. Drwy gysylltu'r unigolyn ag egwyddorion Cristnogol, a'i wneud yn barod i weithredu dysgeidiaeth Crist, gobeithid y gellid creu cymdeithas newydd ar gyfer yr oes newydd; cymdeithas a oedd yn 'lanach' ac yn fwy 'pur' ei hysbryd. Daeth consensws i'r amlwg yn y Wasg y gallai canlyniadau'r rhyfel fod yn sanctaidd, hyd yn oed os nad oedd y rhyfel ei hun yn sanctaidd, yn ôl rhai. Dangosai hyn oll fod crefydd, p'un ai y'i defnyddiwyd i gefnogi'r rhyfel neu i'w wrthwynebu, wedi bod yn rhan annatod o'r ymateb Cymreig i'r rhyfel, ac wedi ffurfio rhan bwysig o'r diwylliant rhyfel Cymreig.

## Llyfryddiaeth

**Ffynonellau gwreiddiol:**
**Papurau Newydd a Chyfnodolion / Misolion**
*Baner ac Amserau Cymru*
*Y Beirniad*
*Cambria Daily Leader*
*Cymru*
*Daily Mail*
*Y Deyrnas*
*Y Geninen*
*Seren Gomer*
*Y Traethodydd*
*Y Tyst*
*Welsh Outlook*

[107] Houlihan, 'Religious Mobilization and Popular Belief'.

**Ffynonellau eilaidd:**

**Llyfrau**

Audoin-Rouzeau, Stéphane, a Becker, Annette (2003), *Understanding the Great War 14–18*, cyfieithiwyd gan Catherine Temerson (New York: Hill and Wang).

Ballin, Malcolm (2013), *Welsh Periodicals in English, 1882–2002* (Cardiff: University of Wales Press).

Barlow, Robin (2014), *Wales and World War One* (Llandysul: Gomer Press).

Becker, Annette (1998), *War and Faith: The Religious Imagination in France, 1914–1930* (Oxford: Berg Publishers).

Becker, Jean-Jacques (1985), *The Great War and the French People*, cyfieithiwyd gan Arnold Pomerans (Providence: Berg).

Boniface, Xavier (2014), *Histoire religieuse de la Grande Guerre* (Paris: Librairie Arthème Fayard).

Bridgham, Fred (2006) (gol.), *The First World War as a Clash of Cultures* (Rochester, NY: Camden House).

Burke, Peter (2004), *What is Cultural History?* (Cambridge: Polity Press).

Burleigh, Michael (2007), *Sacred Causes: The Clash of Religion and Politics, from the Great War to the War on Terror* (New York: Harper Collins).

Cragoe, Matthew, a Williams, Chris (2007) (goln), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press).

Davies, Dewi Eirug (1988), *Byddin y Brenin: Cymru a'i chrefydd yn y Rhyfel Mawr* (Abertawe: Tŷ John Penry).

Davies, John (2007), *A History of Wales* (London: Penguin Books).

Evans, D. Gareth (2000), *A History of Wales 1906–2000* (Cardiff: University of Wales Press).

Fussell, Paul (1975), *The Great War and Modern Memory* (Oxford: Oxford University Press).

Gaffney, Angela (2000), *Aftermath: Remembering the Great War in Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Gregory, Adrian (2008), *The Last Great War: British Society and the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press).

Gower, Jon (2013), *The Story of Wales* (London: BBC Books).

Gramsci, Antonio (2007), *Selections from the Prison Notebooks,* cyfieithiwyd gan Hoare, Quitin, a Smith, Geoffrey Nowell (London: Lawrence & Wishart Ltd).

Hicks, Jonathan (2016), *The Welsh at Mametz Wood: The Somme 1916* (Talybont: Y Lolfa).

Hicks, Jonathan (2017), *The Welsh at Paschendaele* (Tal-y-Bont: Y Lolfa).

Hoover, Arlie Jack (1989), *God, Germany, and Britain in the Great War: A Study in Clerical Nationalism* (New York: Praeger).

Horne, John (1997) (gol.), *State, society and mobilization in Europe during the First World War* (Cambridge: Cambridge University Press).

Houlihan, Patrick J. (2015), *Catholicism and the Great War: Religion and everyday life in Germany and Austria-Hungary, 1914–1922* (Cambridge: Cambridge University Press).

Hughes, Clive (2014), *I'r Fyddin Fechgyn Gwalia! Recriwtio i'r Fyddin yng Ngogledd-Orllewin Cymru 1914–16* (Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch).

Jenkins, Geraint (2007), *A Concise History of Wales* (Cambridge: Cambridge University Press).

Jenkins, Gwyn (2014), *Cymry'r Rhyfel Byd Cyntaf* (Talybont: Y Lolfa).

Jenkins, Philip (1992), *The History of Modern Wales 1536–1990* (London: Longman).

Jenkins, Philip (2014), *The Great and Holy War: How World War I changed religion for ever* (Oxford: Lion Books).

John, Steven (2017), *Welsh at War: From Mons to Loos and the Gallipoli Tragedy* (Barnsley: Pen and Sword).

Jones, John Graham (1990), *The History of Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Jones, R. Merfyn (1999), *Cymru 2000: Hanes Cymru yn yr Ugeinfed Ganrif* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Kocka, Jurgen (1984), *Facing Total War: German Society, 1914–1918,* cyfieithiwyd gan Barbara Weinberger (Cambridge, MA: Cambridge University Press).

Kramer, Alan (2008), *Dynamic of Destruction: Culture and Mass Killing in the First World War* (Oxford: Oxford University Press).

Llwyd, Alan (2018), *Colli'r Hogiau: Cymru a'r Rhyfel Mawr 1914–1918* (Llandysul: Gomer).

Matthews, Gethin (2016) (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Morgan, Kenneth O. (1982), *Rebirth of a Nation: A History of Modern Wales* (Oxford: Oxford University Press).

Morgan, Dafydd Densil (2011), *The Span of the Cross: Chrisian Religion and Society in Wales 1914–2000* (Cardiff: University of Wales Press).

Morris, Jan (2000), *Wales: Epic Views of a Small Country* (London: Penguin Books).

Purseigle, Pierre (2005) (gol.), *Warfare and Belligerence: Perspectives in First World War Studies* (Lieden: Brill).

Robbins, Keith (2008), *England, Ireland, Scotland, Wales: The Christian Church 1900–2000* (Oxford: Oxford University Press).

Ross, David (2005), *Wales: History of a Nation* (New Lanark: Geddes and Grosset).

Schweitzer, Richard (2003), *The Cross and the Trenches: Religious Faith and Doubt Among British and American Great War Soldiers* (Westport: Praeger).

Smith, Leonard V., Audoin-Rouzeau, Stéphane, a Becker, Annette (2003) (goln), *France and the Great War 1914–1918* (Cambridge: Cambridge University Press).

Snape, Michael (2005), *God and the British Soldier: Religion and the British Army in the First and Second World Wars* (London: Routledge).

Snape, Michael, a Madigan, Edward (2016) (goln), *The Clergy in Khaki: New Perspectives on British Army Chaplaincy in the First World War* (London: Routledge).

Stephens, Meic (1998), *The New Companion to the Literature of Wales* (Cardiff: University of Wales Press).

Wallace, Stuart (1988), *War and the Image of Germany: British Academics, 1914–1918* (Edinburgh: John Donald).

Williams, Gwyn Alf (1985), *When Was Wales? A History of the Welsh* (London: Penguin Books).

Winter, Jay (1995), *Sites of Memory, Sites of Mourning: The Great War in European Cultural History* (Cambridge: Cambridge University Press).

Winter, Jay (2014) (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press).

Winter, Jay, a Prost, Antoine (2005), *The Great War in History: Debates and Controversies, 1914 to the Present* (Cambridge: Cambridge University Press).

**Penodau Llyfrau**

Becker, Annette, 'Faith, Ideologies, and the "cultures of war"', yn Horne, John (2012) (gol.), *A Companion to World War I* (Chichester: Wiley-Blackwell), tt. 234–48.

Davies, Russell (2015), *People, Places and Passions: 'Pain and Pleasure': A Social History of Wales and the Welsh, 1870–1945* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 275–318.

Gregory, Adrian, 'Beliefs and Religion', yn Winter, Jay (2014) (gol.), *The Cambridge History of the First World War: Volume III: Civil Society* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 418–44.

Matthews, Gethin, '"Un o Ryfeloedd yr Arglwydd": Eglwysi Anghydffurfiol Cymru a'r Rhyfel Mawr, 1914–1915', yn Matthews, Gethin (2016) (gol.), *Creithiau: Dylanwad y Rhyfel Mawr ar Gymdeithas a Diwylliant yng Nghymru* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru), tt. 34–62.

Pope, Robert, 'Christ and Caesar? Welsh Nonconformists and the State, 1914–1918', yn Cragoe, Matthew, a Williams, Chris (2007) (goln), *Wales and War: Society, Politics and Religion in the Nineteenth and Twentieth Centuries* (Cardiff: University of Wales Press), tt. 165–83.

**Erthyglau**

Besier, Gerhard (2015), 'The Great War and Religion in Comparative Perspective: Why the Christian Culture of War Prevailed over Religiously-Motivated Pacifism in 1914', *Kirchliche Zeitgeschichte,* 28 (1), 21–65.

Houlihan, Patrick J. (2015), 'The Churches', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*, <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/the_churches> [Cyrchwyd: 15 Mawrth 2016].

Houlihan, Patrick J. (2015), 'Religious Mobilization and Popular Belief', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*, <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/religious_mobilization_and_popular_belief> [Cyrchwyd: 15 Mawrth 2016].

Lloyd, Tecwyn (1972), 'Welsh Public Opinion and the First World War', yn *Planet*, 10, 25–37.

Morgan, Dafydd Densil (1997), '"Christ and the War": Some Aspects of the Welsh Experience, 1914–18', *Journal of Welsh Religious History*, 5, 73–91.

Paiano, Maria (2015), 'Religious Mobilization and Popular Belief (Italy)', yn Daniel, Ute et al., *1914–1918-online. International Encyclopedia of the First World War*, <https://encyclopedia.1914-1918-online.net/article/religious_mobilization_and_popular_belief_italy> [Cyrchwyd: 12 Mawrth 2016].

Pope, Robert (2014), 'Duw ar Drai ar Orwel Pell: Capeli Cymru a'r Rhyfel Mawr', *Y Traethodydd*, Hydref, 213–30.

Williams, Chris (2003), '"Our War History in Cartoons is Unique": J. M. Staniforth, British Public Opinion, and the South African War, 1899–1902', *War in History*, 20 (4), 491–525.

# Cyfranwyr

### *Dafydd Sills-Jones*

Cyn dechrau ar ei waith fel ymchwilydd, bu Dafydd yn gweithio yn y diwydiant cyfryngau yng Nghaerdydd, Brighton a Llundain ar ystod eang o gynyrchiadau megis y ddrama ddogfen *Atgof* (S4C 1998), gwefan cyfres gyntaf *Big Brother* (Channel 4 1999), hysbysebion rhyngweithiol cynnar Sky (Sky Interactive 1998), a'r ffilm ddogfen nodwedd *The Boy Who Plays on the Buddhas of Bamiyan* (Seventh Art Productions 2004). Mae gwaith ymchwil Dafydd yn croesi isddisgyblaethau 'economi gwleidyddol y cyfryngau', ac 'ymarfer sgrin fel ymchwil'. Mae'n cyd-olygu cyfres llyfrau *Documentary Film Cultures* Peter Lang (<https://www.peterlang.com/view/serial/DFC>), ac mae ei waith ymarfer-fel-ymchwil wedi ei ddangos mewn cynadleddau a gwyliau ffilm rhyngwladol yng Nghymru, Lloegr, Y Ffindir, a Seland Newydd. Ar hyn o bryd, mae Dafydd yn ymchwilio i gynyrchiadau ffilm ddogfen yng Nghymru, Y Ffindir a Seland Newydd trwy amrywiaeth o ddulliau, llwyfannau ac ymagweddau.

### *Anne Marie Carty*

Mae Anne Marie Carty yn wneuthurwraig ffilmiau dogfen ac yn ethnograffegydd gweledol gyda dros bum mlynedd ar hugain o brofiad o ddefnyddio ffilm mewn cyfranogiad, ymgysylltiad a datblygiad cymdeithas. Cwblhaodd ei hyfforddiant fel cynhyrchydd ffilm ddogfen yn y National Film and Television School, gan weithio am sawl blwyddyn ym maes teledu darlledu cyn camu i faes ymchwilio academaidd lle y bu'n gweithio fel anthropolegydd gweledol yn y Granada Centre for Visual Anthropology ym Mhrifysgol Manceinion. Hefyd, bu'n gweithio i'r BBC yn Llundain. Ar hyn o bryd, mae'n fyfyrwraig PhD yn CREAM, Prifysgol Westminster.

### *Iwan Wyn Rees*

Darlithydd yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yw Iwan Wyn Rees. Ymunodd ag Ysgol y Gymraeg yn 2012 pan y'i penodwyd yn Gydymaith Ymchwil ar brosiect a ganolbwyntiai ar anawsterau ynganu dysgwyr ym maes Cymraeg i Oedolion. Cyn hynny, derbyniodd nawdd oddi wrth yr AHRC a'i galluogodd i ymchwilio i rai tafodieithoedd Cymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Dyfarnwyd iddo ddoethuriaeth yn 2013 am ddadansoddiad o amrywiadau ffonolegol mewn dwy ardal drawsnewid benodol, sef cyffiniau Harlech (ardal ei febyd) a Bro Dysynni (cyffiniau Tywyn, Meirionnydd), a chyhoeddodd sawl erthygl academaidd yn seiliedig ar yr astudiaeth honno (yn *Studia Celtica*, *Gwerddon* a'r *Journal of Celtic Linguistics*). Derbyniodd Iwan nawdd hefyd oddi wrth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ar gyfer creu dau adnodd tafodieithol penodol; y naill ar gyfer actorion a sgriptwyr, a'r llall ar gyfer tiwtoriaid Cymraeg ym Mhatagonia.

***Jonathan Morris***

Mae Jonathan Morris yn gweithio fel Darlithydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn Ieithyddiaeth ac Ieithyddiaeth Gymhwysol yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Mae ei ymchwil yn canolbwyntio ar agweddau sosioieithyddol ar ddwyieithrwydd a chaffael ail iaith. Mae ganddo ddiddordeb mewn sut y defnyddir ieithoedd ac mewn sut y mae ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar sut y mae pobl yn cynhyrchu lleferydd mewn cyd-destunau dwyieithog ac ail-iaith. Mae ei waith diweddar yn cynnwys dadansoddiad o /l/ yn lleferydd siaradwyr dwyieithog Cymraeg-Saesneg (*Journal of Sociolinguistics*) ac astudiaeth o drosglwyddo'r Gymraeg a'i defnydd o fewn y teulu (Llywodraeth Cymru).

***Gruffydd Jones***

Mae Gruffydd Jones yn fyfyriwr PhD yn adran IBERS, Prifysgol Aberystwyth, o dan oruchwyliaeth Dr Dylan Gwynn-Jones a Dr John Scullion. Mae ei brosiect yn ymchwilio i sut y mae'r planhigyn ymledol *Rhododendron ponticum* yn rhyngweithio gyda'i amgylchedd, gyda ffocws penodol ar sut mae'n newid nodweddion biocemegol y pridd. Mae hyn yn cynnwys dylanwadu ar y nifer o faetholion, newid pH a syntheseiddio cyfansoddion tocsig a all effeithio ar dwf rhywogaethau eraill.

***Meilyr Powel***

Mae Meilyr Powel yn fyfyriwr ymchwil yn ei flwyddyn olaf yn astudio ar gyfer doethuriaeth yn Adran Hanes Prifysgol Abertawe o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae ei ymchwil yn ymwneud â'r wasg Gymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a'r gwahanol ystyron a roddwyd i'r rhyfel gan y wasg. Mae'r ymchwil yn cyfrannu at ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o brofiad Cymru yn ystod y Rhyfel Mawr drwy adnabod y wasg fel rhan allweddol o'r gymdeithas sifil. Trwy astudiaeth a dadansoddiad o'i chynnwys, cynigir ffyrdd o ddeall hanfodion y profiad Cymreig o'r Rhyfel Byd Cyntaf, gan dynnu sylw at nodweddion y diwylliant rhyfel yng Nghymru.

Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261

9 771741 426008